www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 513
Mehefin
2023

# Gweld sêr

Llanrug ydi'r lle i fod mae'n debyg. Mae'r pentref wedi bod yn denu rhai o 'selebs' mwyaf Cymru, Lloegr a gogledd America yn ddiweddar, gan roi bro yr *Eco* ar y map!

A welsoch chi raglen *Iaith ar Daith* ar S4C nos Sul 14eg Mai? Os nad ydych yn gyfarwydd â'r rhaglen, mae dysgwr y Gymraeg yn cael eu paru gyda siaradwr rhugl sy'n wyneb cyfarwydd, ac mae'r ddau neu ddwy yn mynd ar daith i wahanol leoliadau o amgylch Cymru er mwyn dysgu ac ymarfer yr iaith.

Cafodd gogoniant Pen Llyn a Llyn Padarn eu gweld yn rhaglen gyntaf y gyfres pan ymwelodd Joe Ledley a Dylan Ebeneser â'r ardal. Yna, yn yr ail raglen fe ymwelodd yr actoresau Jessica Hynes a Lisa Palfrey â changen Llanrug o Ferched y Wawr. Fe gafodd Jessica y dasg o feirniadu cystadleuaeth crefft y gangen, ac o wobrwyo'r buddugwyr. Cafodd sgwrs, yn Gymraeg, gyda rhai o aelodau'r gangen ac roedd ei brwdfrydedd yn heintus. Os na welsoch chi'r rhaglen, ac er mwyn canfod pwy enillodd y gystadleuaeth, gallwch chwilio am y rhaglen ar S4C Clic a'i gwylio eto. Trowch at newyddion Llanrug ar dudalen 14 i weld rhagor o luniau a darllen mwy.

Mae ganddon ni ddwy seren leol yn gwneud yn wych ar Ffit Cymru ar hyn o bryd, wrth gwrs, a phob lwc i'r ddwy.

Mae'r 'selebs' nesaf yn fwy cyfarwydd i nifer ohonom, ac un ohonynt yn fab o'r fro. Ia, mae Trystan ac Emma ar eu ffordd i Lanrug gyda'u rhaglen boblogaidd *Prosiect Pum Mil*. Bydd y rhaglen yn cael ei ffilmio yng Nghwt Band Llanrug ganol Gorffennaf, gan fod y band wedi gofyn am eu cymorth i sbriwsio'r cwt ac i roi ail wynt i'r band yn dilyn cyfnod Cofid-19. Trowch eto at newyddion Llanrug ar dudalen 15 i ddarllen rhagor, ac i weld os y gallwch chi helpu.

Yn olaf, efallai nad oedd sêr Hollywood yn gallu dod i Lanrug ond felly mae pobl Llanrug yn mynd at sêr Hollywood. Trowch at dudalen 31 i ddarllen hanes camp wych Mari Gibbard yn ennill dyrchafiad gyda Chlwb Pêl-droed Merched Wrecsam. Fel aelod o'r garfan fuddugol fe gafodd Mari deithio ar y bws o amgylch strydoedd Wrecsam er mwyn dathlu gyda'r cefnogwyr. Dau deithiwr arall ar y bws, wrth gwrs, oedd perchnogion y clwb sef Ryan Reynolds a Rob McElhenney. Mae'r tri yn edrych yn hapus iawn!

Cofiwch, mi ydan ni i gyd yn gwybod mai'r 'selebs' go iawn ydi pobl bro yr *Eco*!







## Yn y rhifyn hwn:

- Taith Ysgol Brynrefail i'r UDA – tud 23
- Tywyswyr cynnar yr Wyddfa ar lwyfan – tud 11
- Busnesa – Cadwyn Ogwen a Tyddyn Teg – tud 31
- Ennill cystadleuaeth logo Wyddfa Di-blastig – tud 24
- Dal i redeg... ar y lôn – tud 30



30

24

YR WYDDFA DDI-BLASTIG
PLASTIC FREE YR WYDDFA



Elin Enfys

## Chwilio am Elin Enfys

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

### GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk



# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

**Annwyl ddarllenwyr**

Mae Rheilffordd Llyn Padarn wedi derbyn cryn dipyn o adborth wedi'r penderfyniad i gloi'r giât ym Mhenllyn, a hoffem rannu rhywfaint o'r rhesymeg sydd y tu ôl i'r penderfyniad.

Ers y ddau gyfnod clo a gafwyd yn ystod y pandemig Covid-19, mae nifer y bobl sy'n tresmasu'n anghyfreithlon trwy gerdded ar hyd tir a thrac y mae'r rheilffordd yn berchen arno wedi cynyddu'n sylweddol. Mae hyn hefyd wedi cynyddu'r siawns y bydd damweiniau'n digwydd, yn enwedig pan yw'r Rheilffordd yn gweithredu gwasanaethau trenau i deithwyr.

Yn ystod gwanwyn 2022 gosodwyd tua 20 o arwyddion 'dim tresmasu' ar hyd y trac, ond yn anffodus ni chymerodd lawer o bobl sylw ohonynt. Mae ein Gyrwyr a'n Gwarchodwyr Trên hefyd yn gofyn i dresmaswyr adael tir y Rheilffordd, ond yn anffodus eto mae'r rhan fwyaf yn eu hanwybyddu ac yn parhau i gerdded wrth ymyl y trac. Tros y misoedd diwethaf, rydym wedi cael amryw o ddamweiniau agos sy'n ymwneud â thresmaswyr neu eu cŵn. Rhaid pwysleisio hefyd na fu erioed lwybr cerdded dynodedig ar dir y Rheilffordd.

Mae'r Rheilffordd bellach wedi cymryd camau pellach drwy gloi'r giât ym Mhenllyn er mwyn helpu ymhellach i liniaru'r risg o ddamweiniau.

Dros yr wythnosau nesaf byddwn hefyd yn gosod matiau gwrth-dresmasu ger y brif orsaf yn Gilfach Ddu ac o dan y *Vivian Arch*. Ar hyn o bryd, yr unig bobl all gael mynediad i dir y Rheilffordd yw aelodau'r gymdeithas bysgota leol sy'n dal yr hawliau i bysgota ar hyd glannau Llyn Padarn. Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, rydym yn disgwyl am ymateb pellach gan y gymdeithas er mwyn dod o hyd i ateb addas i'w haelodau gael mynediad i'n tir drwy'r giât ym Mhenllyn tra hefyd yn cadw'r Rheilffordd yn ddiogel rhag tresmaswyr.

Rydym yn sylweddoli na fydd cloi'r giât, gosod arwyddion a gosod y matiau yn atal pobl rhag cerdded yn anghyfreithlon ar ein trac yn gyfangwbl, ond credwn ei fod yn dangos dyletswydd gofal i ddiogelu ein staff a'n teithwyr, ac wrth gwrs i helpu i atal aelodau o'r cyhoedd rhag tresmasu.

Hoffwn hefyd dynnu sylw at y ffaith bod y Rheilffordd yn gweithredu o dan ganllawiau caeth 'The Railways and Other Guided Transport Systems (Safety) Regulations 2006', yr ORR – 'Office of Road and Rail' a'n Systemau Rheoli Diogelwch cynhwysfawr.

Yn gywir

**Emlyn Pritchard**
Rheolwr Cyffredinol



# Rhoddion

| | |
|---|---|
| £5 | Tudur ac Anna Jones, Gwern Helen, Penisarwaen |
| £7 | Di-enw Waunfawr |
| £10 | John Fraser, Llanrug er cof am ei nain |
| £10 | Marian Thomas, Trawsfynydd |
| £10 | Valmai Owen, Rhos Elan, Llanrug |
| £10 | Di-enw, Llanrug |
| £10 | Mrs Mona Parry a'r teulu, Deiniolen |
| £20 | E J Thomas, Rhiwen Bungalow, Deiniolen |
| £20 | Carys Lloyd Evans, Carwyn, Llanrug |
| £100 | Mrs Dilys Jones er cof am Cyril Jones |
| £100 | Er cof am Cyril Jones, Ael-Y-Bryn, Stryd Newton, Llanberis |

**Annwyl ddarllenwyr**

Rwy'n fyfyriwr Gradd Meistr trwy Ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe. Fy ngoruchwyliwr yw Dr Alwena Morgan (a.h.morgan@swansa.ac.uk) ac rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Dr Llinos Roberts (l.roberts@swansea.ac.uk).

Dwi'n edrych ar brofiadau unigolion gyda chyflyrau cronig, neu sy'n derbyn monitor rheolaidd gan ofalwr iechyd, o ddefnydd y Gymraeg o fewn gofal iechyd. Buaswn yn hynod o ddiolchgar os allwch chi ateb fy holiadur os yw'n berthnasol i chi a'i rannu fel y gwelwch yn briodol. Rwy'n ceisio cael cymaint o ymatebion o bob cwr o Gymru, yn enwedig o ardaloedd a chymunedau Cymraeg eu hiaith, ac felly roeddwn yn gobeithio y byddai rhai o'ch darllenwyr yn gallu fy helpu os gwelwch yn dda.

Os hoffech chi drafod mwy neu os oes gennych unrhyw gwestiynau / sylwadau / adborth, peidiwch oedi i gysylltu! – 1908235@swansea.ac.uk

Dyma'r linc i'r holiadur: https://qfreeaccountssjc1.az1.qualtrics.com/jfe/form/SV_0wUrW5dySTLLonI

Diolch yn fawr a chofion cynnes,
Maisie Edwards

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Gorffennaf | 9 Mehefin | 23 Mehefin |
| Awst a Medi | 14 Gorffennaf | 28 Gorffennaf |
| Hydref | 8 Medi | 22 Medi |



## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Bwyd**. Mae chwyddiant wedi effeithio'n ddirfawr ar brisiau bwyd; cynnydd o dros 17% erbyn diwedd Mawrth yn ôl yr ystadegau diweddaraf. Ac yn ôl *Which*, a wnaeth arolwg o brisiau mewn wyth o archfarchnadoedd gwahanol, bu cynnydd mewn dros 26,000 eitem o fwyd, yn cynnwys cynnydd o 28% ym mhris caws a 35% ym mhris uwd.
- **Cymdogion**. Wedi 37 mlynedd o ddarlledu daeth y gyfres 'Neighbours' i ben oherwydd diffyg cyllid. Mae'r opera sebon o Awstralia bellach wedi ei hatgyfodi yn dilyn cytundeb gydag Amazon.
- **Llyffantod.** Mae nifer o amgylcheddwyr, gan gynnwys yr elusen 'Froglife', yn rhagdybio y bydd prinder llyffantod mewn rhannau helaeth o Loegr oherwydd sychder.
- **Enw.** Bannau Brycheiniog fydd enw swyddogol y Parc Cenedlaethol yn ne Cymru o hyn ymlaen, ond achosodd y penderfyniad don ar ôl ton o brotestiadau a beirniadaethau – gan mwyaf gan y papurau 'cenedlaethol Doriaidd' o Lundain.
- **Crefydd.** Datgelwyd fod y Pab i ymweld â Mongolia ym mis Medi; gwlad gyda llai na mil a hanner o Gatholigion.
- **Fonio**. Enw brodorol ar gnwd grawn sy'n cael ei alw'n achubwr rhag prinder bwyd yn Affrica. Mae'n tyfu ar briddoedd sâl ac mewn gwres uchel; yn rhydd o gluten ond yn llawn protin ac asid amino. Mae'n flasus, yn hawdd i'w baratoi a'i goginio. Ond mae ei gynaeafu'n broblem oherwydd ei bod yn anodd gwahanu'r grawn o'r plisgyn.
- **Eira**. Am y tro cyntaf ers cadw cofnodion doedd dim eira ar yr Alpau yn ystod haf y llynedd. Daw'r wybodaeth gan y 'World Meteorological Organization'. Un o'r rhesymau oedd gaeaf sych yn 2021-22 yn cael ei ddilyn gan wanwyn a haf poeth yn 2022.
- **Gradiometry**. Archaeolegwyr yn darganfod gwersyll Rhufeinig ar Wal Antonine yn yr Alban – a hynny heb gloddio. Defnyddiwyd y dull 'gradiometry', proses sy'n mesur newidiadau bychain ym meysydd magnetig y ddaear ac yn galluogi'r archaeolegwyr i 'weld' o dan y pridd heb orfod cloddio. Adeiladwyd Wal Antonine tua 142 O.C. ac y mae'n un o Safleoedd Treftadaeth Byd UNESCO.
- **Sychder.** Mae afon Po, y fwyaf yn yr Eidal, yn dioddef o ddiffyg dŵr difrifol. Mae'r cwmni sy'n paratoi teithiau cychod arni eisoes wedi gorfod dileu pob archeb am na all eu llongau – sy'n cario 400 o deithwyr ar y tro – deithio mewn dŵr mor fâs. Mae'r awdurdodau eisoes yn paratoi cynllun dogni dŵr i'r gwahanol ranbarthau ar hyd glannau'r afon.
- **Cŵn cyfraith**. Mae milgi a dau labrador yn cael eu defnyddio mewn llysoedd ym Madrid mewn achosion o gam-drin plant. Mae'r plant yn mwytho'r cŵn tra'n rhoi tystiolaeth, ac ar rai achlysuron mae pob oedolyn yn gadael yr ystafell ond yn ffilmio a recordio'r plentyn yn siarad efo'r ci. Dywedir fod y plant yn gallu 'bwrw'u bol' i'r cŵn heb oedolyn yn bresennol.
- **Banana**. Mae dros filiwn o grwyn banana yn cael eu lluchio bob blwyddyn ym Mhrydain, ond bellach mae'n bosib ei fwyta a'i werthu fel 'cig moch llysieuol'. Yn ôl adroddiadau mae'n blasu yn debyg i gig moch wedi ei ffrio.
- **Llyfrau.** Cynhaliwyd pymthegfed 'Gŵyl Lyfrau 72 awr' yn Conakry, prifddinas Guinea; gwlad lle mae hanner y boblogaeth yn anllythrennog. Roedd yr Ŵyl flynyddol yn dathlu llyfrau a hybu llythrennedd mewn gwlad lle mae hyd yn oed llyfrgelloedd yn brin.
- **Mopane.** Cynrhon o faint sigâr sy'n llawn protin ac yn cael eu casglu oddi ar goed mopane yn Zimbabwe. Mae'r cynrhon yn cael eu casglu a'u sychu uwch lludw poeth. Credir fod y farchnad yn werth tua £400,000 y flwyddyn i'r wlad dlawd.
- **Gwylanod.** Mae Sŵ Blackpool wedi bod yn hysbysebu am weithwyr i wisgo fel adar ysglyfaethus er mwyn dychryn gwylanod sy'n dwyn bwyd oddi ar ymwelwyr. Mae dros 200 o bobl wedi cynnig am y gwaith, sy'n talu £10.80 yr awr, a daeth ceisiadau o Awstralia, India, Uganda ac Wcrain.
- **Donanemab.** Cyffur newydd sy'n debygol o gael ei ddefnyddio i drin y clefyd Alzheimer. Mewn arbrofion dangoswyd nad oedd dirywiad yng nghyflwr cleifion ar ôl blwyddyn o ddefnyddio'r cyffur.
- **Snwcer.** Luca Brecel o wlad Belg yn ennill Pencampwriaeth Snwcer y Byd; y tro cyntaf erioed i chwaraewr o dir mawr Ewrop ennill y gystadleuaeth.
- **Cornchwiglen.** Yn Northumberland cafodd y gornchwiglen ben llwyd ei gweld am y tro cyntaf erioed yng ngwledydd Prydain. Mae'n llawer mwy cyffredin yn India, China a Japan. Hyd yn hyn, does dim eglurhad ar sut y cyrhaeddodd na pham y bu iddi deithio mor bell o'i chynefin naturiol.
- **Coroni.** Does dim ystadegau swyddogol ar faint o Gymry fu'n rhegi'r brenin. Ond dyna'r gorchymyn mewn cyfieithiad gwallus gan y Llywodraeth Llundeinig, a ddefnyddiodd y gair 'rhegi' yn hytrach na 'tyngu' fel cyfieithiad o 'swear'.




Annwyl gymdogion a chydweithwyr

**Cynulliad Hinsawdd Dyffryn Peris**
Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod y broses cofrestru wedi agor ar gyfer y digwyddiad arbennig yma y mae Grŵp Dŵr a Thir Dyffryn Peris yn ei drefnu trwy nawdd Cyfoeth Naturiol Cymru a chefnogaeth y mudiadau arbennig a welir yn y graffeg isod (a mwy i ddod, yn sicr!).

Buasem yn hoffi gwahodd a gweithio gyda thirfeddianwyr a'r gymuned amaethyddol leol. Mae croeso i chi ymuno â ni yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn 10fed Mehefin.

Os hoffech chi stondin wybodaeth yn y digwyddiad – anfonwch ebost at lowri@deg.cymru

Yn gywir
Lowri Hedd Vaughan

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

**Hefin Jones**
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 | hefsj@aol.com

**Diolchiadau**
Dymuna Mrs Mona Parry, 13 Hafod Olau, a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth, cydymdeimad a geiriau caredig yn ystod yr wythnosau diwethaf yn dilyn marwolaeth ei brawd Mr Noel Bryn Williams. Diolch yn fawr hefyd am y rhoddion tuag at Feddygfa Llanberis.

**Siop Symudol**
Bydd Bwydo'n Dda y siop symudol yn Nhŷ Elidir bod dydd Iau, rhwng 3.00pm a 4.15pm, o 4ydd o Fai hyd yr 22ain o Fehefin. Bydd nwyddau pob dydd, prydau bwyd wedi eu gwneud yn ffres a bagiau bwyd y gallwch eu coginio gartref. Prisiau rhatach.

**Sesiwn Crefftau i blant dan 5 oed**
Mae Pwyllgor Pentra Deiniolen wedi cael grant i gynnal sesiynau crefftau i blant.

Cynhaliwyd y sesiwn cyntaf ar y 5ed o Fai yng Nghaffi EB, sesiwn 'salt dough'. Cadwch olwg ar dudalen *facebook* y grŵp am y dyddiadau nesaf.

**Mainc**
Bydd Deiniolen yn derbyn mainc cyfeillgarwch i'r gymuned, a chynhaliwyd sesiwn syniadau yn Ysgol Gwaun Gynfi ar y 9fed o Fai. Edrychwn ymlaen i weld y fainc yn ei lle.

**Codi Arian at achos da**
Cynhelir taith '*ride out*' er cof am Hywel Garnedd eto eleni ar 21ain o Fai 2023. Y llynedd, casglwyd dros £4,000 at achosion da. Dewch i gefnogi eto eleni. Bydd mwy o wybodaeth ar grŵp *facebook* cymunedol Deiniolen.

**Gair gan y Cynghorydd Elfed Williams**
Diolch yn fawr i staff y Cyngor am dorri gwair ym Mynwent Macpelah yn ddiweddar.

Bydd Siop Symudol yn Nhŷ Elidir rhwng 3.00 a 4.15pm ar bnawn dydd Iau o Fai 4ydd hyd Fehefin 22ain.

Ail Gylchu: Wedi cwyno i'r Adran am fethu â chasglu eto. Un o'r rhesymau am hyn ydi diffyg staff.

Deiseb: Wedi rhoi deiseb yn yr Ysgol i rieni ei harwyddo er mwyn trio cael estyniad i'r maes parcio yno, gan fod parcio yn broblem o flaen yr Ysgol.

Graffiti: Wedi cael cwynion am graffiti ar gysgodfan Rhydfadog. Dwi wedi gyrru'r gŵyn yma ymlaen i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen gan mai nhw sydd yn gyfrifol am y cysgodfannau.

Allt Ddu: Wedi cael cwynion am faw ci a charthion dynol yn y lleoliad yma. Mae wardeiniaid o adrannau perthnasol y Cyngor wedi mynychu'r ardal yn ddiweddar i ymchwilio i'r mater.



## Merched y Wawr

Yn dilyn ein swper Gŵyl Ddewi ym Mwyty'r Felin, Pontrug cawsom gyfarfod yn Nhŷ Elidir unwaith eto ar y 15fed o Ebrill pan ddaeth yr awdur a'r cogydd Rhian Cadwaladr o Rosgadfan i sgwrsio â ni am ei gwaith. Roedd ei chyflwyniad yn llawn hwyl a bwrlwm ac roedd ei darlleniadau o ambell un o'i nofelau'n adrodd am brofiadau oedd yn gyffredin i'r rhan fwyaf ohonom o aelodau'r Gangen! Ni allwn i beidio â phrynu'r nofel ddiweddaraf, sef 'Dathlu', wedi clywed am y grŵp o ffrindiau sy'n dathlu carreg filltir y 60 oed yn Efrog Newydd, ac edrychaf ymlaen at ei darllen wrth gael ychydig o haul ar fy nhalcen yr haf yma gobeithio! Hefyd, cawsom ddisgrifiadau a straeon difyr am amrywiol elfennau'r broses o lunio llyfr coginio. Mae Rhian wedi bod yn gyfrifol am gydlynu dau ohonynt, sef Curo'r Corona'n Coginio a Casa Cadwaladr, a chael y ffotograffydd yn symud i mewn i'w thŷ am bythefnos bron!

Hefyd ar ddechrau'r cyfarfod, cawsom wybodaeth gan Angharad Owen o Brosiect Natur Llanddeiniolen. Soniodd hi am y gwaith o dyfu blodau a phob math o blanhigion sydd wedi digwydd ym mhentrefi Rhiwlas ac eraill i geisio gwella diwyg y llefydd ac i ddod â phobl at ei gilydd ar brosiectau ymarferol a llesol i'r corff a'r meddwl, fel garddio. Gobeithiwn y bydd y cyfleoedd hyn ar gael i ni fel aelodau o Ferched y Wawr yn Neiniolen maes o law.

Bu Nia, Marian, Ffion, Eirlys, Marina ac Eirlys yng nghystadleuaeth Fowlio 10 y rhanbarth yng Nglasfryn ar 28ain Ebrill, ond ni chafwyd gwobr eleni.

Gobeithiwn allu cynnig enwau ar gyfer llunio Rhaglen y gangen ar gyfer 2023-24 yn ein cyfarfod nesaf, ar 15ed Mai. Felly, rhannwch eich syniadau am siaradwyr â'r Ysgrifennydd.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
www.fframia.com FFRAMIO LLUNIAU

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA
☎ 01286 672898


AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)

# LLANBERIS

**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebos neu alwad personol trwy'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr *Eco*.

**Clybiau a grwpiau**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:
**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis –** Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00pm tan 7.30pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!
**Clwb Gwnio –** Cynhelir yn y Ganolfan ar brynhawn dydd Iau, rhwng 2.00pm a 4.00pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol.
**Grŵp Pentref Taclus Llanberis –** Mae'r grŵp yn hel sbwriel bob bore Sul trwy'r haf, hyd at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Mae'r grŵp yn cychwyn am 10.00 o'r gloch y bore o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni, ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau bob dydd Sadwrn ar dudalen y Grŵp ar *Facebook*.

**Gair o ddiolch**
Dymuna Dilys, Paula a Gwyn, Fiona a John ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Cyril, gŵr, tad a thad-yng-nghyfraith arbennig iawn. Diolch o galon hefyd am y rhoddion hael iawn er cof am Cyril i Awyr Las a Chymdeithas Deillion Gogledd Cymru.

**Diolch**
Dymuna Glenys, Stryd Yr Wyddfa, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y gefnogaeth a'r cymwynasau a dderbyniodd yn dilyn salwch Gwilym yn ddiweddar.

**Diolch gan yr *Eco***
Drwg iawn gennym dderbyn neges oddi wrth Gwilym Owen, Stryd Yr Wyddfa, yn mynegi, oherwydd y dirywiad yn ei iechyd yn ddiweddar, ei fod yn gorfod rhoi'r gorau i'w waith gyda'r *Eco* yn Llanberis. Bu Gwilym yn dosbarthu o dŷ i dŷ ac i'r ddwy siop yn Llanberis ers blynyddoedd, ac yn barod â'i gymwynas bob amser. Estynnwn ein diolch iddo am ei holl waith dros yr *Eco* gan ddymuno adferiad buan iddo.

Rwyf yn hynod falch o fedru cyhoeddi bod Huw Griffiths, Bryn Teg, wedi cytuno i ymgymeryd â dyletswyddau Gwilym. Mae ein diolch yn fawr iawn iddo!

**Arddangosfa**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w gweld yn yr Eglwys rhwng 10:30AM a 2:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau mis Mehefin:
4ydd Mehefin, 11.00 yb: Cymun Bendigaid
11eg Mehefin, 11.00 yb: Boreol Weddi
18fed Mehefin, 11.00 yb: Cymun Bendigaid
25ain Mehefin, 8.00yb: Cymun Bendigaid, 11.00yb – Gwasanaeth Teulu
Croeso cynnes i bawb.

**Clwb 100 yr Eglwys**
Enillwyr Clwb 100 mis Mawrth oedd:
1. Clare Stanton-Morris
2. Dilys Roberts
3. Arwyn Roberts

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau mis Mehefin:
4ydd Mehefin, 9:30 yb: Boreol Weddi
11eg Mehefin, 9:30 yb: Cymun Bendigaid; 4:00yh – Gwasanaeth Teulu
18fed Mehefin, 9:30 yb: Boreol Weddi
25ain Mehefin, 9:30 yb: Cymun Bendigaid
Hefyd, cynhelir naill ai wasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu'r Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11.00 yb.

**Ar nos Sul, Mai 28, am 6.00 yh** fe gynhelir Cyngerdd Coffa er budd Ward Alaw. Y pris mynediad fydd £10.

# Dyfodol Foelas

Mae pryderon wedi eu mynegi ers misoedd lawer am beth fydd dyfodol cyn-gartref preswyl Foelas yn Ffordd yr Orsaf, Llanrug – ac fe wireddwyd y pryderon rheiny pan ddaeth llythyr i rai o drigolion Rhos Rug yn eu hysbysu bod cais cynllunio wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd er mwyn troi y cartref yn eiddo amlfeddiannol (HMO).

Cefais lawer i gnoc ar fy nrws, ebost a galwad ffôn yn mynegi tristwch a phryder am y cais, a phawb yn poeni yn arw iawn am effaith datblygiad o'r fath ar ein cymuned yma yn Llanrug.

Yn ogystal â bod yn gynghorydd sir rydw i hefyd yn gynghorydd cymuned ac fe aethom ati ar unwaith fel Cyngor Cymuned i drefnu cyfarfod arbennig er mwyn trafod y cais cynllunio yma. Mae hawl i'r cyhoedd fod yn bresennol yn ein cyfarfodydd felly roedd yn gyfle da inni gael trafodaeth fel cymuned am y mater cynhennus yma.

Roeddem yn awyddus i'w gwneud hi mor hawdd â phosib i bawb fedru ymuno felly mi wnaethom fentro cynnal y cyfarfod yn 'hybrid', gyda chroeso i bobol fynychu'r cyfarfod drwy ymbresenoli yn y Sefydliad Coffa, neu drwy ymuno yn rhithiol dros Zoom.

Daeth tua 70 i'r Sefydliad gydag oddeutu 40 yn ymuno arlein – a dyna brawf o gryfder y teimlad sydd yma yn y pentref.

Ymunodd ddau o berchnogion Foelas dros Zoom er mwyn ceisio ateb cwestiynau'r gymuned, ac mae'n deg dweud eu bod wedi derbyn sawl her i gynnwys eu cais, ac i'w sylwadau ar y noson.

Rhai o'r pryderon a godwyd gan y gymuned ydi'r diffyg gofod parcio ar Ffordd yr Orsaf ac y byddai adeilad 17 ystafell – rhai ohonynt yn rai dwbwl – yn ychwanegu'n sylweddol at yr heriau sydd yma eisoes. Mae'r traffig yn drwm ar y lôn yn barod a'r bysiau yn cael trafferth dod fyny. Mynegwyd nad oes galw am eiddo HMO yn Llanrug ac y byddai'r datblygiad yn anghydnaws â chymeriad y pentref. Mynegwyd hefyd bryderon am yr effaith ar Gymreictod yr ardal gan mai Llanrug yw pentref Cymreiciaf Cymru. Roedd emosiynau yn danbaid yn y cyfarfod a theimlad cryf iawn yn erbyn y cais a phopeth y byddai'n ei olygu i'r ardal hon.

Gan mai cyfarfod o'r Cyngor Cymuned oedd hwn – gyda'r cyhoedd yn bresennol – bu pleidlais ar ddiwedd y cyfarfod i gefnogi neu wrthwynebu'r cais, ac fe bleidleisiodd y cyngor yn unfrydol yn erbyn.

Mae gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned bellach wedi ei nodi ar y cais ac mae gwrthwynebiad wedi dod hefyd gan adran draffig y cyngor.

Rydw i fel yr aelod lleol wedi ysgrifennu at yr adran gynllunio i wrthwynebu a phan ddaw'r cais gerbron y pwyllgor cynllunio yn yr wythnosau nesaf byddaf yn mynychu er mwyn siarad yn ei erbyn.

Hoffwn ddiolch i'r rhai fynychodd y cyfarfod ac i'r rhai sydd wedi bod yn cysylltu â mi gyda'u sylwadau, a hoffwn ddiolch hefyd i glerc a chadeirydd y Cyngor Cymuned ac i'r Sefydliad Coffa am eu gwaith rhagbaratoi technegol a olygodd bod nifer fawr o drigolion lleol wedi gallu cael eu cynnwys yn y trafodaethau.

**Cynghorydd Beca Brown, Llanrug**


SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

## BETHEL A SEION

**Cydymdeimlo**
Unwaith eto y mis yma dyma yw ein gorchwyl.

Cydymdeimlwn ag Eirlys, Peter a Richard a'r teulu estynedig o golli Brian Sharpe, Ael-y–Bryn. Bu Brian yn dioddef am gyfnod hir yn ddiweddar. Am sawl blwyddyn bu Brian yn Ysgrifennydd Cwmni Bob Parry, Arwerthwyr yng Nghaernarfon sef ei dref enedigol. Bu hefyd yn ffyddlon i achos Eglwys Llanddeiniolen ac yn drysorydd Cronfa'r Fynwent.

Wedi salwch byr bu farw Muriel Jones, 35 Bro Rhos, Bethel. Cydymdeimlwn â Robat, Sheila, Gweno ac Emlyn a'r teulu estynedig. Un hwyliog oedd Muriel, parod ei sgwrs a chymwynas. Os bu 'mam' a 'nain' a ymfalchiodd yn ei phlant a'u plant yna Muriel oedd honno. Bydd pentref Bethel yn sicr yn dlotach o golli Brian a Muriel.

Daeth y newyddion am farwolaeth Menna Thomas, Rhiwlas erbyn hyn, gwraig y diweddar Bob a mam Paul ac Arwel. Yma ym Methel fel Menna Tan-y-Buarth y cofiwn hi, ac yna adeiladwyd dŷ, Glasgoed, iddynt fel teulu. Ein cofion iddynt hwythau fel teulu estynedig.

A'r Eco yn mynd i'w wely daeth y newyddion am farwolaeth mam Gareth Griffiths, Dolserau, Stad Eryri draw ym Menllech. Cydymdeimlwn â Gareth, Manon a'r teulu estynedig yn eu hiraeth o golli un annwyl iawn. " Cledd â min yw claddu mam."

**Oedfaon Mehefin**
CYSEGR : 4/6 Parch. John Pritchard; 11/6 Gweinidog; 18/6 Parch. O.G.Williams; 25/6 Huw Tegid Roberts.

SARON : 4/6 Philip Barnett; 11/6 i'w drefnu; 18/6 i'w drefnu; 25/4 Dr. Ian Morris.

BETHEL : 4/6 Parch. R.E.Hughes; 18/4 Parch. Cledwyn Williams; 25/4 Richard Morris Jones.

**Ffit Cymru**
Mae'n siwr fod nifer ohonom wedi dilyn taith Kelly ar y rhaglen Ffit Cymru. Nifer ohonom hefyd wedi ei gweld yn rhedeg o gwmpas yr ardal. Mae ei phositifrwydd yn heintus. Er, mae'n siwr fod nifer ohonom yn uniaethu â'r profiad anodd i nifer o blymio oddi ar y graig i'r dŵr. Cau llygaid a 'Geronimo' yw hi yn aml! Elfen bwysig o'r rhaglen yw defnyddio'r arweinydd i fod yn sbardun yn eu cymunedau lleol. Braf felly oedd cofnodi ymweliadau Kelly ag Ysgol Bethel i arwain sesiynau ffitrwydd. A'r holl focsus siocled yn nhŷ Cled! Wyt ti yn cymryd ordors am 'Dolig Cled?

**Merched y Wawr**
Er ei bod wedi gaddo cawodydd. fe gawsom dywydd sych i fynd o amgylch y pentref yng nghwmni Gareth Roberts Menter Fachwen, a oedd yn rhoi darlun i ni o Fethel y gorffennol. Cawsom glywed hanes y damweiniau angheuol a gafwyd rhwng y trên a cherbydau wrth groesi'r ffordd. Wrth fynd lawr Stryd Ganol yr oeddem yn cerdded ar hyd Stryd Fawr Pentref Saron, gan ryfeddu at nifer y siopau gwahanol a fu yno.

Roedd ganddo hanes cymeriadau'r pentref a oedd yn byw yma ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Ond wrth ddod tuag at yr hen ysgol cawsom hanes y terfysg a gafwyd ynglyn â'r hawl i gael addysg ac i siarad Cymraeg, a chawsom hanes difrodi neuadd yr hen ysgol. Yn dilyn y terfysg bu i'r ysgol orfod cau, a thynnwyd y neuadd i






lawr. Cafwyd tir i adeiladu ysgol newydd – sef yr ysgol bresennol, lle mae'r Gymraeg bellach yn seinio'n falch rhwng ei muriau.

Fe ranodd Gareth hefyd gopïau o'r mapiau cerdded a darganfod newydd sydd yn dweud hanes Enwogion Plwyf Llanddeiniolen. Yn dilyn ein taith cawsom ginio blasus iawn yng

# Clwb Bro Bethel

Cynhaliwyd cyfarfod Mai yn Festri Cysegr. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Liz Watkin. Cydymdeimlwyd â theulu Eirlys Sharpe ar golli ei gŵr Brian. Llongyfarchwyd Marjorie Roberts ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Ein gwesteion am y pnawn oedd y Parch. Nerys Griffith a rhai o ddisgyblion Ysgol Bethel. Testun ei sgwrs oedd yr argyfwng hinsawdd yn Kenya ac yr angen i'r cymunedau yno addasu i'r amgylchiadau. Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio yn Kenya i hyfforddi'r cymunedau mewn ffyrdd newydd o ffermio.

Cawsom hanes Jennifer Gudere sy'n arwain grŵp o ferched a phlant ym mhentref Songa. Mae'r grŵp wedi derbyn hyfforddiant mewn 'amaethyddiaeth glyfar', gan ddysgu technegau fydd yn eu galluogi i dyfu bwyd mewn tymhorau sych. Maent wedi cael eu dysgu am hadau gwahanol sy'n gallu gwrthsefyll sychder.

Cydweithiodd yr aelodau a'r plant i hau hadau mewn potiau. Cafodd pawb fynd a photyn adref. Y gobaith yw y bydd rhoi dŵr a gwres haul i'r hadau yn cymell tyfiant ac yn arwydd o fywyd a gobaith.

Mae merched Kenya yn gwisgo cadwyni amryliw. Ar ddiwedd y prynhawn cafodd y plant gyfle i greu eu cadwyni eu hunain. Braf oedd eu gweld yn canolbwyntio ar y gwaith dylunio a lliwio ac yn mynd adref gyda chadwyni lliwgar.

Casglwyd £74.60 at waith Cymorth Cristnogol. Diolchwyd i'r Parch. Nerys Griffith a'r plant gan Myfanwy Harper. Diolch hefyd i Mary Evans a Llinos Williams am baratoi'r banad.

Y trip pen-tymor fydd nesaf a hynny ar 6ed Mehefin . Edrychwn ymlaen.





Nghaffi Menter Gymunedol Bethel. Diolchodd ein Llywydd Mair Price i bawb a fu'n coginio ac yn gweini, ac roedd yn ddiwedd i fore hyfryd a diddorol iawn. Diolchwyd i Gareth am ei ymchwil trylwyr, am ei straeon byw a gafaelgar, ac am ein helpu ni i sylwi ar bethau y mae rhai ohonom yn eu pasio bob dydd.

Enillwyd y raffyl gan Anne Elis ac anfonwyd ein dymuniadau gorau iddi yn ei swydd fel cadeirydd y pwyllgor rhanbarth.

Llongyfarchiadau i'r tîm bowlio 10 a fu'n fuddugol drwy'r rhanbarth yn ddiweddar ac i Falmai am fod wedi cael y sgôr uchaf yn y twrnament.

Anfonwyd ein cydymdeimlad at Eirlys Sharpe yn ei phrofediagaeth o golli ei gŵr Brian yn ddiweddar.

Ar gyfer ein cyfarfod Pentymor byddwn yn cael taith ar y Fenai ar y *Queen of the Sea*, gan gychwyn o'r Cei yn Nghaernarfon ar y 14eg Mehefin am 6:30pm. Yr ydym yn rhoi gwahoddiad agored i aelodau a chyfeillion i ymuno efo ni, gan ddod a phicnic efo nhw. Y mae'r tocynnau ar gael gan Gwenan Roberts ac Eirlys Williams.

**Arwydd o Ddechrau?**

Mae'n wybyddus erbyn hyn mai cwmni Adra sydd wedi perchnogi y cae gyferbyn â Cremlyn. Y bwriad, os ceir hawl cynllunio, yw adeiladu 28 o dai ar y tir.

Mae nifer rwy'n siwr wedi sylwi ar griw o weithwyr yn tyllu i archwilio y cae datblygol arfaethedig. Yn un o'r tyllau arbrofol roedd peipen – carthffosiaeth? – i'w gweld. Yn yr un cyfnod roedd criw o weithwyr i'w gweld yn archwilio y 'manholes' mewn llinell i gyfeiriad Penrhos a'r gwaith trin carthffosiaeth. Y mae nifer yn gobeithio fod yr effaith ar system fregus carthffosiaeth y pentref ar gyfnodau wedi eu hystyried cyn dechrau'r adeiladu.

**Cronfa'r Eisteddfod Genedlaethol**

Fel Caffi Cymunedol Bethel yr adnabyddir caffi Perthyn bellach ac roedd dwy elfen bwysicaf yr enw yn amlwg mewn noson gymdeithasol ganol Mai. Roedd sawl rhan i'r noson. Roedd tocynnau wedi eu gwerthu o flaen llaw. Yn gynwysedig ym mhris y tocyn roedd cyri blasus iawn wedi ei goginio, ac hefyd cyfraniad i gronfa leol Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd sy'n prysur agosau. Y targed ariannol i blwyf Llanddeiniolen yw £7,000 gyda tharged Bethel yn £1,500. Braf cofnodi fod y ddau darged bellach o fewn cyrraedd.

Gyda phob sedd yn llawn, cawsom ein herio a'n diddanu mewn cwis wedi ei drefnu'n feistrolgar gan Meilir Emrys. Aeth y cwestiynau â ni i sawl cyfeiriad. Wyddoch chwi fod 72 man yng Nghymru yn dechrau gydag ABER…? Bod Vinny Jones wedi cael 9 cap i Gymru ond ni enillodd Cymru yr un o'r gemau. Pan ddaeth Mark Hughes ar y cae yn rhifyn Gweld Sêr, C'mon Midffild, mai Mici Plwm gafodd ei eilyddio. A bod 24 coes mewn tîm Polo. Na? Wel dyna ni.

Ar y diwedd chafodd run o'r saith tîm 'Nil Point'. Yr enillwyr oedd y tîm yn cynnwys Nan, Huw, Sian, Rhys a Wendy. Diolch hefyd i'r sawl a gyfranodd wobrau i'r raffl â enillwyd gan Richard, Rhys, Fiona ac Emyr.





Diolch hefyd i Nan Rowlands sydd wedi rhoi sawl cerdyn yn cynnwys lluniau dyfrliw o waith ei thad, y diweddar Seiriol Davies, artist arbennig. Fe werthir y cardiau yn y caffi gyda'r elw at yr Eisteddfod.

Rwy'n siwr fod y noson gymdeithasol lwyddiannus yma wedi rhoi hyder i bwyllgor y Fenter Gymunedol i drefnu nosweithiau cyffelyb yn y dyfodol.


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG


www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

# O Siambr Sasha

Mae blwyddyn wedi prysur fynd heibio ers i mi gael fy ethol yn gynghorydd dros ward Bethel a'r Felinheli gyda uchafbwyntiau, heriau a chyfnodau o falchder. Yn gryno iawn dyma rannu crynodeb o'r flwyddyn gyda chi.

**Fy Uchafbwyntiau**

Derbyn cefnogaeth Cyngor Cymuned Llanddeiniolen i ariannu Clybiau Ieuenctid ym Methel a Deiniolen; mae'r ymateb i'r clybiau wedi bod yn wych a bydd y clybiau yn cael eu ariannu eto yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-24.

Cefnogi Menter Cymunedol Bethel i sicrhau nad oedd Caffi Perthyn yn cau. Mae'r caffi yn mynd o nerth i nerth, diolch i bawb am eu cefnogaeth a haelioni yn cefnogi y fenter newydd yma.

Creu swyddi a chyfleoedd gwirfoddoli. Drwy'r Clybiau Ieuenctid a'r Caffi mae deuddeg swydd rhan amser a un swydd llawn amser wedi ei greu yn ogystal â phymtheg cyfle gwirfoddoli, braf yw gweld cymaint yn elwa yn ein cymuned.

Derbyn £30,000 o wahanol ffynhonellau i grwpiau a chlybiau i sicrhau dyfodol y ddarpariaeth bresennol.

Cefnogi trigolion gyda cheisiadau am dai cymdeithasol, pryderon a phroblemau.

**Balchder**

Rwy'n falch o fod yn rhan o gymuned ble mae ystod eang o grwpiau yn cynnig cyfleoedd i bob oedran, mae wedi bod yn bleser bod yn rhan o ddigwyddiadau dros y flwyddyn a mwynhau ar stepen ein drws: Eisteddfod Bethel, Gwyl Y Felinheli, Mish Mash, Twrnament Pêl-droed Bethel, Croeso Cynnes, Y Caffi ym Methel yn cynnig cyfleoedd cymdeithasu i bawb, cyngherddau a diwrnodau agored gan Ysgol Bethel, paned a sgwrs Age Cymru yn Y Shed yn ogystal a'r sesiynau wythnosol y mae'r Urdd, Clybiau Ieuenctid, Pêl-droed, Cylch Meithrin a Ti a Fi yn gynnig i'n plant a phobl ifanc ni i enwi dim on rhai.Diolch i'r holl wirfoddolwyr sydd yn gwneud hyn yn bosib.

**Fy mhryderon**

Rhy gyflym: gyrru yn rhy gyflym drwy'r drwy'r pentref, lawr lonydd cefn ac yn enwedig heibio Erw Bian; cawn weld os bydd y gostyngiad yn y terfyn cyflymder cenedlaethol yn gwella'r gor-yrru sydd yn digwydd ar hyn o bryd.

Baw ci: mae'n drist iawn parhau i dderbyn cwynion am faw ci o gwmpas y pentref, erfynnaf am eich cydweithrediad i godi y baw, mae gen i gyflenwad o fagiau baw ci, mae bagiau ar gael o amgylch y pentref ac ar gael yn y caffi, croeso i chi gysylltu os hoffwch gyflenwad.

**Edrych Ymlaen**

Rwy'n edrych ymlaen i barhau i gefnogi grwpiau, mudiadau a thrigolion y gymuned i sicrhau bod y ddarpariaeth eang sydd gennym ni yn parhau a chryfhau – da ni'n ffodus iawn. Fel y bydd rhai ohonoch yn ymwybodol, mae ymgynghoriad Hwyluswyr Tai Gwledig wedi ei gynnal yn ddiweddar ar ran Adra ym Methel a'r Felinheli ble byddwn yn gweld datblygiadau o dai cymdeithasol yn y dyfodol agos. Sicrhewch eich bod yn rhannu eich barn a cofrestru.

Diolch yn fawr i chi gyd am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, parhaf i wneud fy ngorau. Cofiwch gysylltu gyda fi os ydych eisiau cymorth gyda unrhyw beth; 07810174160 neu drwy ebostio cynghorydd.sashawilliams@gwynedd.llyw.cymru

**Twrnament Pêl-droed**

Tro y tîmau hŷn oedd hi dros benwythnos 22ain a 23ain o Ebrill i gystadleu yn y twrnament pêl-droed gaeau top Bethel. Roedd timau dan 11, 12, 13, 14 a 15 i gyd yn chwarae a chystadlu am gwpan.

**Dan 11** – Roedd y timau yn cystadlu i ennill Cwpan Tryfan Cabs. Llongyfarchiadau i dîm dan 11 Bethel a'u hyfforddwyr Graham a Gari am gipio'r gwpan. Mae Tryfan Cabs wedi noddi'r tîm yma ers blynyddoedd a braf oedd gallu cyflwyno'r gwpan i'r tîm.

**Dan 12** – Gaerwen oedd y tîm buddugol dan 12. Tîm arbennig.

**Dan 13** – Roedd y timau yn cystadlu i ennill Cwpan Saer Maen H T Foulkes. Tîm Bethel, dan arweiniad Andrew Williams ac Andrew Davies a gipiodd y gwpan ar ôl chwarae drwy'r twrnament heb golli gêm. Gêmau cystadleuol iawn a wynebu Gaerwen yn y ffeinal.

**Dan 14** – Roedd y timau yn cystadlu i ennill Cwpan AB Cars. Ogwen Tigers a Bethel gyrhaeddodd y ffeinal ac Ogwen Tigers enillodd y gwpan. Ffeinal dda iawn, a diolch i Jac am gyflwyno'r gwpan ar ran AB Cars.

**Dan 15** – Amlwch gipiodd cwpan Dan 15 yn dilyn chwarae pêl-droed gwych drwy'r twrnament. Llongyfarchiadau mawr.

Diolch yn fawr iawn i'r cwmniau am noddi'n cwpanau ni. Diolch




Bethel dan 11



Bethel dan 13



Bethel dan 14



Y gwirfoddolwyr

i bob un o'r tîmau a chlybiau a ddaeth i'n cefnogi ni ar draws y twrnament – pleser oedd gweld pawb yn mwynhau.

Gwelwn lun o rai o'r gwirfoddolwyr yn ystod y penwythnosa – fuasai wedi bod yn amhosib hebddyn nhw. Diolch i bawb arall fuodd yn helpu a sydd ddim yn y llun hefyd – werth y byd i'r clwb, rydym yn falch iawn o'ch cael chi.

**Clwb Bowlio Dan Do**

Mae'r tymor gynghreiriol bellach wedi gorffen. Tymor o fagu profiad a hyder fu hi, gyda thimau eraill yn y gynghrair yn 'hen lawiau' ar y gamp bellach. Fel ambell i dîm pêl-droed roedd y canlyniadau gartref yn rhagori ar y record oddi cartref. Serch hynny mae'r clwb wedi llwyddo i wireddu un nôd bwysig iawn sef creu awyrgylch gymdeithasol sy'n rhoi cyfle i unigolion feithrin sgiliau mewn awyrgylch groesawgar, hwyliog. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y sesiynau ymarfer yn y Neuadd Goffa.

# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur – Rhan 15



Dyma hanes cath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Argymhellir rhoi bwyd gwlyb ddwy waith y dydd i gathod, a sicrhau bod bisgedi sych ar gael iddynt fel maen nhw ei angen. Mae'r bisgedi sych yn helpu i lanhau eu dannedd. A deud y gwir mae Bob reit gall yn peidio bwyta bwyd y deu-droediad, gan y gall rhai pethau megis nionod a siocled eu gwneud nhw'n sâl. Dylai bod dŵr glân ar gael iddynt bob amser, ond peidiwch a rhoi llefrith iddynt gan fod cathod yn '*lactose intolerant*'. Dydyn nhw ddim yn gallu treulio'r siwgr (*lactose*) sydd mewn llefrith ac mae'n gallu ypsetio eu stumog, yn union fel rhai pobl.

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori:

Dach chi'n cofio i mi sôn ychydig yn ôl 'mod i'n gwbod pan fydd rwbath ar bawan? Bryd hynny, diflannodd y deu-droediaid arferol a daeth yr un tal, tal yma i garthu a rhoi bwyd a mwythau i mi. A weithiau roedd yr un hardd gwallt golau'n galw. Peidiwch â deud wrth y deu-droediaid sy'n byw efo fi, ond chwarae teg iddyn nhw, roedden nhw hefyd yn gwasgu'r botwm hud sy'n cynhesu'r sgwaryn metel yn y gornel, a'm gadael i'n reit glud a chynnes.

Mae gen i deimlad bod 'na rwbath arall ar bawen. Daeth y bocsys sgwâr ar olwynion i'r fei eto ac mae'r ddeu-droed fach wrthi'n eu llenwi nhw efo bob math o ddillad… petha nad ydyn nhw wedi eu gwisgo ers y tywydd braf a phoeth llynedd. Maen nhw yn y llofft drws nesaf i'r un maen nhw'n cysgu ynddi, dwi wedi bod i fyny yn tsiecio… Felly mae'n debyg y byddan nhw'n diflannu eto! Wir yr, dwi ddim yn dallt pam na fedran nhw aros yma efo fi.

Ar ben bob dim mae hi a'i thrwyn yn rhyw ddarnau o bapur yn dragwyddol – rhestr mae hi'n ei alw fo. Mae wrthi'n rhoi 'tics' ar bethau, dyn a ŵyr beth ydy rheiny chwaith, ond maen nhw i'w gweld yn ei gwneud hi'n hapus. Dydw i ddim mor siŵr amdano fo, cytuno a rhoi ei drwyn tu ôl yn ei lyfr mae o. Aethon ni drwy'r un drefn ag o'r blaen, lot o gerdded o gwmpas y llofft, tuchan, bytheirio. Bocsys ar olwynion i'r car, yna fel Dreamies mewn powlen, roeddan nhw wedi diflannu. Cofiwch mi wnaethon nhw adael danteithion bach i mi yn fy mhowlen cyn mynd…

Pan gaeodd y drws ffrynt yn glep dydw i ddim yn poeni, ia, mi wnâi eu colli nhw, ond dwi'n gwybod byddan nhw wedi trefnu i rywun ddod yma i edrach ar fy ôl i. Napan felly a gweld beth ddaw.

Pan glywais i sŵn car ac agorodd y drws ffrynt, ges i syrpreis. Pwy ddaeth drwy'r drws ond y ddeu-droed fach, (sy'n hynod o debyg i'r un sy'n rhannu tŷ efo fi) a'r deu-droed blewog! Y tro dwaethaf i'r ddau yna ddod yma roedd y bwystfil, cringoch, llawn egni efo nhw. Benderfynais i fynd i fy nghuddfan diogel – y tu ôl i'r soffa jest rhag ofn. Ond diolch byth dydy hwnnw ddim yn bowndian allan o'r car. Felly dwi'n ei heglu hi am y gadair dan y bwrdd, i guddio a gwylio be sy'n mynd ymlaen. Tybed lle mae'r bwystfil pedair-troed? Oes yna rywun yn eu tŷ nhw'n edrach ar ei ôl o? Mae'n anodd deall arferion y deu-droediaid yma weithiau.

Ddudodd y ddau, "Haia Bob!" yn ddigon clên, cyn cario bocs sgwâr ar olwynion i fyny i'r llofft. Hmm. Dwi'n cymryd felly eu bod nhw am gysgu yma heno, efo fi. Wel o leia fydd gen i gwmni. Mae'r un fach wedi gadael y drws cefn ar agor. A'i allan am awyr iach a dipyn o haul ar fy nghefn.

Maen nhw'n eistedd yn yr ardd am sbel, fel finnau'n mwynhau cynhesrwydd yr haul ar eu hysgwyddau. Dwi'n cysgu llwynog a gwrando ar eu sgwrs. Rwbath am Ŵyl Fwyd. Beth ydy peth felly tybed? Dwi'n deall i'r dim beth ydy bwyd hefyd, nid 'mod i'n farus, ond mae fy mol i'n adlewyrchu fy hoffter am fwyd. Dwi wedi gweithio'n galed i gyrraedd 6Kg ac yn cofio geiriau mam, 'Mi fydd o'n gefn i ti ryw ddiwrnod!" Ella ddown nhw a bwyd i mi o'r Ŵyl yma. Erbyn meddwl, dydw i ddim yn hoffi unrhyw fwydydd mae'r deu-droediaid yn ei fwyta. Mmm tybed os ydyn nhw'n medru cael y tuniau bach blasus dwi'n eu bwyta fel arfer?

Raid mod i wedi cysgu, maen nhw mewn dillad gwahanol ac mae'r ddeu-droed fach yn ysgwyd y paced Dreamies, felly dwi'n mynd i'r tŷ atyn nhw. Dwi'n gneud yn dda am ddanteithion heddiw.

Www! Mae yna batsyn o haul ar y soffa, ga'i napan bach yn fanno, tan ddown nhw'n eu holau.

Maen nhw'n llawer mwy swnllyd y tro hwn, yn mwydro am grwpiau, am fwyd a diodydd neis a'u bod wedi cael hwyl. O be dwi'n ei ddeall mi roeddan nhw yn y peth Gŵyl yma, efo'r deu-droediaid sy'n dod yma pan mae'r lleill ar grwydr. Och a miaw, fel roeddwn i'n ddisgwyl, does dim byd i gathod mewn Gŵyl… Dim ots dwi'n cael swper ac mae'r drws cefn ar agor eto ac mae hi'n noson braf…

Mae brecwast yn hwyr heddiw, ymhell ar ôl codi cathod Caer, ac mae'r deu-droediaid dipyn tawelach nag oeddan nhw neithiwr. Maen nhw'n yfed yr hylif poeth yna mae fy neu-droediaid i'n ei yfed ac yn raddol yn dod yn fwy siaradus. Nes ymlaen yn y bore, maen nhw'n mynd a dwi yn ôl yma ar fy mhen fy hun.

Wn i ddim lle mae fy neu-droediaid i wedi mynd, ond dwi'n gw'bod fyddan nhw'n ôl ymhen dipyn a bydd rywun yn saff o alw i edrach ar fy ôl. Drwy bob dim, dwi'n hapus a dwi'n licio cael bod adra."

## PENISARWAUN

**Genedigaeth**
Llongyferchir Marina a John Eifion ar ddod yn nain a taid am yr eildro. Ganwyd merch fach arall i Lois ac Urien, sef Gwerni Eifion. Chwaer fach i Nelw Siôn, nith i Anest Bryn a gorwyres i Nain Hannah, Dinorwig a Nain Ann, Y Garn a theulu Deiniolen.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai ohonoch sy'n sâl yn y pentref, gan obeithio y bydd Tymor y Deffro yn gwneud i chi deimlo'n well.

**Pwyllgor y Neuadd Gymuned**
Cynhaliwyd 'Miri Mai', noson o hwyl a chymdeithasu, nos Fercher, 17eg Mai yn y Neuadd Gymuned, gyda stondinau, gemau, rasus a phaned a chlonc.

Bu'n gyfle i dynnu'r 'Clwb Cant'. Cofiwch fod croeso i aelodau newydd ymuno am £12 y flwyddyn. Mae modd ymaelodi trwy Archeb Banc neu trwy dalu i aelod o'r Pwyllgor.

**Eisteddfod Bentref**
Atgoffir pawb am ddyddiad yr Eisteddfod, sef **nos Fercher 12fed Gorffennaf** am 6:00yh yn y Neuadd Gymuned. Cynhelir ymarferion canu a llefaru, i gychwyn am 6:00yh nos Fercher, 7fed Mehefin yn y Neuadd Gymuned. Estynnir croeso mawr i chi rieni a ffrindiau i ymuno yng nghystadleuthau'r oedolion: Côr, Cân Ysgafn a Pharti Llefaru, neu'r cystadleuthau ysgrifenedig megis gorffen limrig a chreu brawddeg, ynghyd â'r cystadleuthau Coginio a Chelf a Chrefft. Dowch: ymunwch yn y cystadlu a'r cymdeithasu.

**Apêl Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd**
Rydym bron â chyrraedd y nod a'n targed o £2,000 i Benisarwaun a Brynrefail. Mae'r ardal eisoes wedi casglu drwy apêl yr amlenni a chyfraniad hael Cronfa Capel Bosra. Mae'r apêl yn agored o hyd a gallwch anfon eich amlen i'r Ysgol neu i'ch Dosbarthwr.

# Ysgol Penisarwaun

**Gardd yr ysgol**
Rydym yn y broses o ddatblygu gardd yn yr ysgol ac mae llawer o waith eisoes wedi ei wneud. Edrychwn ymlaen i weithio yn yr ardd dros y misoedd nesaf a'i hagor yn swyddogol yn fuan iawn. Hoffwn ddiolch i griw Menter Fachwen am fod mor brysur yn creu trên bren arbennig iawn i'w rhoi yn yr ardd, mae hi'n edrych yn wych a phawb yn cael pleser mawr. Daeth criw Menter heibio i'r ysgol i'w gosod yn ei lle. Diolch yn fawr hogiau!











**Cyfnod Sylfaen**
Fel rhan o'u gweithgareddau dosbarth bu disgyblion y dosbarth ieuengaf yn plannu amryw o lysiau a ffrwythau. Maent wrth eu boddau yn eu dyfrio a'u gwylio'n tyfu. Edrychwn ymlaen i weld ffrwyth eu llafur yn fuan iawn.



**Ymweliad Gethin Tomos**
Fel rhan o brosiect dalgylch cafodd y disgyblion gymryd rhan mewn gweithdy creadigol gyda Gethin Tomos. Bu'r disgyblion yn brysur yn rhannu eu hargraffiadau hwy o'r ysgol a'r ardal gyda Gethin gan gasglu geirfa a gwybodaeth addas. Yn ogystal cawsant gyfle i gyfrannu fel rhan o grŵp mewn gwaith drymio bwcedi ar ffurf band samba. Roedd pawb wedi mwynhau'n arw. Bydd anthem ar y cyd rhwng yr ysgolion yn cael ei chyfansoddi a bydd y plant yn cael cyfle i'w dysgu a'i pherfformio gyda disgyblion Blwyddyn 6 y dalgylch. Edrychwn ymlaen at y profiad.







**Gweithdy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Technocamp**
Cafodd holl blant yr ysgol fod yn rhan o weithdy ymarferol gyda cwmni Technocamps yn ddiweddar. Bu'r disgyblion o'r Meithrin hyd at Flwyddyn 6 yn gwneud tasgau amrywiol gan roi sylw i Wyddoniaeth a Thechnoleg. Cafodd y disgyblion ieuengaf bleser mawr yn gwneud gwaith côdio cyfrifiadurol.

**Taith yr Adran Iau i'r Gilfach Ddu**
Bu'r disgyblion hynaf ar daith i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i ddysgu mwy am hanes y chwarel a'i phobl. Cafwyd diwrnod da iawn yn dysgu mwy am y ponciau yn y chwarel cyn i ni fynd ati yn yr ysgol dros yr wythnosau nesaf i greu cefnlen ar gyfer prosiect yr Eisteddfod Genedlaethol "Gair mewn Gwlân". Edrychwn ymlaen i fynd ati i gwblhau'r gwaith celf a'i rannu gyda chwi.

Roedd y disgyblion wedi mwynhau eu hymweliad ag Ysbyty'r Chwarel hefyd. Cafwyd diwrnod gwerth chweil gan bawb.

# Cadwyn Ogwen a Tyddyn Teg




Ffurfiwyd Cadwyn Ogwen yn wreiddiol mewn partneriaeth â chynhyrchwyr bwyd a diod lleol i gefnogi ein cymuned a'n economi leol yn ystod pandemig Covid-19. Mae'n wasanaeth archebu a danfon bwyd, diod a chynnyrch lleol i'ch cartref, neu i fan casglu.

Er fod y pandemig wedi pasio, diolch byth, mae Cadwyn Ogwen wedi parhau ac yn mynd o nerth i nerth, gan mai ei nod ydi:

- Darparu cynnyrch o'r safon uchaf sy'n amlygu'r gorau o'r hyn sydd ar gael yn ein hardal leol
- Annog cwsmeriaid i leihau milltiroedd bwyd ac allyriadau carbon drwy brynu'n lleol a defnyddio cerbydau cymunedol trydan Partneriaeth Ogwen i ddosbarthu nwyddau
- Helpu cwsmeriaid i gefnogi busnesau lleol i gryfhau'r economi leol.

Mae'r drefn yn ddigon syml – bydd y cwsmer yn mynd i wefan Cadwyn Ogwen ar yr Open Food Network, sef cadwynogwen.cymru. Rhowch eich archeb i mewn erbyn hanner dydd ar ddydd Mawrth a byddwch yn derbyn eich nwyddau ar brynhawn dydd Iau. Mae'r gwasanaeth ar gael i drigolion Dyffryn Peris gan fod Fferm Tyddyn Teg, rhwng Bethel a Llanrug, yn un o'r mannau casglu.

Mae dau opsiwn danfon ar gael – danfon i'ch cartref neu gasglu o un o dri lleoliad. Mae danfoniad am ddim ar gyfer archebion dros £25, neu codir tâl bychan am archebion sy'n llai; ond mae danfoniad i fan casglu, fel Tyddyn Teg, yn rhad ac am ddim. Bydd eich archeb yn cael ei danfon gyda fan drydan Cadwyn Ogwen i'ch cartref os ydach chi'n byw ym mhentrefi Rhiwlas, Pentir, Glasinfryn, Llandygai, Talybont, Llanllechid, Rachub, Gerlan, Tregarth, Mynydd Llandygai a Bethesda. Fel arall, gall cwsmeriaid gasglu eu harchebion o un o'r mannau casglu: Moelyci Tregarth, Llaethdy Gwyn Bethesda, neu Tyddyn Teg Bethel. Mae siop Tyddyn Teg ar agor bob diwrnod o'r wythnos heblaw dydd Mercher, felly os ydych chi'n gosod archeb drwy Cadwyn Ogwen gallwch alw yn Tyddyn Teg o brynhawn Iau rhwng 2:30 – 5.30yh i gasglu eich nwyddau.

Mae hwb bwyd Cadwyn Ogwen wedi ei leoli yn Llaethdy Gwyn, Bethesda (yr hen eglwys Gatholig ger y cae pêl-droed), ac yma mae'r holl gyflenwyr yn danfon eu cynnyrch yn ffres ar fore Iau cyn i'r cyfan gael ei sortio yn barseli unigol i'r cwsmeriaid. Dyma gartref newydd Cosyn Cymru, cwmni cynhyrchu caws a iogwrt sy'n brysur dyfu ac yn mynd o nerth i nerth.





Datblygiad newydd cyffrous i'r gwasanaeth ydi bod Cadwyn Ogwen bellach wedi gefeillio gyda hwb bwyd arall cyfagos, sef Hwb Bwyd Dyffryn Nantlle. Daeth y syniad yn dilyn dysgu am lwyddiant hybiau bwyd eraill fu'n cydweitho, yn enwedig y Good Food Loop yn Nyffryn Tamar. O dan y model hwn bydd Cadwyn Ogwen nid yn unig yn helpu'r cyflenwyr drwy ymestyn cyrhaeddiad eu cynhyrchwyr, ond hefyd yn gallu cynnig ystod llawer ehangach o gynnyrch lleol i gwsmeriaid.

Bydd Cadwyn Ogwen a Hwb Bwyd Dyffryn Nantlle yn cymryd eu tro i ddod â chynnyrch i'w gilydd gan ddefnyddio cerbydau cymunedol trydan Partneriaeth Ogwen a'r Orsaf i sicrhau ein bod yn cadw ein ôl troed carbon mor isel â phosib. Ni fydd unrhyw dâl ychwanegol am y nwyddau sydd yn mynd ar y cylch, ac fel bob amser gallwch eu danfon i'ch drws os ydych yn byw yn Nyffryn Ogwen, neu gallwch ddewis casglu o un o'r tri man casglu.

Dyma restr o gyflenwyr presennol Cadwyn Ogwen a Hwb Bwyd Dyffryn Nantlle:
Cosyn Cymru – caws a iogwrt llefrith dafad
Cwmni Bwyd Môr Menai – pysgod a bwyd môr
Caffi Blas Lôn Las Cafe, Fferm Moelyci – llysiau, bara, te a choffi, caws ayyb
Tyddyn Teg Cooperative, Bethel – ffrwythau a llysiau
Fferm Pandy Farm – ffrwythau a llysiau
Tyfu Eryri – llysiau salad/*microgreens*
Mêl Penybonc
Siop Ogwen – anrhegion, cylchgrawn *Golwg*
Derw Coffee – gwirodydd coffi
Amser Al – nwyddau llechi
Inc Pinc – cardiau ac anrhegion
Bethesda Wholefoods Company – bwydydd cyflawn
Blodeuwedd Botanics – blodau a pherlysiau mewn potiau
Cegin Karen – cacennau
Cynnyrch Chwarel Goch – jam a *chutney*
Mountain Mead – medd Cymreig
Poblado – coffi
Maggie's – saws a pherlysiau
Mêl y Maes
Blodau o'r Mynydd – blodau sych
Tafolog – jam a *chutney*
Siop y Glorian / Sustainable Weigh – bwydydd sych, llysiau/ffrwythau a deunydd molchi a glanhau fesul eu pwysau

Dyma hi'r wefan eto – cadwynogwen.cymru, neu ewch i wefan www.openfoodnetwork.org.uk a chwilio am Cadwyn Ogwen. Cofiwch, felly, mai hanner dydd ar ddydd Mawrth ydi'r amser cau i dderbyn eich archebion bob wythnos. Mae'n gyfle i gefnogi cynhyrchwyr lleol yn ogystal â derbyn pecyn o gynnyrch lleol bendigedig. Ydach chi wedi cael blas?

## Dathlu Mewn Steil

Ar glawr rhifyn mis Mawrth o'r *Eco* fe gofiwch ein bod wedi rhannu'r newyddion bod Mari Gibbard o Lanrug wedi ymuno â thîm pêl-droed merched Clwb Wrecsam. Ers hynny mae Mari wedi cael bod yn rhan o lwyddiant y tîm sydd wedi ennill dyrchafiad i chwarae yn Uwchgynghrair Cymru y tymor nesaf, felly cofiwch fynd i gefnogi os y gallwch.

Mae hi wedi bod yn amhosib osgoi clywed am lwyddiant anhygoel tîm y dynion, ac mae'r sylw ar y cyfryngau Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol wedi bod yn glodwiw. Gwych oedd gweld bod y tîm merched a'r tîm dynion gyda'i gilydd yn rhannu llawr uchaf y bws a fu'n gorymdeithio strydoedd Wrecsam er mwyn dathlu gyda thrigolion a chefnogwyr. Trowch at y clawr i weld llun o Mari gyda'r tlws ar y bws (a'r perchnogion Ryan Reynolds a Rob McElhenney wrth gwrs!).

Llongyfarchiadau eto Mari, edrychwn ymlaen at weld be ddaw dros y tymor nesaf. Pob lwc!



# Garddio

## MEHEFIN

Wrth ysgrifennu hwn ym mis Mai, mae hi dal yn oer, bwrw glaw mân, ond wedi cynhesu rhyw gymaint. Hen bryd i ni gael dipyn o dywydd cynhesach. Ond mae pethau'n dal i dyfu, blodeuo a llenwi'r ardd gyda lliwiau. Roedd Carol Williams ar Radio Cymru'r bore yma'n ategu bod llawer o flodau ar y coed afalau, sy'n argoeli'n dda am gnwd da o afalau (gobeithio) yn yr hydref. Yn sicr y mis hwn mae angen plannu pethau tu allan doed a ddelo. Gobeithio felly, wrth ddarllen hwn, bydd gwres yr haf wedi cyrraedd.

**Tasgau**

1. Dal ati efo'r hof. Dyfal donc a dyrr y garreg meddan nhw, neu yn yr achos yma, dyfal donc sy'n chwalu'r chwyn.
2. Defnyddiwch ddŵr yn ddarbodus. I fynd yn ôl i'r sgwrs radio glywais i'r bore yma, mi gawson ni Chwefror sych, llawer o law yn mis Ebrill, a hyd yma wedi cael rhywfaint o law hyd at ganol Mai. Ond yn ôl Carol mae tywydd poethach a chynhesach i ddod. Felly, os nad ydach chi eisoes wedi gwneud, rhowch haen o domwellt (*mulch*) dros eich borderi. Gall fod yn dail (os allwch chi gael gafael ar beth ffres go-iawn), rhisgl coed, compost neu hyd yn oed cnu (gwlân). Bydd pob un ohonynt yn cadw lleithder yn y pridd a thorri lawr yn raddol, gan wella'r pridd ar yr un pryd. Defnyddiwch gasgen ddŵr os yn bosib i gasglu dŵr glaw o'r landerydd, yn hytrach na dŵr tap, mae'n well i'r amgylchedd ac i'ch planhigion. Os ydach chi ar fetr dŵr mi fydd yn well i'ch cyfrif banc hefyd. Dyfriwch yn gynnar yn y bore cyn i'r haul ddod allan neu gyda'r nos pan fydd yr haul wedi mynd i'w wely.
3. Dwi'n teimlo fod pethau ar ei hôl hi eleni a'r tomatos yn parhau'n fach o'i gymharu â llynedd. Er hynny mae'n dal yn bwysig i dynnu'r 'lladron' oddi ar y tomatos wrth iddyn nhw ddod i'r fei rhag iddynt ddwyn nerth y planhigyn. Mi fyddai'n plannu basil (brenhinllys) eto eleni yn y tŷ gwydr, gan fy mod i'n grediniol iddo gadw'r pry gwyn a gwyrdd, pryfed tŷ a llyslau (*aphids*) draw, llynedd a'r flwyddyn cynt. Os mai meddal ydy meddwl, mae basil yn hyfryd efo salad tomato neu i wneud pesto! Planhigion eraill i'w tyfu wrth ymyl y tomatos yw'r cornicyll (*nasturtium*), nionod syfi (*chives*) neu nionod, sydd eto i fod i gadw pryfetach niweidiol draw.
4. Wrth i'r tywydd gynhesu mi fydd mwy o awydd salad arna i. Da o beth felly y bydd letys, rhuddygl [*radish*] a nionod mân yn barod. Mi fydda i'n hau cymysgedd o hadau letys bob rhyw 3 – 4 wythnos ac yn torri dail bach fel bo'r angen ac felly'n sicrhau cnwd cyson o ddail amrywiol. Bydd y tatws cynnar yn barod i'w bwyta hefyd. Does dim byd fel blas taten ifanc rydach chi wedi ei thyfu eich hun. Mae hi'n ddadl flynyddol rhyngddof i a fy mrawd am pryd i gynaeafu y slotsyn gwyrdd. Dwi'n licio nhw'n reit fach a blasus ond mae'n well ganddo fo adael iddynt dyfu'n fwy i gael mwy o flas nionyn! Pawb at y peth y bo. Yn sicr mae bywyd yn rhy fyr i ddadlau dros slotsyn!





5. Os nad ydach chi'n byw mewn lle rhy wyntog (dwi ddim hyd yn oed yn ystyried plannu rhai acw) crogwch eich basgedi crog, a llenwch eich potiau a bocsys ffenest gyda blodau. Cofiwch fod dyddiau poeth a/neu wyntog yn eu sychu'n sydyn a bydd angen eu dyfrio a'u bwydo gyda chwrtaith hylifol i sicrhau sioe o flodau lliwgar trwy gydol yr haf. Mae eu socian yn iawn mewn pwced o ddŵr yn fwy effeithiol na thrio eu dyfrio nhw ar y bachyn.
6. Bu annogaeth arnom i beidio torri'r lawnt ym mis Mai (*No Mow May* 'chadael y Sais). Os ydach chi'n methu maddau, torrwch eich lawnt gan osod y llafnau'n reit uchel. Beth am dorri pob pythefnos? Byddai hynny'n hyrwyddo gwenyn (peillwyr pwysig) i'r ardd, neu gadewch lecyn yn rhywle heb ei thorri.
7. Plannwch unrhyw flodau blwyddol nad ydach chi eisoes wedi eu plannu, gan gofio eu dyfrio'n dda a dal ati i ddyfrio nes eu bod wedi sefydlu.
8. Dyma gyfle da i docio unrhyw lwyni sydd wedi blodeuo yn y gwanwyn.
9. Os daw'r tywydd poeth arfaethedig, ceisiwch gysgodi eich tŷ gwydr rhag haul crasboeth. Gallwch baentio hylif gwyn dros y gwydrau ond y peth pwysicaf yw awyru. Agorwch neu caewch y drws neu ffenestri fel bod angen, dwi'n gwybod mae'r un acw'n codi i 80 yn gynnar yn y bore. Mae taenu dŵr oer ar y llawr yn creu awyrgylch llaith ac yn dod a'r dymheredd i lawr. Jest gwyliwch rhag llithro!
10. Peidiwch a thorri dail bylbiau'r gwanwyn, gadewch iddynt wywo. Dwi'n gwybod gallant edrach yn flêr ond y pris i'w dalu o'u torri fydd salach sioe o flodau lliwgar yn y gwanwyn.

**Cnoi cil**

Mae modd gwneud rhywbeth gwahanol bob blwyddyn yn yr ardd. Dyma ychydig o bethau i'w hystyried efallai:

Wrth i'n hafau droi'n sychach, bydd rhai planhigion yn ei chael hi'n anodd i oroesi. Ystyriwch gyfnewid yr *hydrangea* neu'r trilliw ar ddeg, gyda *choisya* . Meddyliwch o ddifrif, bôn y gair '*hydrangea*' yw 'hydra' sy'n golygu dŵr yn iaith Groeg, sydd felly'n awgrymu eu bod angen dipyn o ddŵr! Cyfnewid eich *fuschias* arferol gyda '*cape fuchsias*' (phygelius) ac unrhyw blanhigion sychedig eraill gyda *salvias*.





Bod yn flerach. Gadael i ambell i ddant y llew flodeuo a hadu; peidio torri'r gwair i gyd yn fyr a gadewch ambell i glwmp o ddanadl poethion fyw. Mi fydd yr adar a'r pryfetach wrth eu bodd a bydd y titw tomos a'r fuwch goch gota yn eich helpu wrth iddynt wledda ar y llyslau (*aphids*).

Debyg bod llawer ohonoch yn creu eich compost eich hun. Tybed faint ohonoch sydd wedi ystyried creu eich gwrtaith hylifol eich hun? Casglwch ddail danadl poethion (gan wisgo menyg a llewys hir). Rhowch y cwbl lot mewn cynhwysydd (efo caead) a thywallt dŵr dros bob dim, a'i adael am ryw fis i 6 wythnos. Mae'n drewi ond bydd yr hylif (heb y dail soeglyd) o'i wanhau i ryw 1 : 10 efo dŵr yn gwrtaith llawn nitrogen, sy'n dda iawn i blanhigion deiliog fel sbigoglys (spinach) cêl, bresych neu salad. Gallwch wneud cwrtaith sy'n llawn potasiwm yn yr un modd efo dail cwmffri (*comfrey)* (sy'n tyfu'n wyllt mewn llecynnau llaith – neu gallwch dyfu peth eich hun. Mae hwn yn ardderchog i blanhigion sy'n dwyn ffrwyth.

Ceisio peidio defnyddio pla-laddwyr, sy'n gallu lladd y pryfetach llesol yn ogystal a'r rhai sy'n niwsans. Dwi'n gweld cymysgedd o sebon golchi llestri a dŵr yn gweithio llawn cystal.

Peidio defnyddio peledi lladd gwlithod a malwod, gan fod y draenog ac adar amrywiol yn gallu cael niwed neu hyd yn oed eu lladd o fwyta'r malwod sydd wedi bwyta'r peledi. Sicrhewch bod eich planhigion yn iach ac yn gryf a dygymod efo'r ffaith nad yw ambell i dwll mewn deilen yn ddiwedd y byd. Gallwch osod trapiau cwrw (neu dŵr a burum – sy'n rhatach) neu drio peledi wedi eu gwneud o wlân. Perswadiwch y plant i ddod am helfa gwlithod a malwod efo chi gyda'r nos – gyda gwobr fach am yr un sy'n dal y mwyaf ohonynt! Gwaredwch nhw mewn pwced o ddŵr o halen, neu os ydach chi'n galon feddal, ewch a nhw i rywle arall sy'n ddigon pell o'ch gardd chi… Nid drws nesaf!

Dal ati i ddysgu. Dwi'n dysgu llawer o raglenni ar y teledu a'r radio, o lyfrau, cylchgronau, crwydro gerddi pobl eraill a jest wrth drafod efo unrhyw un sydd yn mwynhau garddio. Dyna her handi i chi i gyd felly – dysgu rhywbeth newydd bob wythnos…

Y peth pwysicaf am arddio yw cael pleser a boddhad o'ch holl waith caled a chofio cymryd munud bach i eistedd yn ôl, efo paned neu rwbath cryfach, yn yr haul, a mwynhau'r hyn welwch chi. Da ydy natur.


***Rhosyn Mynydd***

# Ysgol Llanrug

**Opera Cenedlaethol Cymru**
Yn ystod tymor y gwanwyn, bu Blwyddyn 6 yn cydweithio gydag Opera Cenedlaethol Cymru ar brosiect cyfansoddi a pherfformio wedi ei seilio ar stori Dewryn. Cafodd y cynhyrchiad terfynol ei berfformio o flaen rhieni, plant a disgyblion o ysgolion eraill yn y Galeri yng Nghaernarfon. Cynhaliwyd nifer o weithdai gan dîm o arbenigwyr cerddorol, cyfansoddwyr ac offerynnwyr yn ystod y tymor. Diolch i Miss Lockley am eu dysgu.



**Gwefan**
Mae gan yr Ysgol bellach wefan newydd lliwgar a hawdd i'w dilyn. Ceir yma yr holl wybodaeth am yr ysgol yn ogystal â'r newyddion diweddaraf. http://www.ysgolllanrug.com




**Eisteddfod yr Urdd**
Cafwyd llwyddiannau yn Eisteddfod cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail gyda'r parti llefaru yn gyntaf (dan arweiniad Mrs Llinos Evans) a'r parti unsain yn drydydd (dan arweiniad Miss Gwenan Lockley). Bydd y parti llefaru yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri gan iddynt ddod yn 1af yn Eisteddfod Sir Eryri.

Diolch i'r staff am eu dysgu a darparu cyfleoedd cyfoethog a hollbwysig i'n disgyblion.





**Llyfrau**
Fel rhan o ymgyrch Diwrnod y Llyfr fe gafodd bob plentyn yn yr ysgol lyfr newydd. Diolch yn fawr i Palas Print.



**Nofio**
Cystadlodd tîm o ddysgwyr blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 mewn Gala Nofio a hynny am y tro cyntaf ers 2019.

Llongyfarchiadau mawr i dîm nofio yr ysgol a ddaeth yn fuddugol yng Ngala Nofio Arfon. Diolch i Miss Catrin Jones a Mrs Nia Edwards am hyfforddi.

**Bingo**
Braf oedd gweld y neuadd yn orlawn yn ddiweddar ar gyfer y bingo. Diolch i Bwyllgor Ffrindiau'r Ysgol am eu gwaith caled.








**Ras Llanrug**
Dewch yn llu i gefnogi y ras leol yma. Bydd Kelly a Linette o raglen ffit Cymru yma hefyd! Mae modd cofrestru cyn y noson ar y wefan https://fabian4.co.uk





**Tripiau**
Cafodd plant blwyddyn 5 a 6 drip i Danger Point er mwyn dysgu am ddiogelwch mewn mannau gwahanol.

Bu blwyddyn 1 a 2 draw yn Menter Fachwen yn plannu blodau ac roeddynt wrth eu boddau yn cael dod a nhw'n nôl i'r ysgol i addurno ein gardd newydd.

**Profedigaeth**
Yn dilyn y newyddion trist am farwolaeth Dylan Edwin Jones o Cynlas, 4 Lôn Elan, cynhaliwyd gwasanaeth angladd dan arweiniad Y Parchedig W. Bryn Williams ar y 27ain o Ebrill, gyda theyrngedau gan ei ffrindiau a'i chwaer Anwen. Roedd Dylan yn fab addfwyn y diweddar Leslie a Nancy Edwina Jones, Meillionydd, Penisarwaun a brawd arbennig ac annwyl Anwen a'i phriod Aled, ewythr caredig ac addfwyn Iolo, Dafydd, Gwawr, Meinir a'u teuluoedd hwythau. Roedd yn ffrind ffyddlon a thriw i lawer. Rydym yn meddwl am y teulu ac yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf atynt yn y cyfnod anodd yma.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf i deulu y ddiweddar Gwenllian Griffith, Pistyll Cain, Llanrug a fu farw ar yr 11eg o Ebrill. Merch arbennig y diweddar O.T. a Mair Griffith, Llain Wen, Llangristiolus, chwaer annwyl Rhiannon a Nest a chwaer-yng-nghyfraith hael a charedig i Mike. Cyfneither ddifyr a hwyliog, nith hoff, cydweithwraig ddoeth a chydwybodol a ffrind ffyddlon iawn i lawer un yng Nghymru a thu hwnt. Colled enfawr i'w theulu, ei chydweithwyr a'i holl ffrindiau. Rydym yn meddwl am y teulu yn y cyfnod anodd hwn.

**Diolchiadau**
Diolch yn fawr i Cliff a Vera, Awelon, sydd yn ymddeol ar ôl dosbarthu'r Eco am flynyddoedd. Fe fydd Becky Morris, Tŷ Hermon yn cymryd drosodd y gwerthiant.

Mae saith ffrind yn cyfarfod bob bore Mawrth am baned a sgwrs yn nghartref Meira Williams. Bydd casgliad ariannol bob tro ac mae'r arian yn mynd i elusennau, fel arfer yn lleol, ond rhai yn genedlaethol. Dyma enwau yr elusennau a gafodd eu cefnogi:
Cymorth Cristnogol, Dementia lleol Macmillan Cymru, Awyr Las, Banc Bwyd Llanrug, Y Band, Cylch Ti a Fi, Cancr y Prostad, Cymdeithas M.S, Nyrsus Cymunedol

Cyfraniad at achosion personol Mae'r cyfanswm hyd at yma dros £900. Diolch arbennig i Meira am y lluniaeth bob wythnos yn ei chartref.

Dymuna Valmai Owen, Rhos Elan ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd pan oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 80 oed ddechrau mis Mai. Cafodd amser arbennig iawn yn dathlu'r achlysur.




Capel y Rhos
Oedfaon Mehefin:
4ydd Mehefin – Parch. Trefor Lewis
11eg Mehefin – Mr. Robert Morris
18fed Mehefin – Y Barch. Nerys Griffiths ein gweinidog
25ain Mehefin – Oedfa i'w threfnu

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Menna Williams, Fferm Minffordd sydd wedi dod yn hen nain unwaith eto. Ganwyd Frankie William i Jake ac Izzy Burston ac mae Shan a Steve, Bryniau Fawnog wedi dod yn nain a thaid am y tro cyntaf ac wedi gwirioni. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

**Caffi Trwsio**
Cofiwch am y Caffi Trwsio fydd yn cael ei gynnal am y tro cyntaf yn y Neuadd Goffa ddydd Sadwrn 17eg Mehefin.

**Hafan Elan**
Ar 9fed o Fai, cynhaliwyd Parti Coroni yn y Ganolfan a phawb wedi mwynhau gwledd o fwydydd a diod blasus. Cawsant eu diddori unwaith eto gan ffrind arbennig iddynt bellach sef Tim Ward o Lanberis. Roedd hynny yn wledd o fath gwahanol. Diolch i Beverley y Warden a'i mam am baratoi'r lluniaeth.

**Ymweliad Iaith Ar Daith**
Cafodd Cangen Merched y Wawr Llanrug ymweliad go arbennig yn ddiweddar pan ddaeth criw'r rhaglen deledu Iaith ar Daith draw i'r Sefydliad Coffa.

Daeth nifer o aelodau'r gangen ynghyd am baned pnawn, a chael cyfle i gyfarfod yr actores Jessica Hynes a oedd yn cael ei thywys o amgylch Cymru gan yr actores Lisa Palfrey.

Un o dasgau Jessica oedd dewis ei hoff waith celf o'r bwrdd arddangos a oedd yn llawn o waith llaw aelodau dawnus y gangen.

**Mercher y Wawr (Llanrug)**
Ar 9fed Mai, estynnwyd groeso cynnes i bawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan Mair, ein Llywydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau ac anfonwyd ein cofion at yr aelodau oedd yn absennol. Cychwynwyd gyda Chân y Mudiad, gyda Susan yn cyfeilio. Atgoffwyd pawb o'r cyfarfodydd misol diddorol a gafwyd o Fedi 2022 hyd at Fehefin 2023. Penderfynwyd codi'r tâl aelodaeth i £20 a'r Raffl i £3 o fis Medi ymlaen.

Bydd angen cyflwyno arian Raffl Merched y Wawr Arfon/Dwyfor erbyn 3ydd Mehefin i Meirwen. Gofynnir yn garedig i bawb dynnu'r styffylon o'r bonion **cyn** eu dychwelyd. Mae'r Gangen wedi cefnogi ymgyrch gweithgareddau'r pentref, gan lwyddo i godi £850 tuag at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd.

Cafwyd adroddiad ariannol gan Pat a diolchwyd iddi am ei gwaith diflino am y 9 mis aeth heibio.

Dewiswyd Swyddogion 2023 – 2024 yn rhwydd iawn, gyda Bethanne yn Llywydd, Mair yn Is-Lywydd, Meirwen yn Ysgrifenyddes, Pat yn parhau fel Trysorydd ac Avril yn Is-Drysorydd. Ann Lloyd – Celf a Chrefft; Ann Ifans a Mary – Dosbarthwyr y Wasg ac Olwen a Linda – Dosbarthwyr yr Wawr, gan ei gasglu pedair gwaith y flwyddyn o Palas Print.

Llongyfarchwyd Ann Lloyd, Amanda, Pat a Meirwen ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Bowlio Deg Rhanbarthol. Bu saith aelod o'r Gangen yng Ngŵyl y Pum Rhanbarth yn Aberffraw ddydd Sadwrn, 13eg Mai. Cytunodd nifer o'r gangen i helpu ym mhabell yr Eglwysi ar Sadwrn olaf yr Eisteddfod Genedlaethol o 12.00 – 3.00 yp.

I gloi'r noson, estynnwyd croeso mawr i Magi a Gareth Roberts o Fenter Fachwen gyda diolch i Linda am drefnu ar ran y Gangen. Cafwyd cyfle i brynu cynnyrch yr ardd gyda Magi ac yna cafwyd sgwrs am Fenter Fachwen gan Gareth.

Sefydlwyd y Fenter yn 1988 i greu 'rhywbeth gwahanol', sef datblygu gwasanaethu i bobl gydag anableddau dysgu, er mwyn iddynt gael yr hawl i gael patrymau normal yn eu cymunedau, gyda chymorth gan eu cymunedau lleol a gwasanaeth proffesiynol. Prynwyd bwthyn bach o'r enw, 'Cwm Derwen' oedd yn adfail ar allt Fachwen. Drwy grantiau ac agor Siop elusen ar Stryd Fawr Bangor, codwyd digon o arian i atgyweirio'n bwthyn. Bellach mae



# Prosiect Pum Mil S4C yn dod i Fro'r Eco





Mae Trystan-Ellis Morris ac Emma Walford o Prosiect Pum Mil angen help pobl bro'r Eco.

Mae'r cyflwynwyr ar eu ffordd i Ddyffryn Peris wedi i'r rhaglen boblogaidd ar S4C gytuno i helpu i wella Cwt Band Llanrug.

Fe wnaethon nhw ateb galwad aelodau'r Seindorf i'w helpu i roi'r band yn ôl ar ei draed yn dilyn effaith Covid.

Mae nifer o unigolion a chwmnïau lleol eisoes wedi addo helpu, gan gynnwys y seiri coed Dyfrig ac Alan Owen, cwmni peirianneg Cadarn, KMS, Swift Electricals a'r plymar Dafydd Osian. Ond mae dal angen cymorth – gan bobl o fewn y diwydiant adeiladu fel peintwyr a thrydanwyr, a phobl sy'n fodlon torchi llewys a gwneud paneidiau. Y mwya o bobl all wirfoddoli dros y penwythnos ganol Gorffennaf, hyd yn oed am fore neu bnawn, y lleia o faich fydd ar bawb.



Un o'r gobeithion ydi gwneud gwelliannau i'r Cwt Band fydd yn ei wneud yn adnodd i'r gymuned a'i wneud yn fwy deniadol i blant a phobl ifanc wedi i nifer adael y band pan ddaeth ymarferion a phopeth arall i ben yn ystod y pandemig. Cyn Covid roedd 22 o blant yn y 'band bach' – ond dim ond pump sydd dal yn aelodau. Am wahanol resymau, sefyllfa debyg oedd hi yn y band oedolion hefyd tan i griw o aelodau geisio denu chwaraewyr newydd a chyn-chwaraewyr yn ôl, a chael y band ar ei draed.

Meddai arweinydd a chadeirydd y band Graham Williams: "Mae hwn yn gyfle gwych i wella'r cwt a rhoi hwb i'r band – a dwi'n siŵr gawn ni ddipyn o hwyl wrth gymryd rhan yn y rhaglen hefyd."

Am fwy o wybodaeth cysylltwch efo'r band drwy eu tudalen Facebook, ebostiwch bandllanrug@gmail.com neu ffoniwch 07788 387013.

safle yng Nghwm-y-glo, Llanberis, Fachwen a dau arall yn Neiniolen. Tu allan i Gwm-y-glo mae'r Hen Orsaf, ble mae'r Fenter wedi sefydlu dau fusnes, sef Gweithdy Gwaith Coed, sy'n gwneud tai adar, tai draenogod, dodrefn gardd a.y.y.b. Mae yno hefyd Adran Garddwriaeth, sy'n tyfu blodau a llysiau tymhorol, torri gwair a chreu gerddi ar gyfer yr henoed.

Yn Neiniolen mae Caffi EB's, yno gwneir y Bara Brith enwog ac mae'r caffi yn brysur iawn ar adegau.









Bellach mae Cwm Derwen, y Safle Gwreiddiol, yn barc wyth acer sy'n cael ei gynnal a'i gadw gan y tîm o bobl sydd ag anableddau dysgu. Maent yn cydweithio gyda Pharc Gwledig Padarn a Rheilffordd y Llyn. Dyma Fenter sy'n rhoi cyfleoedd i bobl ag anawsterau dysgu, i'w galluogi i gael profiadau yr ydym ni'n disgwyl eu cael fel ein hawliau sylfaenol, megis cael bod yn greadigol a chael mwynhau ein hunain. Cofiwch alw draw i unrhyw un o'r safleoedd, bydd croeso twymgalon i'w gael ynghyd â diolch am eich cefnogaeth.

Diolchwyd i Gareth a Magi gan Mair, a mawr ein hedmygedd fel aelodau o'r Gangen o holl aelodau a staff y Fenter am eu gwaith amhrisiadwy.

Ar nos Sul 14eg o Fai, darlledwyd 'Iaith ar Daith' am 8.00pm gydag Aelodau'r Gangen yn cael cyfle i siarad â'r ddysgwraig Jessica Hughes o Folkstone, oedd yn awyddus i ddysgu Cymraeg a chael hanes mudiad Merched y Wawr.

Ar y 13eg Mehefin byddwn yn cyfarfod yng Nghaffi Melys, Caernarfon am 6.00pm i fwynhau Bwffe am £20 y pen.

# Ysgol Waunfawr

**Antur Waunfawr**
Mae Dosbarth Moel Eilio wedi cael croeso arbennig gan Dewi, Aled a staff yr Antur yn ddiweddar fel rhan o'u gwaith thema ar dyfiant a phlanhigion. Edrychwn ymlaen i weld yr hadau'n egino a chael blasu rhai o'r llysiau.





**Wythnos Iechyd a Lles**
Byddwn yn cynnal wythnos iechyd a lles ddechrau Gorffennaf ac yr ydym yn edrych am gymorth i gynnig ymweliadau, profiadau a sgyrsiau i'r plant. Oes gennych chi gysylltiadau neu ydych chi'n adnabod rhywun ym myd chwaraeon a fyddai'n fodlon dod i'r Ysgol am sgwrs?



**Celf a Chrefft Yr Urdd**
Llongyfarchiadau i holl blant yr Ysgol am gystadlu eleni ac i'r rhieni am eu cefnogaeth gartref. Dyma'r rhai a fu'n fuddugol y tro hwn:
Elliot Jones, Bl. 2: 3ydd, Ffotografiaeth lliw, Bwyddyn 2 ac iau
Macsen Hamer, Bl. 2: 1af, Tecstiliau Creadigol, Blwyddyn 2 ac iau
Macsen Hamer, Bl. 2: 3ydd, Gemwaith, Bl 2 ac iau
Ellen Huuse, Bl. 3: 3ydd, Ffasiwn, Blwyddyn 6 ac iau
Pob hwyl i chi yn y Genedlaethol!

**Ffair Haf**
Bydd rhieni a chyfeillion yr Ysgol yn trefnu Ffair Haf eto eleni. Cysylltwch os am logi stondin neu os medrwch gynorthwyo mewn unrhyw ffordd. Manylion yn y rhifyn nesaf.

**Llangrannog**
Cafodd Blwyddyn 6 daith arbennig i Langrannog gan fwynhau profiadau arbennig a thywydd anhygoel. Diolch i'r staff a'r plant am wyliau bythgofiadwy.

**Dyddiadur Llangrannog tri o ddisgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Waunfawr**

**Pnawn Dydd, Llun, 24 ain o Ebrill 2023: Taith Blwyddyn 6 Ysgol Waunfawr i Langrannog**

Annwyl Dyddiadur
Cyrhaeddom Llangrannog a mynd i'n hystafelloedd. Yna aethom yn syth i'r neuadd ymgynnull i gael ein croesawu. Wedi clywed beth oedd y rheolau aethon am ginio. Roedd y bwyd yn flasus iawn, cawsom ham a sglodion. Ar ôl cinio aethom i'r ardal beiciau modur ac roeddem angen cael prawf gyrru a gwisgo menyg a helmed caled, tynn rhag ofn i ni frifo neu ddisgyn, ond roedd hanner ohonom yn gorfod cael ein gwahanu ar y rhaffau isel oherwydd bod yno ormod ohonom ni. Cawsom hwyl ar y rhaffau isel. Roedd o yn ymarfer da i'r rhaffau uchel ac yn fanno hefyd roedd rhaid gwisgo helmed.

Yn nes ymlaen, aethom i'r sied ceffylau i gael reidio, brwsio ac arwain y ceffylau. Roedd rhaid gwisgo helmed ac eistedd ar gyfrwy, ac hefyd roedd rhaid gwahanu i ddau grŵp, un gyda'r ceffylau ac un ar y trampolin. Roedd y trampolin gymaint o hwyl oherwydd ein bod yn gallu gwneud triciau arno a neidio yn uchel. Roedd rhaid gwisgo harnais gyda dau raff yn dod allan ohoni, i'r dyn gael tynnu'r rhaffau yn dynn. Yna aethom i'r pwll nofio. Roedd yn gynnes iawn, ac yn y pwll roedd yna bethau fel fflots, peli a gemau dŵr.

Cawsom swper neis iawn: sglodion, ffa poeth a selsig. Yna cawsom fynd i'r siop a chwarae bingo. Enillais i gan gael tŷ llawn. I orffen, aethom i'r neuadd chwaraeon i chwarae pedair gêm bêl-droed fel crancod, pêl-foli, pêl-rwyd ac dodgeball.

Fy hoff weithgaredd oedd y gwibgartio oherwydd ei fod yn hwyl, a doeddwn i ddim yn disgwyl i fynd yn wlyb ond rhoddodd y arweinydd y beipan ddŵr ymlaen ac roedd hynny yn sioc fawr oherwydd doeddwn i ddim yn disgwyl hynny, ac aeth fy ffrindiau a finnau yn socian o'n pennau i'n traed, ond roedd yn andros o hwyl.
**Cadi Parry**











**Mr T**
Bu Mr T yn cyfansoddi anthem Dalgylch yn yr Ysgol yn ddiweddar. Bydd pob Blwyddyn 6 yn Nalgylch Ysgol Brynrefail yn cyfansoddi pennill ac yn perfformio'r anthem cyn hir. Profiad arbennig iawn iddynt. Cafodd dosbarth Mynydd Mawr a Moel Eilio brofi'r drymiau bwced hefyd. Roedd pawb wrth eu boddau!

**Dydd Mawrth, Ebrill 25ain, 2023**
I frecwast, cawsom gig moch, tôst a ffa poeth ac wedyn ar ôl y brecwast blasus aethom syth i saethyddiaeth (bwa a saeth). Cawsom gêm ar y diwedd a wnaethom ennill! Hwre! Nesaf, aethom i wneud gwyllt-grefft. Roeddem yn gorfod creu tân gan ddefnyddio gwlân cotwm a fflint a dur. Os nad oeddem yn llwyddo, DIM MALWS MELYS ar y tân! Lwcus i ni, wnaethom lwyddo – felly MALWS MELYS!

I ginio, cawsom pitsa, sglodion a ffa poeth. Roedd o'n berffaith i roi egni i ni am y diwrnod o'n blaenau.
**Luca Boswell**




## ECO'r Wyddfa

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com


**Dydd Mawrth, Ebrill 25ain, 2023**
Dechreuodd prynhawn dydd Mawrth gyda chinio. Roedd y cinio yn flasus. Cawsom bitsa, sglodion a bins. Ar ôl hynny aethon ni i'r weiren zip. Roedd hynny yn andros o hwyl. Roeddem yn gorfod gwisgo harnes a helmed. Wedyn roeddem ni yn gorfod cerdded i fyny'r grisiau uchel at y bobl oedd yn gweithio yna yn rhoi carabiner clip arnom i gadw ni'n saff, rhag ofn ein bod yn disgyn lawr tra roeddynt yn ein rhoi ni ar yr weiren zip. Cymerais naid anferth a sglefrio i lawr yn sydyn!

Syth ar ôl hynny aethom ni ar y rhaffau uchel. Roedd hwnna yn llawer o hwyl. Yn hwn, roeddem angen cael zip a thynnu fo gyda chdi rownd y cwrs rhaffau uchel.

Yn yr un adeiad oedd y lle dringo. Yn gyntaf, wnaeth Jamie (Arweinydd ni) ddweud wrtha ni i ddringo o rhif 1 i 8 ac o 16 i 8. Wedyn wnaeth Jamie rhoi sialens i ni trio dringo reit i dop y wal dringo. Roedd dringo yn llawer iawn o hwyl.

I swper y noson yna, fe gawsom ni sbageti, peli cig neu fysen ni wedi gallu cael bolognese yn lle peli cig. Roedd swper y noson honno yn flasus iawn.

Ar ôl swper, aethon ni i'r lle rhaffau uchel a dringo i wneud Twmpath a gemau dawnsio. Yn gyntaf, dawns gyda cherddoriaeth yr Urdd yn y cefndir. Nesaf, aethom i'r disgo. Roedd yna tua 6 ysgol yno gyda ni. Yn y disgo roedd yna tua 50 siaradwr ofnadwy o swnllyd! Roedd yna olau disgo yn mynd dros yr ystafell anferthol i gyd! Roedd y lliwiau prydferth disglair yn brifo fy llygaid tipyn bach, ond roedd yn hwyl a hyfryd.

Pan adawsom y disgo rhoddodd y pennaeth ddewis i ni – aros i fewn am chwarter awr yn ein hystafelloedd neu aros allan a chwarae pêl-droed. Doedd dim cwestiwn amdani – Pêl-droed! A gwell byth, enillodd tim ni 3-1!

Fy hoff beth oedd y certiau modur oherwydd roeddwn yn cael mynd yn sydyn fel teigr ac roedd o yn ANHYGOEL! Trip gwerth chweil!
**Cai Dafydd**

**Dydd Mercher, Ebrill 26ain, 2023**
Am 8:00 cerddom i'r Neuadd ymgynnull i gael brecwast, wŷ, tost, croissant a 'cereal' ac yna dod yn ôl i'r stafelloedd i bacio ein bagiau a mynd â'r bagiau i'r ganolfan.

Ar ôl y ceir modur cawsom ni gyd hwyl ac roeddwn yn mynd modd turbo. Aethon ni i sgio. Yn gyntaf, roedd pawb wedi mynd i eistedd lawr a gwrando ar y rheolau sgio a sut i roi esgidiau sgio a sut i afael ar y sgis. Wedyn aethom allan ar ddotiau coch a dysgu sut i symud o gwmpas ar y sgis. Wedyn roedd pawb yn cael mynd i fyny'r allt byr a sgio lawr yr allt tair gwaith yr un.

Cyn cinio, aeth pawb fel y gweithgaredd olaf i wneud gwib-gartio. Erbyn cinio roedd pawb yn socian ac wedi nôl eu bagiau a nôl dillad sych ac yna mynd i'r neuadd ymgynnull i gael cinio ac wedyn mynd ar y bws adref.

Fy hoff weithgaredd oedd y gwib-gartio gan fy mod yn mwynhau gwib-gartio ac mae o gymaint o hwyl ac hoffwn wneud o bob blwyddyn.
**Lois Wynne**

## DINORWIG

Tra'n paratoi'r newyddion, doedd dim golwg fod tywydd Mai am wella, a'r gwynt yn dal yn oer. Er hynny, mae digon o wenoliaid wedi cyrraedd, a chlywyd y gog yma hefyd. Does ond gobeithio y daw cynhesrwydd yr haf erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd.

**Gwasanaethau'r Sul**
Dyma drefn y gwasanaethau yn Neiniolen am y mis nesaf. Dalier sylw ar y gwahanol amseroedd. Cofiwch hefyd y byddwn yn cyfarfod yn yr ystafell ar y llawr gwaelod o hyn ymlaen.
Mai 28ain: Dafydd Iwan, Caeathro am 3.30pm.
Mehefin 4ydd: Y Parch John Pritchard am 3.30pm.
Mehefin 11eg: Y Parch Huw Pritchard, Llangefni am 5.00pm.
Mehefin 18ed: Y Parch John Pritchard am 3.30pm.
Mehefin 25ain: Mr Arwel Williams, Caernarfon am 3.30pm.
Gorffennaf 2il: Y Parch John Pritchard am 3.30pm.
Gorffennaf 9fed: Oedfa i'w threfnu am 3.30pm.

**Gofalaeth Fro'r Llechen Las**
Dyma'r eglwysi sydd yn rhan o'r ofalaeth:

Eglwysi Annibynnol: Ebenezer, Deiniolen; Nant Padarn, Llanberis; Carmel, Llanllechid a Bethlehem, Tal y Bont.

Eglwysi Presbyteraidd: Cefn y Waun, Deiniolen; Capel Coch, Llanberis; Rehoboth, Nant Peris (am gyfnod).

Gweinidog ac Ysgrifennydd: Y Parch John Pritchard, Llanberis. Trysorydd: Mrs E. Williams, Llanberis.

Cynhaliwyd Pwyllgor yr Ofalaeth nos Iau, 4ydd o Fai. Mae'n debyg mai hwn oedd pwyllgor olaf Gofalaeth Fro'r Llechen Las. Oherwydd fod ein gweinidog y Parch John Pritchard yn ymddeol ddiwedd Awst nid yw'n debygol y gall yr ofalaeth barhau heb weinidog, ond rhaid byw mewn gobaith. Buom fel eglwysi o wahanol enwadau yn cydweithio'n arbennig o dda gyda'n gilydd dros yr wyth mlynedd ddiwethaf, a mawr ein diolch i'r Parch John Pritchard am ei waith diflino yn ystod y blynyddoedd hyn. Dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Daeth y cyfarfod i ben gyda gweddi gan y gweinidog.


**Llongyfarchion**
Daeth Hannah, Tŷ'r Ysgol yn hen nain unwaith eto wedi i Lois, ei wyres gael merch fach. Da deall hefyd dy fod yn gwella wedi'r ddamwain.

**Cofion**
Braf cael adrodd fod Mrs Dilys Williams (Tŷ Capel a Bro Elidir gynt) wedi cael cartref ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis. Treuliodd gryn amser yn Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli, ond braf ei chroesawu'n ôl i'r ardal. Cof da amdani yn organyddes yn Eglwys St Mair ac yn y capel, a bu'r un mor ffyddlon yn Eglwys St Helen wedi symud i Lys y Gwynt, Penisarwaun i fyw. Os am alw yn y cartref yn Llanberis i ymweld, cofiwch fod angen gwneud apwyntiad ymlaen llaw.

Ein cofion hefyd at bawb yn yr ardal sydd heb fod yn dda eu iechyd neu wedi dioddef profedigaeth.

# WAUNFAWR

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Rhian Roberts-Jones, Gorwel y Môr ar ei llwyddiant yn cwblhau Marathon Llundain. Trwy wneud hynny, a gweithgareddau eraill yn y pentref, cododd gyfanswm o £3,296 i elusen Macmillan.



Dyma oedd gan Rhian i'w ddweud am y profiad o redeg Marathon Llundain: 'Cyn cychwyn y Marathon roeddwn yn nerfus ofnadwy, ond wedyn mi wnes i ddechrau mwynhau. Roedd yr awyrgylch wrth redeg drwy Llundain yn wefreiddiol, a chefnogaeth y dorf yn anhygoel. Erbyn y milltiroedd olaf roedd blinder mawr wedi fy nharo, a'r anafiadau'n brifo. Ond roeddwn yn benderfynol o orffen a rhoi un droed o flaen y llall. Roeddwn mor hapus a balch i orffen; ac mae gen i atgofion melys iawn o'r holl brofiad. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at fy ymgrych codi arian at elusen Macmillan. Cafwyd noson hwyliog iawn yn y Ganolfan gyda Sonia Williams a noson lwyddianus iawn gyda Bwncath yn y dafarn. Llwyddais i gasglu £3,296 tuag at yr elusen. Rwy'n hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu.'

**Panad a Sgwrs**
Cynhelir Trip Haf criw Paned a Sgwrs ar y cyd ag aelodau Merched y Wawr, Waunfawr ddydd Gwener, 30ain Mehefin. Mae ymweliad â Gerddi Cadnant, Porthaethwy wedi ei drefnu. Pris mynediad i'r Gerddi fydd £8, neu £4 i'r rhai fydd ddim yn gallu cerdded y gerddi i gyd oherwydd anhawster cerdded. Os oes gennych ddiddordeb, rhowch eich enwau i ni ar y cyfle cynta.

**Newid enw Tref Eilian gwreiddiol i Hafod Wen**
Yn y rhifyn diwethaf, gofynwyd os oedd rhywun yn gwybod pryd a pham fod y tŷ a enwyd yn wreiddiol, Tref Eilian, bellach yn cael ei alw'n Hafod Wen. Diolch i Gwilym Morris Jones am yr ymateb hwn:

'Credaf mai oddeutu 1959 neu efallai'r 1960'au cynnar y newidwyd yr enw o Tref Eilian i Hafod Wen. Bryd hynny, roedd gŵr a gwraig o Ddolgellau, sef Mr a Mrs Amos Jones, wedi symud i'r Weun yn dilyn eu hymddeoliad. Os ydw i'n iawn, dwi bron yn siwr mai Hafod Wen oedd enw eu cartref yn Nolgellau a dyna efallai'r esboniad am yr enw. Saer coed oedd Amos wrth ei alwedigaeth, a dyn bach digon dymunol efo'i gap fflat a'i getyn; a Mrs Jones yn ddynes fach wantan ac eiddil, a phob amser yn sbio'n stowt ac yn dwrdio plant.

Byddai bachgen o'r enw Ed yn dod ar ei wyliau i Hafod Wen. Americanwr oedd Ed, a byddai'n ymuno efo'r hogia i chwarae pêl-droed yn y cae. Roedd Ed wedi arfer chwarae pêl droed Americanaidd, a phan fyddai'n derbyn y bêl, byddai'n cydio ynddi â'i ddwylo a rhedeg fel milgi efoi'r bêl dan ei gesail, a phawb yn gweiddi ar ei ôl.

O ran yr enw (Tref) Eilian, fel Moel Eilian yn hytrach na Moel Eilio, mae llawer yn adnabod y mynydd sydd uwch ben y pentref.'

Diolch yn fawr i chi am yr wybodaeth yma Mois.

**Cydymdeimlo**
Bu farw Mrs Nelma Pritchard yn ei chartref, 6 Croes y Waun, wedi cystudd hir. Bu Nelma a Lleufer Pritchard yn rhedeg y siop garpedi boblaidd yn Waunfawr am flynyddoedd lawer cyn eu hymddeoliad. Rydym yn cydymdeimlo â'r teulu cyfan yn eu colled: ei phriod Lleufer, y plant Nia, Tegid a Bethan a'u teuluoedd hwythau.




Alison Ty'r Efail yn gwisgo y wobr enillodd yn y raffl sef het wedi ei harwyddo gan Dafydd Iwan)

## EISTEDDFOD LLŶN AC EIFIONYDD – CRONFA WAUNFAWR A CHAEATHRO

Cynhaliwyd cwis yn Nhafarn Waunfawr ar 21ain Ebrill i godi arian tuag at ein targed lleol ni. Cafwyd noson hwyliog a chefnogaeth dda. Yn bwysicach na dim, rydym bellach wedi cyrraedd ein targed ariannol! Diolch yn fawr i Menna Jones, Caeathro a Hawys Tuff, Waunfawr am drefnu'r noson; i Carmen Pierce, Tafarn Waunfawr am adael i ni ddefnyddio'r parlwr cefn, ac am rodd o daleb o £30 i'r tim buddugol; i Dafydd Iwan am fenthyg yr offer sain ac am arwyddo het ar gyfer y raffl; ac i bawb arall gyfranodd at y raffl ac at y noson ei hun.

Aelodau'r tîm buddugol oedd: Menna a Tudur, Caeathro, Hawys Tuff, Waunfawr a Dafydd Dafis, Waunfawr. Roedd gwobr hefyd i'r tîm efo'r enw gorau – a'r teulu Ceiriog o Gaeathro enillodd efo'r enw Dominic Raab – Sgaliwns.

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa







# Cofio Bydwragedd

# Chwilota

**Erthyglau hanes lleol, Bro Eco'r Wyddfa.**

chwilota.wordpress.com

Mae o leiaf dair carreg fedd ym mynwent Llanddeiniolen sy'n coffau bydwragedd, a hynny'n cael ei gofnodi ar y garreg. Mae'n fwy na phosib fod mwy na hyn o fydwragedd wedi eu claddu yno, ond nad yw eu 'galwedigaeth' yn cael ei gofnodi. Ymhell cyn sefydlu'r gwasanaeth iechyd roedd y fydwraig blwyfol yn hynod bwysig, ac yn aml yn gofalu am iechyd mamau beichiog, ond yn enwedig yr enedigaeth ei hun. Un o'r rheini oedd gwraig o'r enw Sian Jones. Claddwyd hi a'i gŵr Dafydd Ellis ym mis Ionawr 1855. I Sian y cyflwynwyd yr englynion sydd ar y garreg fedd.

Shian merch Sion amharchus anair – ni wnaeth
Yn wythdeg a phedair;
Dan len Llanddeiniolen air
Bydwreigen heb ei drygair.

Ar ei braich dyner o'r bru – yn gwyntio
Gyntaf ac amrantu;
Un fil chwe chan baban bu
Yn eu hollol anallu.

Awdur yr englynion yw bardd o'r enw Eos Glan Twrch, ac i wybod mwy am y bardd ac am Sian ei hun, rhaid troi i'r gyfrol *Traethodau ar Waen Gynfi* sef cynnyrch cystadleuaeth gan Undeb Llenyddol Deiniolen dros y Nadolig 1868, ac a argraffwyd yn Ebenezer a'i werthu am wyth geiniog. David M. Jones (Dewi Peris) o Glwt y Bont sy'n adrodd yr hanes wrth drafod hen deuluoedd y Waen Gynfi. Mae'n ymddangos mai chwaer Sion Jones, Hafod-garregog oedd Sian, ond roedd hi a'i phriod Dafydd Ellis yn byw ym Minffordd. Os yw ffeithiau Dewi Peris yn gywir, dywed fod Sion Jones (neu Sion y Gwŷdd fel y cai ei alw) yn dod o ardal Pentir.

Roedd gan Dafydd Ellis a Sian Jones naw o blant. Arhosodd nifer ohonynt yn yr ardal, ond mudodd o leiaf ddau o'r bechgyn i'r America, sef William Dafydd Ellis a Griffith Dafydd Ellis. Gellir dyfalu mai'r brodyr hyn a fu'n gyfrifol am yr englynion coffa ar fedd eu rhieni, oherwydd mewn sylw ar waelod tudalen mae Dewi Peris yn honni: *"Cynigiwyd gwobr mewn cystadleuaeth yn America am y ddau englyn beddargraff gorau i Sian Jones, a dyma y ddau a farnwyd yn orau o'r nifer mawr a anfonwyd i'r gystadleuaeth."* Tybed beth oedd gwerth y wobr a gynigiwyd gan y ddau frawd, a faint tybed o'r *"nifer mawr"* a fu'n cystadlu oedd yn adnabod Sian Jones?

Mae'n amheus a oedd y bardd buddugol yn ei hadnabod. Enw barddol John Edwards oedd Eos Glan Twrch. Cafodd ei eni yn Llanuwchllyn yn 1806. Mae afon Twrch yn llifo o Gwm Cynllwyd i'r pentref hwnnw cyn ymuno â'r Ddyfrdwy ac ymarllwys i Lyn Tegid. Ymfudodd John Edwards i'r America yn 1828, ac yno y bu fyw am weddill ei oes. Mae posibilrwydd ei fod yn adnabod un o'r ddau fab i Sian Jones oedd yn byw yno. Heb yr adnabyddiaeth, sut y gallai wybod fod Sian yn 84 mlwydd oed yn marw, ei bod wedi byw yn Llanddeiniolen, a'i bod wedi dod â 1,600 o fabanod i'r byd? Ffermio yn Oneida County, Efrog Newydd y bu John Edwards ond cyfrannodd doreth o farddoniaeth a llenyddiaeth i'r papurau Cymraeg yn America. Yn 1854, cyhoeddodd *"Llais o'r Llwyn",* casgliad o'i farddoniaeth. Yn ôl pob sôn, bu'n agos at ennill y Gadair yn eisteddfodau Caerfyrddin a Rhuthun. Bu farw'n 81 oed yn 1887, a daeth torf enfawr i dalu'r deyrnged olaf iddo. Ar ddiwedd y gwasanaeth angladdol gwahoddwyd y gynulleidfa i weld y corff cyn cau caead yr arch. Chlywais i erioed am yr arferiad hwn o'r blaen. Oes rhywun yn gallu cadarnhau ei fod wedi digwydd yma yng Nghymru? Fe'i claddwyd gyda'i wraig ym mynwent Wright's Settlement.

Methais â chael unrhyw gyfeiriad at y gystadleuaeth y sonia Dewi Peris amdani yn ei draethawd ar Waen Gynfi.

**Y Milwr Coll**

O fewn llai nag wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r *Eco* fis diwethaf, daeth ymateb i'r ymholiad am y ddau John Hughes – un o'r Ceunant a'r llall o Lanberis. Llawer o ddiolch i Hywyn Williams (Deiniolen gynt) am yr holl fanylion ynglŷn â'r dryswch. Roedd y wybodaeth am John John Hughes, Hafod Owen, Ceunant yn gywir, ond fod y manylion wedi eu cymysgu gyda'r wybodaeth am John Lloyd Hughes, Llanberis.

Yn dilyn marwolaeth John Hughes, Hafod Owen yn Ffrainc, cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddo yng Nghapel M.C. Ceunant ym mis Mai 1918. Claddwyd ei rieni – John a Mary Hughes – ym mynwent Sant Cedol, Pentir, ac y mae coffa am y mab a gollwyd yn y rhyfel ar y garreg fedd.

Ym mis Ionawr 1919, cynhaliwyd gwasanaeth coffa yn Llanrug i gofio am y rhai a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Mawr. Rhestrir yr enwau mewn adroddiad yn y *Carnarvon and Denbigh Herald*, ac y mae'n cynnwys enw John Hughes, Hafod Owen. Syndod felly na chafodd yr enw ei gynnwys ar y dabled goffa yn Sefydliad Coffa Llanrug.

Stori wahanol sydd i hanes J. Lloyd Hughes sydd wedi ei goffau ar Gofeb Llanberis. Enwir ef fel John Lloyd Hughes, Bronygraig. Mae'n cael ei gofio hefyd ar dabled coffa yn y Capel Coch, ac yn nodi dyddiad ei farwolaeth: *"Bu farw yn Ffrainc Awst 13 1918 yn 27 mlwydd oed."* Ond nid cael ei ladd ar faes y gad a wnaeth John Lloyd Hughes. Roedd wedi mudo i'r America tua 1913, ac yn gweithio yno pan 'listiodd' gyda'r fyddin a theithio drosodd ar long i borthladd Lerpwl cyn symud ymlaen i Ffrainc. Bu farw yno o niwmonia. Adroddir ei fod wedi ei gladdu yn Ffrainc – ond ar garreg fedd ym mynwent Caeathro mae'r canlynol: *"The remains of the above John Lloyd Hughes were brought over by the Government of the USA and interred here November 12 1922."*

* * * *

Mae'n syndod faint o wybodaeth sydd i'w ddarganfod ar gerrig beddau!

Os oes unrhyw un â chysylltiad â Sian, y fydwraig, neu â mwy o wybodaeth am y gystadleuaeth i'w choffau, yna cysylltwch. Yn yr un modd, byddai'n ddiddorol gwybod os oes rhywrai o deulu John Lloyd Hughes a fudodd i'r America yn dal i fyw yn Llanberis neu ym mro'r *Eco* – a beth oedd ei gysylltiad â Chaeathro. Mae croeso i chwi gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug LL55 4BA neu drwy ffonio 01286 673515 neu ar e-bost dafydd.wthomas@btinternet.com

# Cyfleoedd Gwirfoddoli yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd

EISTEDDFOD
Llŷn ac Eifionydd
5–12 Awst 2023

Mae wythnos gyntaf Awst yn brysur agosáu, felly mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi cyhoeddi porth newydd ar eu gwefan er mwyn i'r rheiny sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli i ymuno â'r tîm stiwardio i dderbyn gwybodaeth.

Gyda'r rhaglen gystadlu ddrafft wedi'i chyhoeddi eisoes, mae'n gyfle cynharach na'r arfer i ddewis sesiwn wirfoddoli a dod draw i helpu ym Moduan. Mae cyfleoedd gwirfoddoli ar hyd a lled y Maes, gyda chroeso mawr i bawb dros 16 oed i fod yn rhan o'r tîm. Mae croeso i ddysgwyr ymuno, a bydd yn gyfle gwych i ymarfer siarad Cymraeg.

Bydd yr Eisteddfod yn cynnig hyfforddiant llawn i bawb, ac yn cynnig cefnogaeth i bob un o'r tîm yn ystod yr wythnos ei hun.

Eisiau sgwrs anffurfiol am y cyfrifoldebau a'r profiad? Cysylltwch ag un o'r criw sy'n trefnu'r gwaith stiwardio eleni. Anfonwch ebost at gwyb@eisteddfod.cymru am sgwrs, ac mae rhagor o wybodaeth ar y wefan – www.2023.eisteddfod.cymru/gwirfoddoli





# Crwydro gerddi


1


2


3


4


5


7


8


9


10

**Gerddi Cudd – Gerddi Cadnant (2ail ymweliad)**

Yn rhifyn mis Ebrill wnes i ddotio at yr eirlysiau wrth grwydro Gerddi Cudd Cadnant. Roeddwn yn edrach ymlaen at gael ail-ymweld ymhellach ymlaen yn y flwyddyn i weld y bwtsias y gog (clychau'r gog) yn eu gogoniant.

Dwyn ar gyfle felly i grwydro Gerddi Cadnant unwaith eto, ar brynhawn braf ar ddiwedd mis Ebrill. Ffwrdd a ni am y fam Ynys a'r gerddi hyfryd. Wrth yrru'r car drwy'r giatiau a chychwyn i fyny'r lôn sy'n arwain at y gerddi, gawson ni syrpreis fendigedig! Wiwer goch yn gwibio i fyny'r ochr! Dyna wneud fy niwrnod, cyn gweld yr un planhigyn na bwtsias! Rhy gyflym o lawer i mi gael llun, yn enwedig gan mai fi oedd yn gyrru! Ond mae'r corff bach sunsur, gosgeiddig a bywiog yn fyw yn fy nghof o hyd.

Doeddwn i ddim wedi sylweddoli bod hi'n ddiwrnod i'r *National Garden Scheme* yng Nghadnant, felly roedd holl arian mynediad a'r caffi yn mynd at yr elusen hwn, trwy garedigrwydd y perchennog. Rhaid i mi felly fynd drwy'r llyfryn bach melyn a dod i benderfyniad pa erddi, heb fod rhy bell o Ddeiniolen rydw i ac efe am eu crwydro i'r dyfodol. Os ydach chi am grwydro Cadnant gallwch wirio amseroedd ymweld ar www.plascadnantgardens.co.uk neu gallwch ffonio 01248 717174 neu e-bostio plascadnantgardens@gmail.com

Mae'r cyntedd lle gewch chi eich tocyn a'ch map yn hardd, cyn i chi hyd yn oed osod troed yn y gerddi. **1**

Gawson ni ginio bach sydyn, cyn cychwyn cerdded y gerddi, *quiche* cennin a bacwn i mi a thaten drwy'i chroen iddo fo a phaned bob un. Y ddau ohonom wrth ein boddau yn mwynhau cinio blasus, gan edrach allan dros y lawnt, coed afalau a'r coed ywen wedi eu tocio i siapiau geometrig *(Fastigate Yew 'Robusta')*. Roedd un goeden fach afalau yn llawn blodau a'r lleill yn addo sioe i'r dyfodol ac yn y pellter roedd fflach o liw oren i'w weld, gan wneud i mi lowcio fy nghinio reit handi er mwyn cael gweld beth oedd yno! **2, 3 a 4**

Croesi bysedd nad oedd fy ngŵr am gael dŵr poeth, gan i mi ei berswadio i orffen ei ginio'n reit handi. Roeddwn hefyd yn gallu gweld lliwiau pinc/coch o gwmpas y pwll dŵr sydd yng ngwaelod yr ardd, wrth i chi gerdded i lawr. Yn y lle cyntaf roeddwn yn grediniol mai '*London Pride*' oedd yn gyfrifol am y lliw. Roeddwn i'n hollol anghwir… *bergenia* bendeigedig gyda lliw pinc tywyll yr un mor wefreiddiol a'r glas roeddwn yn gobeithio ei weld wrth grwydro'r gerddi. **5**

Yn y goedlan roedd bwtsias y gog i'w gweld ym mhobman. Wrth edrych i lawr arnyn nhw a blodau glas yr nad af i'n angof, roedd glas yr awyr yn adlewyrchu'r lliwiau'n berffaith. **7, 8 a 9**

Ac yng nghanol y môr o liw glas roedd ambell beth arall i'w gael

# Hawl cynllunio i 4 safle 'Arosfan' yng Ngwynedd

Sicrhawyd caniatâd cynllunio ar gyfer treialu pedwar safle 'Arosfan' yng Ngwynedd a fydd yn croesawu cartrefi modur dros-nos. Mae'r syniad yn deillio o'r awydd i sicrhau gwell rheolaeth o gartrefi modur, ac yn dilyn gwaith ymchwil manwl. Bwriedir cynnig lleoliad dros-nos i gartrefi modur tebyg i'r 'aires' a geir ar y cyfandir.

Wedi sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd ym maes parcio Doc Fictoria (cyn safle Shell) yng Nghaernarfon, Y Glyn yn Llanberis, maes parcio'r Maes yng Nghricieth a Chei'r Gogledd ym Mhwllheli, mae'r gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r lleoliadau. Mae'r ymdrech i adnabod safle addas ar gyfer lleoliad Arosfan yn ardal Meirionnydd yn parhau.

Yn ôl y Cynghorydd Nia Jeffreys, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Ddatblygu'r Economi: 'Mae hyn yn gam pwysig ac yn arwydd clir ein bod ni fel Cyngor am ddatblygu sector twristiaeth gynaliadwy sy'n parchu cymunedau Gwynedd. Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelsom lawer mwy o gartrefi modur yn ymweld â'n hardaloedd. Mae'n naturiol fod ymwelwyr am fwynhau'r hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig. Mae lleoliadau'r 'Arosfannau' wedi eu lleoli o fewn pellter cerdded i drefi a chyrchfannau allweddol yng Ngwynedd ac yn cynnig uchafswm o 48 awr o arhosiad. Y bwriad ydi annog defnydd o gysylltiadau trafnidiaeth ac isadeiledd lleol yn ogystal â sicrhau nad yw busnesau lleol yn colli allan wrth i bobl ddod i fwynhau'r profiad twristiaeth unigryw sydd gan Wynedd i'w gynnig.'

Bydd ym mhob safle Arosfan le i hyd at naw o gartrefi modur a fydd yn talu ffi i barcio am uchafswm o 48-awr. Bydd ynddynt ddarpariaeth ar gyfer dŵr ffres, dŵr gwastraff cemegol, ailgylchu a sbwriel cyffredinol.

Dros y misoedd nesaf gwneir ymdrech – yn cynnwys ymgyrchoedd ar-lein – i atgoffa ymwelwyr i wersylla'n gyfreithlon ac i gefnogi busnesau trwy ddefnyddio meysydd gwersylla lleol. Caiff negeseuon amlwg eu gosod hefyd o fewn y safleoedd Arosfan i sicrhau fod rheoliadau safle'n cael eu dilyn. Ni chaniateir ynddynt bethau fel tannau gwersyll a barbeciws sy'n gysylltiedig â meysydd gwersylla traddodiadol.

I gyd-fynd â'r safleoedd Arosfan, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cyflwyno gorchmynion penodol a fydd yn atal hawl i gartrefi modur barcio dros nos mewn cilfannau mewn ardaloedd sydd wedi dioddef yn sgil parcio a gwersylla anghyfrifol dros y blynyddoedd diwethaf. Bwriad y Cyngor wrth gyflwyno'r gorchmynion hyn ar yr A496 ar y ffordd i mewn i'r Bermo, ar yr A497 ger Cricieth ac ardal Y Foryd ger Caernarfon yw cryfhau grymoedd y Cyngor i reoleiddio'r maes er mwyn ymateb i'r


11


12


13


14


15


16


17


18


19


20


21


22

yng nghanol y gwyrddni – fel y blodau bach pinc yma o'r *oxalis* a'r rhedyn yn raddol agor. **10**

Melyn lili'r brithyll yn rhan naturiol o lawr y goedwig ac yn amlwg yn mwynhau'r amodau perffaith iddi dyfu'n hardd. **11**

Dwi wrth fy mod defo lliwiau llachar y *pieris* hefyd, er mai 'bractau' sy'n rhoi'r lliw y tro hwn ac nid y dail na'r blodau. **12**

Roedd y rhododendron a'r azaeleas hefyd yn ychwanegu at y *palette* llachar o liwiau oedd i'w gweld. **13 – 15**

Heb anghofio symylrwydd hardd y *magnolia stellate rosea*, er mod i'n dal i ddisgwyl i'r un sydd acw i flodeuo! **16**

Mae'n fantais cael waliau uchel os ydach am gysgod i'ch gardd ac yn wych os ydach chi am dyfu afalau drostynt. Mae'r dull *espalier* yn hen ffordd o dyfu afalau ac roeddwn wedi dotio at y rhain. **17 – 19**

Roedd arogl hyfryd ar y blodau hyd y canghennau ac enwau diddorol arnynt, fel '*apple pitmaston pineapple*' ac '*apple croen mochyn*' a'r gwenyn wrth eu bodd yn peillio'r blodau hyfryd. Mae'n bechod wir na fedrai gynnwys yr arogl i chi wrth i chi ddarllen yr Eco…

Ond dyma rannu ambell i lun o'r hyn ddenodd ni i ddod yma i grwydro gerddi Cadnant – y bwtsias... **20 – 22**

A pha well ffordd i gau pen ar y mwdwl na gyda geiriau bardd yr haf, R Williams Parry:

*"Dyfod pan ddêl y gwcw,*
*Myned pan êl y maent,*
*Y gwyllt atgofus bersawr,*
*Yr hen lesmeiriol baent.*
*Cyrraedd, ac yna ffarwelio.*
*Ffarwelio! Och na pharhaent!"*

Dyma ardd arbennig, gan obeithio eich bod chithau wedi cael blas ar y crwydro o'i chwmpas efo fi. Mi ydw i'n edrach ymlaen at gael ymweld rywbryd eto, a bydd rhywbeth gwahanol i'w weld bryd hynny hefyd mae'n siwr.

heriau sy'n codi mewn rhai lleoliadau yn y sir gyda'r cerbydau yma'n parcio dros nos heb hawl.

Meddai'r Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd: 'Rydw i'n croesawu'r ffaith fod y cynlluniau i dreialu'r safleoedd Arosfan yn bwrw ymlaen – mae'n cynnig cyfle i ni wella rheolaeth o gartrefi modur yma yng Ngwynedd. Trwy dreialu'r safleoedd Arosfan cychwynnol hyn, bydd modd i ni fonitro'r cynllun a gweld a oes lle i wella ac addasu os ydym am weld rhagor o fannau tebyg yn cael eu sefydlu. Yn ogystal a'r safleoedd Arosfan, mae'n dda gweld fod gorchmynion penodol newydd yn cael eu cyflwyno fel rhan o ymdrech ehangach i fynd i'r afael â gwersylla anghyfreithlon dros nos mewn mannau problemus penodol.'

Disgwylir y bydd y safleoedd ar agor yn barod ar gyfer haf eleni. Mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau cyllid drwy raglen Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru i dreialu'r lleoliadau Arosfan.

## ATEBION MIS MAI – ADAR YR ARDD

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll | I | N | O | S | W | E | R | Dd | T | O | L | I | N | T |
| I | M | E | Ll | W | Y | D | Y | B | E | R | Th | A | S | U |
| N | C | W | A | N | Th | Ll | Dd | F | P | L | Ll | E | Ph | R |
| O | T | D | M | O | I | T | C | I | D | R | Y | W | E | T |
| S | I | U | W | B | A | N | S | R | E | O | Dd | N | U | U |
| B | T | R | Y | Ch | R | B | A | B | T | R | E | A | T | R |
| E | W | D | A | R | F | E | Y | Y | Ll | A | N | P | S | D |
| N | T | U | L | C | N | Ch | N | A | L | C | S | I | I | O |
| G | O | D | Ch | E | O | Y | R | E | Y | D | T | L | G | R |
| O | M | S | E | C | R | M | N | R | J | Rh | O | A | L | Ch |
| Ch | O | G | N | E | B | S | O | N | I | Ll | D | G | D | O |
| E | S | F | D | C | T | L | C | A | B | E | Y | W | I | G |
| L | B | A | G | O | E | J | I | M | I | D | C | Y | G | S |
| Y | J | N | C | D | B | I | N | E | N | W | A | R | W | E |
| R | O | B | I | N | G | O | Ch | W | C | R | J | Dd | T | IY |

**ADERYN Y TO**
**BRONFRAITH**
**COCH Y BERLLAN**
**DELOR Y CNAU**
**DRUDWEN**
**DRYW**
**JAC Y DO**
**JI-BINC**
**LLINOS BENGOCH**
**LLINOS WERDD**
**LLWYD Y BERTH**
**MWYALCHEN**
**NICO**
**PILA GWYRDD**
**ROBIN GOCH**
**SIGLDI GWT**
**TITW TOMOS**
**TURTUR DORCHOG**



Gobeithio ddaethoch chi o hyd i'r holl adar. Tybed faint sy'n ymweld â'ch gardd chi?

# Ysgol Brynrefail

**Cystadleuaeth Mathemateg**
Llongyfarchiadau mawr i Caio Jones 8O oedd ymysg y rhai a ddaeth i'r brig mewn cystadleuaeth mathemateg i flwyddyn 8. Mae'r gystadleuaeth flynyddol yn cael ei threfnu gan y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol gyda'r seremoni wobrwyo yn cael ei chynnal yn Eisteddfod yr Urdd. Camp ardderchog gan Caio, gyda mwy na 1,000 o ddisgyblion dros Gymru wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth eleni. Gwych iawn!






**Gweledigaeth Cwricwlwm i Gymru Ysgol Brynrefail**
Yn ddiweddar cyfarfu carfan o randdeiliaid yr ysgol – yn lywodraethwyr, rhieni, athrawon a disgyblion – er mwyn llunio ein gweledigaeth fel rhan o waith cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru. Yn llywio'r gwaith roedd y Prifardd Meirion MacIntyre Huws.




**Gwobr Dug Caeredin**
Ar ddechrau mis Ebrill aeth criw o ddisgyblion o'r ysgol ar alldaith efydd am ddau ddiwrnod fel rhan o'u hymdrech i weithio tuag at ennill Gwobr Dug Caeredin. Cynnwys y daith oedd cerdded o Abergwyngregyn i Dregarth ar hyd Llwybr y Gogledd. Diolch i Ffion Williams o'r Gwasanaeth Ieuenctid am baratoi'r disgyblion ac iddi hi a rhai o staff Urdd Awyr Agored am baratoi ac arolygu'r daith.







**Gardd Ysgol Brynrefail yn mynd o nerth i nerth!**
Yn ddiweddar mae'r disgyblion wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu gardd yr ysgol. Buont yn plannu gwahanol goed ffrwythau ac fel y gwelwch o'r lluniau yn creu pwll yn yr ardd.



## BRYNREFAIL

**Cydymdeimlad**
Daeth tristwch i'r pentref pan ddaeth y newyddion am ymadawiad brawd a chwaer o deulu Pant y Buarth o fewn deuddydd i'w gilydd. Bu farw Tommy Evans ddydd Sul, 30ain Ebrill ac yna Kathleen Richards fore Mawrth, 2il Mai. Bu Tommy gydol ei oes yn ein plith yn y fro, ac yn amaethu am flynyddoedd yn fferm Y Gors, Llanddeiniolen tra gadawodd Kathleen yr ardal i ddilyn galwedigaeth yn Wolverhampton. Bu hefyd yn ofalwraig ymroddgar yn y Capel Cymraeg Presbyteraidd yn y ddinas am flynyddoedd lawer.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â theuluoedd agos y ddau ac â'u brodyr a'u chwiorydd yn yr ardal, yn y ddwy brofedigaeth a ddaeth i'w rhan.

**Sefydliad y Merched**
Yng nghyfarfod Ebrill, croesawyd pawb yn gynnes gan ein llywydd Pat Jones a darllenwyd llythyr y mis ganddi.

Roedd gweithgaredd y noson hefyd o dan ei harweiniad. Mwynhaodd pawb ei chyflwyniad i'r grefft o wneud llusernau mewn potiau gwydr. Dangosodd sut i ddatblygu gwahanol lusernau gyda sylfaen o dywod, canhwyllau batri ac amrywiol sticeri i'w haddurno.

Bu i bawb o'r aelodau weithio yn ddiwyd i greu eu llusernau eu hunain. Ar y terfyn roedd cryn falchder wrth osod allan y llusernau prydferth a grewyd ar gyfer y tŷ neu'r ardd. Diolchwyd i Pat am noson ddiddorol.

# Taith America, Chwefror 2023

Dyma atgofion Eli Williams o Flwyddyn 12 o daith i Unol Daleithiau America:

Roedd y daith wedi cyrraedd o'r diwedd – wedi oriau lawer o deithio, cawsom ein syfrdanu'n syth gan olygfeydd nodedig Washington. Cyfarchwyd ni gan oleuadau nos y ddinas, cyn bod yn dystion i wychder yr adeiladwaith hynafol a chlasurol – golygfeydd a'n trawodd yn syth i fod o ansawdd anghymharol.

Dechreuon ein hantur yn rhyfeddod canolfan ddeddfwriaethol yr UDA, neu yn fwy penodol, adeilad y Capitol. Am brofiad oedd o! Fe'i coronir gan gromen wen odidog sy'n edrych dros y ddinas yn symbol o ehangrwydd llywodraeth a thrigolion America, gyda'i grandrwydd yn gwbl fythgofiadwy. Agoriad llygad hefyd oedd ymweld a'r un safle lle cynhaliwyd y terfysg dirdynnol ar y 6ed o Ionawr 2021 – digwyddiad a ddennodd sylw miliynau ledled y byd!

Heb os fe ymwelom ag amrywiaeth arbennig o amgueddfeydd yn ystod ein hamser yn America. Er enghraifft, buom yn ymweld ag Amgueddfa Genedlaethol Hanes America – yma, fe'n haddysgwyd am ddatblygiad gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, technolegol, gwleidyddol a militraidd yr Unol Daleithiau. Cawsom hefyd fewnwelediad ar wrthrychau diddorol a ddogfennau oedd yn archwilio esblygiad hunaniaeth Americanaidd ynglŷn â'r 'Star-Spangled Banner' wreiddiol. Ymwelom ag Amgueddfa Genedlaethol yr Holocost hefyd– agoriad llygad i amgylchiadau enbyd a thorcalonnus yr Iddewon, a dargedwyd o ganlyniad i'r gyfundrefn Natsiaidd yn y 1940au.

Yn ogystal â hyn, cawsom y fraint o gael taith dywys ar droed o amgylch Washington gan ein tywyswyr Mike Epstein a Walter Guzman, lle aethom heibio cerfluniau gwerthfawr, gan gynnwys cofebau eiconig megis Thomas Jefferson, Franklin Delano Roosevelt, Martin Luther King Jr a chofeb Lincoln. Dyma gofeb fythgofiadwy! Cawsom ein llethu gan yr adeilad urddasol a nodweddir gan bileri gwyn ysblennydd. Edrycha'r cerflun allan ar y pwll hirsgwar argraffiadwy a theimlai fel cerdded drwy ddelwedd ddychmygol a dweud y lleiaf! Aethom heibio'r Tŷ Gwyn hefyd – moment afreal arall ac roedd dawn ddeheuig y tywysyddion yn ychwanegiad gwerth-chweil i'r profiad.

Diwrnod yn ddiweddarach ymwelom â Mynwent Genedlaethol Arlington yn Virgnia: mynwent filitraidd enfawr, gwasgaredig a cherrig beddi gwynion yn ymestyn dros aceri diddiwedd. Dyma gartref i feddi miloedd o gyn-filwyr, gan gynnwys y rhai a ymladdodd yn y Rhyfel Cartref. Ar ôl ei lofruddiaeth yn 1963 rhoddwyd yr Arlywydd John. F Kennedy i orffwys yn Arlington – braint oedd cael ymweld â safle bedd y 35ed Arlywydd a ddynodir gan y fflam dragwyddol.

Ymlaen a ni i Bennsylvania – neu yn fwy penodol, i gymdeithas Delta. Ymwelom â Chapel Cymraeg Rehoboth a chyfarchwyd ni gan gynhesrwydd a charedigrwydd y gymuned Gymreig sydd wedi bodoli ers i weithwyr llechi ymfudo yno yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Am groeso a gawsom! Cerddom i diwniau trawiadol y côr a ganai ganeuon Cymraeg ar lwyfan y capel, cyn ymuno a hwy i ganu 'Yma o Hyd'. Profiad a hanner oedd hynny! Cawsom gipolwg ar y gymdeithas Gymraeg yno a chael ymweld â cherrig beddi y trigolion a ddeuai o ardaloedd cyfagos i ni megis Deiniolen, Llanberis, Llanrug a Chaernarfon; un o'r profiadau rhyfedda a gefais erioed! Teimlai y gymuned yno fel cartref oddi cartref, er ein bod, mewn gwirionedd, dros dair mil o filltiroedd i ffwrdd o Gymru fach. Paratowyd pitsas diguro ar ein cyfer a braint oedd cael sgwrsio a'r bobl yno yn Gymraeg. Rydym yn gwerthfawrogi'n enfawr y croeso gawsom gan Gymry Delta a wnaeth hi'n brofiad holl emosiynol a syfrdanol i ni yno!

Ar ddiwedd diwrnod cyffrous cawsom ymweld â grisiau a cherflun adnabyddus 'Rocky' a edrycha allan ar y golygfeydd mwyaf anghredadwy erioed. Cawsom y cyfle hefyd i ymweld â 'Cherry Hill Mall' lle roedd dewis diddiwedd o fwyd dymunol ac amrywiaeth eang o siopa. Y diwrnod canlynol cawson ymweld â marchnad Americanaidd lle cawsom gyfle i drio'r 'Philly Steak Sandwich' mwyaf blasus. Profiad hefyd oedd gweld pawb yn eu hesgidiau ffasiynol yn ystod cyfres o emau bowlio – roedd wir yn teimlo fel petaem yn cystadlu am le yn y Gemau Olympaidd! Rhaid sôn hefyd am sgiliau bowlio ein gyrrwr bws, Moscato – eicon y trip, heb os. Teimlai fel aelod mawr o'r grŵp, gyda'i gymeriad siriol a gwresog yn un na wnawn fyth anghofio.

Yn ein hamser yn Pennsylvania cawsom hefyd ymweld â Chanolfan Genedlaethol y Cyfansoddiad Cenedlaethol a gweld y Gloch Rhyddid. I ychwanegu at hynny profiad cyffrous oedd ymweld â'r Eastern State Penitentiary a fu'n weithredol rhwng 1829 a 1971 lle roedd naws arswydus a hollol fwganllyd. Cyffrous hefyd oedd cael gweld cell Al Capone – gangster mwyaf America yn yr 1920au!

Ymlaen a ni i ragoriaeth Efrog Newydd – y gyrchfan gyfareddol. Wrth i ni ddynesu, cawsom adloniant amhrisiadwy – tiwniau swynol yr athrawon o dan ddylanwad cyfansoddiadau Frank Sinatra. Gwell na'r gwreiddiol am wn i! Profiad anghygoel oedd ymweld â thyrrau argraffiadol y ddinas a chael y cyfle i gamu mewn i brysurdeb anamgyffredadwy y strydoedd – dipyn o sioc o gymharu â thirweddau gwledig Cymreig yr ydym wedi arfer â nhw!

Yn Efrog Newydd fe wnaethom deithio i ddal cwch yn Battery Park i weld Ynys Ellis gan fynd heibio y *'Statue of Liberty'* ysblennydd, cerflun yr oeddwn ond wedi'i gweld o'r blaen mewn ffilmiau. Cawsom ein gwobrwyo gyda thywydd heulog a chlir gan wneud y golygfeydd hyd yn oed yn fwy godidog.

Anrhydedd arall oedd cael ymweld â chofeb ac amgueddfa trasiedi 9/11 – agoriad llygad, yn enwedig y ffordd roedd yn adlewyrchu'r golled enbyd. Roedd yn brofiad bythgofiadwy ac ni allwch guddio'r tristwch a'r galar am y bywydau a gollwyd.

Yn dilyn yr ymweliadau i'r amgueddfeydd, cyfarfyddom ein tywyswyr ar gyfer y daith dywys o amgylch Manhattan. Cawsom olwg uniongyrchol ar ddiwylliannau gwahanol megis 'Little Italy' a 'China Town', ynghyd â Washington Square Park lle roedd adloniant unigryw!

Rhai o'n uchafbwyntiau personol yn Efrog Newydd oedd pan gawsom y cyfle i ymweld â goleuadau trawiadol Times Square – profiad afreal, gweld sioe 'Aladdin' yn y 'New Amsterdam Theatre' a chael ymuno yn y siantiau Americanidd wrth wylio gem hoci ia y New York Rangers yn erbyn y Winnipeg Jets yn Madison Square Garden. Roedd yr awyrgylch yn anghygoel ac roedd ymagwedd cystadleuol yr Americanwyr yn holl adloniadol! Roedd hyd yn oed amser i fynd i siopa yn y man adnabyddus o Fifth Avenue, gyda'r temtasiwn o fynd dros ben llestri yn un mawr – diolch am derfyn bagiau!

Dyma drip wna i fyth anghofio. Cawsom fewnwelediad ar amrywiaeth o systemau arlywyddol, etholiadol a gwleidyddol oedd yn estron i ni yn wreiddiol, ynghyd â chael profiadau na chawn fyth eto. Mae'n anodd credu ein bod wedi cael y fath gyfle, gyda gwerthfawrogiad enfawr i'r athrawon a wnaeth y trip yn bosibl yn y lle cynaf, yn arbennig felly Mr Iwan Barker-Jones am arwain y daith! Gallwch weld mwy o luniau a fideos ar wefan Facebook Ysgol Brynrefail.







# Ysgol Dolbadarn



Llongyfarchiadau i'r disgyblion am ddod yn gyntaf gyda gwaith 3D yn Rhanbarth Eryri. Ymlaen i'r genedlaethol!



Daeth Gwenllian o Gyngor Gwynedd i siarad efo'r disgyblion 3-7 oed am ailgylchu.

## Ennill gwobr am greu logo Yr Wyddfa Ddi-blastig

Yn mis Mawrth eleni, cynhaliwyd gweithdy gyda blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol Dolbadarn yn Llanberis er mwyn cyflwyno pobl ifanc sy'n byw o fewn 'Parth di-blastig Yr Wyddfa' i waith Parc Cenedlaethol Eryri a'r prosiect di-blastig yn benodol.

Fel rhan o'r gweithdy cyflwynodd Alec Young, Swyddog Yr Wyddfa Di-blastig, gystadleuaeth i'r disgyblion gael cyfle i greu logo ar gyfer y prosiect.



Logo buddugol Nanw Kaly Jones, Bl.6

Cafwyd nifer o syniadau dychmygus a theilwng ar gyfer y dyluniad. Mae'r logo buddugol wedi'i ddewis ac mae bellach wedi cael ei addasu gan adran dylunio graffeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn cael ei ddefnyddio ar dystysgrifau, sticeri a nwyddau eraill prosiect 'Yr Wyddfa ddi-blastig'. Llongyfarchiadau mawr i Nanw Kaly Jones o Flwyddyn 6, Ysgol Dolbardarn!

Mae'r prosiect 'Yr Wyddfa ddi-blastig' yn gam pwysig ac uchelgeisiol i warchod dyfodol cynaliadwy'r mynydd. Yr Wyddfa yw mynydd mwyaf poblogaidd Cymru ac mae sbwriel a gwastraff yn dod yn fygythiad gwirioneddol i'w ddyfodol cynaliadwy. Drwy leihau gwastraff plastig ar Yr Wyddfa rydym hefyd yn taflu goleuni ar y mater ehangach o sbwriel yn y Parc Cenedlaethol. Wrth ddynodi'r Wyddfa fel 'Parth Di-blastig', gallwn godi ymwybyddiaeth o'r difrod y mae mathau eraill o wastraff yn ei gael ar y mynydd hefyd.

Diolch i ddisgyblion Ysgol Dolbadarn am eu brwfrydedd yn ystod y gweithdy – gyda'n gilydd gallwn wneud gwahanieth.




Logo wedi ei addasu gan adran graffeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri



Dyma'r disgyblion Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 yn cymryd rhan yn y "Code Show".

ECO'r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 4ydd o Fehefin, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths am 2:00pm. Bydd cyfarfod i'r Tîm Arweiniol i ddilyn y gwasanaeth hwn. Ar y 18fed o Fehefin, bydd gwasanaeth dan arweiniad Mr Arwel Williams.

Ar y 15fed o Ebrill, cynhaliwyd gwasanaeth ffurfiol i sefydlu'r Parchedig Nerys Griffiths fel Gweinidog i Ofalaeth Seiont ac Ogwen, sy'n cynnwys Capel Caeathro, yng nghapel urddasol Jerusalem ym Methesda. Ar ddechrau mis Mai, cafodd y Gweinidog ei chyflwyno i gymuned Caeathro, Rhos Bach a'r cyffiniau.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i deulu Joan Appleton (Rhes Brynteg) yn dilyn ei marwolaeth yn ddiweddar. Mae Joan bellach yn gorffwys gyda'i gŵr ym mynwent y gymuned. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd i Vernon a'r teulu yn dilyn marwolaeth Kit Jones, Llainmeddygon gynt, yn ddiweddar. Roedd Kit yn ferch i deulu Tafarn y Newborough, Bontnewydd a chafodd ei magu ar gyrion y pentref. Priododd Vernon a bu'r ddau'n byw yng Nghaeathro nes iddynt symud i Gaernarfon yn ddiweddar. Roedd Kit yn Ustus Heddwch ac yn weithiwr brwd dros elusennau. Am flynyddoedd, bu'n cynnal nosweithiau barbeciw gyda chymorth aelodau Côr Caernarfon a Phwyllgor y Cae Chwarae i godi arian i amryw o elusennau. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor.

**Clwb Garddio Caeathro**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai wrth ymweld â gardd dau o'n haelodau, sef Wendy a Brian Morgan, Tros Terfyn, Saron.

Mae'n anodd credu mai cae oedd yma 12 mlynedd yn ôl. Mae'r ardd yn estyn dros 1 erw, gyda gwelyau yng nghanol y glaswellt yn llawn o lwyni a phlanhigion lliwgar. Yng nghanol rhai o'r gwelyau mae strwythurau diddorol wedi eu creu wrth ailgylchu briciau ac offer tŷ megis tegellau metal.

O amgylch y llwybrau, mae'r glaswellt wedi ei adael yn hir i greu noddfa i flodau a bywyd gwyllt.

Wrth gerdded o amgylch, fe gewch hyd i ardaloedd i ymlacio. Mae'r sedd wrth y pwll yn galluogi rhywun i eistedd a mwynhau planhigion amrywiol y corsydd.

Mae'n ardd sy'n diwallu anghenion y teulu oll. Mae'r guddfan helyg yn rhoi pleser mawr i'r wyrion a'r wyresau ar eu hymweliadau, a'r llwybrau gwair yn ddigon llydan iddynt fynd ar eu ceir bach.

Ar ddiwedd yr ymweliad cawsom eistedd allan i fwynhau paned a gwrando ar yr adar a chael ein diddanu gan Daisy y ci. Diolch i Wendy a Brian am y croeso.

Dydd Sadwrn 24ain Mehefin byddwn yn ymweld â Gerddi Plas Gwaenynog, Dinbych. Mae'r tŷ yn eiddo i deulu Beatrix Potter. Ymwelodd yr awdur â'r eiddo sawl gwaith, a defnyddiodd erddi'r gegin fel lleoliad i un o'i llyfrau.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno hefo ni, cysylltwch â Liz Watkin – 01248 671243/07799026791 ebost: watkin495@btinternet.com.

**Croeso**
Croeso mawr i breswylwyr newydd Bryn Eglwys. Dymuniadau gorau iddynt wrth ymgartrefu yn y pentref.

## Cornel Ddarllen


Diolch i Eirian James, siop Palas Print, am ei sylwadau am lyfrau poblogaidd mis Ebrill.

Mis cryf iawn ar gyfer ffuglen i bobl ifanc ac oedolion, gyda *Sêr y Nos yn Gwenu* a *Mwy o Helynt*, dwy nofel i oedolion ifanc yn cyrraedd y 10 uchaf, a *Salem*, *Croesi Llinell* a *Mochyn Tynged* yn nofelau Cymraeg gwahanol i'w gilydd, ond pob un gan ferched yn y gogledd orllewin.

Cafwyd mwy o ddigwyddiadau yn ystod y mis, sgyrsiau difyr iawn gydag awduron Cymraeg a Saesneg i oedolion a pobl ifanc, ac fe welwch bod y llyfrau hynny yn y 10 uchaf. Fy hoff lyfr ar hyn o bryd yw *All The Wide Border*, a braf oedd cael noson yng nghwmni'r awdur Mike Parker yn Lle Arall yn ddiweddar i ddathlu cyhoeddi'r gyfrol hon.

1. *All the Wide Border*, Mike Parker
2. *Sêr y Nos yn Gwenu*, Casia Wiliam
3. *Salem*, Haf Llewelyn
4. *Mwy o Helynt*, Rebecca Roberts
5. *Anwyl Fam*, Ifor ap Glyn
6. *Croesi Llinell*, Mared Lewis
7. *Llythyr Noel*, Noel Thomas
8 *Birdsplaining*, Jasmine Donahaye
9. *Mochyn Tynged,* Glenda Carr
10. *Windstill*, Eluned Gramich










# Tyddyn Teg
### Bwyd – Tir – Pobl

**LLYSIAU LLEOL FFRES**

**Ymunwch â'n cynllun llysiau!**


**Dewch i'n siop!**

- **Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.**
- **Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.**

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

**Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned Age Cymru Gwynedd a Môn**





Prydau bwyd wedi'u darparu o **Caffi'r Cartref Age Cymru Gwynedd a Môn,** Bontnewydd a'u cludo i'ch cartref

(Ar gael Dydd Llun i Ddydd Gwener)

**Cost prif gwrs yn £6 neu gost prif gwrs a phwdin yn £8.50 (yn cynnwys cost cludiant)**

Ffoniwch 01286 685 926 neu ebost mow@acgm.co.uk am wybodaeth neu i archebu.

***Rydym hefyd yn chwilio am yrrwyr i wirfoddoli gyda cludo'r prydau (ad-delir 40c y filltir)***



Gwynedd a Môn age Cymru

# Ar ben arall i'r lein

Gyda dechrau boddhaol i'r tymor ar y llynnoedd, go araf yw pethau wedi bod ar yr afonydd heblaw rhyw ychydig o lwyddiant gyda'r brithyll cynhenid ar Afon Rhythallt yng nghyffiniau Llyn Bodgelyn a'r Seston Fawr. Siomedig nad oes sî am 'run eog na gwyniedyn yn dangos eu hunain yn y Fenai, ac felly oedd hi hyd Sadwrn, 6ed Mai, sef diwrnod y coroni.

Ond fore Llun Gŵyl y Banc, sef yr 8ed o Fai, fe es draw am y ddeorfa, ble roedd tipyn o gynnwrf o gwmpas y lle gan fod newyddion wedi dod drwy *Whatsapp* y Gymdeithas (be arall yn yr oes yma yn 'de, ond mae'n dda ei gael pan fo newyddion fel hyn i'w ledaenu). Y wybodaeth syfrdanol oedd fod gwyniedyn cyntaf y tymor, oedd oddeutu pedwar pwys, wedi dod o'r Seiont yn hwyr y noson cynt i enwair Adam Burton, Caernarfon. Aelod yn ei arddegau yw Adam: mae eisoes yn disgleirio yn byd sgota gan iddo eisoes y llynedd gael yr anrhydedd o fod yn gapten tîm pysgota pluen ieuenctid Cymru – pluen fawr yn dy gap.

Does dim posib ar adegau cael unrhyw ben rheswm ar sut mae pethau yn datblygu: cofiwch, efallai fod rhai o'r pysgod mudol yma eisau dangos teyrnged i'r brenin newydd.



**'Gwyniedyn cyntaf tymor 2023 – 4 pwys i Adam Burton, llun yn oriau'r nos cyn cael ei ryddhau'**

Mi fu tipyn o alw am y cychod yn ystod penwythnos y coroni 'ma – mae'n debyg fod nifer yn osgoi'r holl deledu. Fodd bynnag, mae'r sgota wedi bod yn eithriadol o dda, a be' sy' wedi fy mhlesio'n fwy na dim ydi'r adroddiadau sy'n dod o Lyn Padarn fod tipyn o'r aelodau'n cael hwyl arni ar y cychod ac hefyd o amgylch y glannau. Tydw i heb glywed ers cryn amser am nifer o frithyll mewn cyflwr ardderchog yn dod i'r bluen o lannau'r Ddôl – criw Llanberis wedi ail afael yn eu hen draddodiadau. Beth am dipyn o luniau'r tro nesaf? Rhaid peidio ag anghofio wrth gwrs fod tipyn o'r hen chwyn lledaenol yma o gwmpas y glannau, o hen le Dafydd Taff i fyny at Geg Afon y Bala. Efallai fod gan hyn rywbeth i'w wneud â'r pysgota da?

A thra rydw i'n siarad am Lanberis, mae'n siwr fod rhai'n cofio i mi gyfeiro at Sant Padarn a'i anturiaethau gyda'r eog a'r torgoch pan yn bwrw grawn a thrwy hynny'n dychryn ei geffyl wrth iddo groesi Afon Cenriach. Wel, ble mae'r afon yma ydi'r cwestiwn. Meddyliais mai Afon y Bala oedd hi, ond anghywir eto. Mae fy niolch yn fawr am y wybodaeth gywir ddaeth drwy law Eifion Roberts, a anfonodd ataf gopi o neges John Roberts oddi ar dudalen 'facebook' Llanberis Ddoe a Heddiw. Dyma'r neges:

**Tair afon!**

Y Gerniach yw yr afon sy'n cynnwys Ceunant Mawr a Phont Fain. Mae'r Gerniach yn cychwyn ym Mhwll Yr Escob, un pwll uwchben Pwll Morwyn. Yr oedd y Gerniach yn dylifo i Llyn Peris ble roedd gro mân. Yn y 1950au, gwelais gannoedd o dorgochiaid, tua modfedd a hanner o hyd gyda'u bol yn goch, yng ngheg yr afon mewn pyllau gro mân pan nad oedd lli yn yr afon. Yr oedd pen isa Llyn Peris, o dan y Castell, yn ro mân ar hyd a lled y Llyn. Yr oedd y Gerniach yn mynd i Lyn Peris o dan Gastell Dolbadarn, tua hanner can llath i'r chwith o'r clogwyn sy'n agos i ble mae hi heddiw.

Pont Fain – mae y Bont Fain yn un llechfaen hir ac yn un o ddwy bont yn Nyffryn Peris gyda llechfaen hir. Mae y bont arall yn Nant Peris ac fe'i gelwir yn Pont Y Meibion. Mae'r bont yma o'r un llechfaen â Phont Fain. Lleoliad Pont Y Meibion yw mil o drodfeddi i fyny Afon Nant Peris, o ble mae'r afon yn mynd i dwnel i osgoi Llyn Peris. Mae rhan arall o'r llechfaen yn Gilfach Ddu, yn y rhan isa o allt newydd Gilfach Ddu.

Yn ôl i'r afonydd. Mae Afon Hwch yn dod o Lyn Cwm Deuthwch. Cwm Hafod yw enw arall am Gwm Deuthwch, ac mae'n dylifo i lawr i Pwll Yr Escob. Mae Afon Gwaen Cwm Brwynog yn cychwyn o Llyn Du'r Arddu ac yn llifo i lawr heibio Helfa a heibio T'ynyraelgerth. Yr enw ar y lleoliad yma oedd Rali, oherwydd eu bod yn corlannu holl ddefaid y cymoedd cyfagos, a phawb yn dod at ei gilydd (rali) i ddidoli'r defaid i'r gwahanol dyddynod.

Mae Afon Gwaen Cwm Brwynog yn troi i lawr y cwm heibio i adfail tyddyn Cae Newydd ble mae pont fach. Tua phedwar can llath i lawr yr afon mae pwll ble'r oedd pobol y Cytia Crwn yn gwneud coelcerth o amgylch cerrig ger yr afon ac wedyn eu bwrw i mewn i'r pwll, er mwyn cael ymdrochi a glanhau eu cyrff mewn dŵr cynnes! Mae'r afon yn rhedeg i lawr i Bwll Yr Escob, ble mae'r tair afon yn cyfarfod.

Yn y cymoedd, yr oedd pobol y tyddynod yn magu merlod mynydd er mwyn eu gwerthu i weithio yn y pyllau glo. Yn Nhafarn Y Glyntwrog oedd y ceffylau yn cael eu gwerthu. Ring (cylch) oedd pobol yn galw Glyntwrog oherwydd mai yma, yn y cylch, roedd yr arwerthiant!

Dyna ddiddorol. Mae'n eithriadol o bwysig nad yw gwybodaeth fel hyn yn mynd yn angof. Os nad yw'n ormod o draffeth, mi fuaswn yn eithriadol o ddiolchgar os buasai rhywun mor garedig â rhoi enwau'r pyllau ar fap o'r afonydd.



**'Afon Cerniach yn llifo yn iŝ na Chastell Dolbadarn i Lyn Peris'**

Ganol mis Ebrill, daeth rhyw ddirgelwch mawr ein ffordd, rhai o'r aelodau yn anghyfforddus fod camerâu llwybr a synwyryddion mudiant wedi eu gosod ar lan y Seiont, sef ar dir Gerddi Bach, Pont Rug. Y cwestiwn oedd, pam mewn difri oedd rhywun neu rywrai eisiau cael lluniau o bysgotwyr? Rhyw gorff efallai'n casglu gywbodaeth yn erbyn pysgota? Mi fu tipyn o holi, hyd yn oed ceisio cysylltu â'r heddlu. Er bod adroddiad am y digwyddiad wedi ei gwblhau, a chan fod neb yn ateb y llinell ffôn Gymraeg, dyma ni dair wythnos ers cysylltu ac rwy'n dal i ddisgwyl iddynt ddod yn ôl ataf. Siomedig dros ben, ond yn ôl pob golwg fel yna mae pethau gyda'r heddlu'r dyddiau yma.

Daeth diweddglo i hyn i gyd. Mae'r Gymdeithas yn ffodus fod aelod yn giamstar ar bethau technegol o'r fath, ac fe gafwyd gwybodaeth oddi ar gerdyn Sim y peiriant. Perchnogion yr holl offer yma oedd Asiantaeth Traffig Gogledd a Chanolbarth Cymru. Be' goblyn oedd rhain eisiau ar lan yr afon tybed? Yn dilyn nifer o alwadau ffôn fe ddaeth goleuni ar y mater. Adran Ecoleg Cyngor Gwynedd oedd y tramgwyddwyr, a'r bwriad oedd casglu gwybodaeth am fywyd gwyllt y glannau ar gyfer cynllun creu llwybr beics newydd o Lanrug i Gaernarfon. Ia, ar ran o'r tir hwn y bydd pont newydd (os bydd cyllid yn caniatau) yn cael ei chodi dros yr afon, pont i feics a cherddwyr yn unig. A na, er bod y bont bresennol yn prysur ddatgymalu, does dim cynllun i gael pont ffordd newydd gan fod yr hen bont yn adeiladwaith rhestredig. Faint o amser fydd cyn iddi ddisgyn yn gyfan gwbl i'r afon tybed? Bydd rhaid i bawb gael beic wedyn os am fynd i Gaernarfon. Oes 'na siop beics yn y fro?

Dyna ni am y tro unwaith eto.

**Huw Price Hughes**

# Geiriau dan Glo – Geiriadur Prifysgol Cymru

Erbyn hyn, mae cyfyngiadau'r cyfnod clo yn dechrau mynd yn angof, ond nid yw'n anodd dwyn ei rwystredigaethau yn ôl i'r meddwl. Buom 'dan glo' er lles ein hunain ac eraill, ac yr oedd amser yn medru llusgo oni bai fod gennym gwmni a diddordebau neu orchwylion i'n cadw'n brysur a'n diddanu. I bob pwrpas yr oeddem wedi ein caethiwo, a dyma sut mae'r Geiriadur yn disgrifio **caethiwed** '*cyflwr un a garcharwyd neu a rwymwyd neu a ysbeiliwyd o'i ryddid a'i freintiau, caethglud* ...'. I nifer o bobl yr oedd y cyfnod clo yn garchariad diflas, ac eto i eraill bu'n gyfle i gychwyn ar weithgareddau newydd a hyd yn oed i newid eu bywydau.


Mae'r Geiriadur yn diffinio **carchar** fel '*adeilad cyhoeddus y cedwir ynddo droseddwyr yn gaeth neu'n rhwym*'. Enwau eraill amdano medrwch chwilio amdanynt yn GPC Ar Lein (https://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html) yw **carchardy, caethle, clinc, dalfa, geol, gwart, jael, jêl,** a **phenydfa** *(lle cosbi neu boenydio)* – digon o ddewis felly!

Am fethu talu ei ddyledion y carcharwyd John Jones, Gellilyfdy, ar ddechrau'r 17eg ganrif. Treuliodd sawl cyfnod dan glo yng ngharchar dyledwyr y Fflyd yn Llundain gan gadw ei hun yn brysur yn copïo llawysgrifau mewn llaw ac arddull nodweddiadol, gorchwyl a achubodd i'r dyfodol gynnwys llawer o lawysgrifau a fyddai fel arall wedi mynd ar goll. Hefyd – o ddiddordeb arbennig ac o fudd mawr i'r Geiriadur – fe luniodd restrau o eiriau am sawl agwedd ar fywyd bob dydd ei gyfnod: y tŷ a'i gynnwys; y fferm, gan gynnwys anifeiliaid a chyfarpar o bob math; crefftwyr traddodiadol a'u hoffer; a byd natur. Bu 'cyfnod clo' John Jones druan o fudd i'r iaith a'r genedl, er na fyddai hynny'n llawer o gysur iddo ar y pryd, siŵr!

Os hoffech ddysgu rhagor am restrau geiriau John Jones, mae 'na groeso mawr i chi ddod i gyfarfod blynyddol Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru, yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ar y trydydd o Fehefin am 2 o'r gloch. Yng nghwmni ein Llywydd, yr Athro Mererid Hopwood, bydd Ann Parry Owen a Gruffydd Aled Williams yn cyflwyno golygiad Ann o'r gwaith (*Geirfâu'r Fflyd: 1632–1633: Casgliad John Jones Gellilyfdy o eiriau'r cartref, amaeth, crefftau a byd natur*), a Maredudd ap Huw yn cyflwyno arddangosfa o lawysgrifau cysylltiedig. Mae'r digwyddiad am ddim, ac mae 'na groeso cynnes i bawb.

Os oes gennych unrhyw enwau neu eiriau yn ymwneud â charchar neu gaethiwo, mi fyddai'r Geiriadur yn falch o'u clywed. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan – www.geiriadur.ac.uk, ar e-bost – gpc@geiriadur.ac.uk, neu wrth ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:

*Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH*



# CHWILAIR MIS MEHEFIN – COED

Mae llawer o anogaeth ar hyn o bryd i blannu coed er mwyn diogelu'r blaned hyfryd hon. Oes coed(en) hardd yn eich gardd neu stryd neu'ch pentref chi? Dwi wedi dotio efo'r blodau tlws gwyn ar y coed drain duon a'r rhai pinc ar y coed ceirios ym mis Ebrill a Mai. Hyfryd, ond rhaid cyfaddef mae'r petalau'n gallu bod yn niwsans wrth iddynt ddisgyn fel confetti ym mhobman! Ond cawn edrach ymlaen wedyn at y ffrwythau ac aeron fydd yn harddu'r coed yn eu sgil wrth i'r haf ddirwyn i ben.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | E | D | W | E | N | A | U | B | C | Ff | Ch |
| S | Th | M | T | R | E | G | Dd | N | R | A | Y |
| C | L | C | E | R | Dd | I | N | E | N | W | N |
| E | A | R | Ff | L | Y | G | E | Dd | A | Y | R |
| I | N | O | T | S | W | E | N | Y | I | Dd | S |
| R | E | N | Y | T | N | N | E | W | R | E | D |
| I | N | E | R | E | A | O | R | N | D | N | U |
| O | R | G | F | Ch | T | P | R | I | N | A | R |
| S | E | Y | D | A | S | L | D | P | W | Ng | U |
| R | W | L | A | F | A | Dd | N | E | N | N | O |
| Ll | G | E | I | W | C | E | L | Y | N | T | Rh |
| M | A | H | C | R | I | A | F | O | L | E | N |

**AFAL**
**BEDWEN**
**CASTANWYDDEN**
**CEIRIOS**
**CELYN**
**CERDDINEN**
**CRIAFOLEN**
**DERWEN**
**DRAENEN DDU**
**FFAWYDDEN**
**GWERNEN**
**HELYGEN**
**LLWYFEN**
**ONNEN**
**PINWYDDEN**

**CWESTIWN** – Pa ddau enw yn y chwilair sy'n cael eu defnyddio am yr un math o goeden? Cewch yr atebion i'r chwilair hwn a'r cwestiwn uchod yn rhifyn nesaf yr Eco. Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

**GEIRFA COED** – TREE VOCABULARY

**Afal** – Apple
**Bedwen** – Birch
**Castanwydden** – Chestnut
**Ceirios** – Cherry
**Celyn** – Holly
**Cerddinen** – Rowan
**Criafolen** – Mountain Ash
**Derwen** – Oak
**Draenen ddu** – Blackthorn
**Ffawydden** – Beech
**Gwernen** – Alder
**Helygen** – Willow
**Llwyfen** – Elm
**Onnen** – Ash
**Pinwydden** – Pine




ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

Tafarn Y Glyntwrog Llanrug
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser

671191

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## CRYNODEB O GOFNODION 7FED FAWRTH 2023

**Cofnodion 7fed Chwefror 2023.**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir.

**Materion o'r Cofnodion.**
**Cysgodfan Bws Brynrefail:** Cafwyd amcan bris gan y contractwr i roi panel yn y ffrynt a man edrych yn y cefn. Penderfynwyd symud ymlaen gyda hyn gan obeithio bydd y gysgodfan yn fwy cysgodol i breswylwyr Brynrefail tra'n disgwyl am fws.

**Gohebiaeth a Materion Eraill.**
**Pwyntiau Gwefru i Gerbyd Trydan:** Derbyniwyd llythyr yn gofyn i ni nodi mannau posib i hyn o fewn y plwyf, rhag ofn bydd cyfleoedd i ddenu arian grant yn y dyfodol ar gyfer cyflwyno mwy o bwyntiau gwefru ar lecynnau o fewn yr ardal. Awgrymwyd sawl ardal o fewn y plwyf iddynt ychwanegu at eu rhestr.

**Cynllunio.**
Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:
***C23/0124/18/DT – 1 Rhes Fictoria, Deiniolen***
Cais ar gyfer codi estyniad un llawr ar ochor yr eiddo.
***C22/1005/18/TC – Ysgubor, Dinorwig***
Cais am dystysgrif cyfreithloni datblygiad ar gyfer defnyddio adeilad allanol fel anecs anheddol sy'n gysylltiedig ag eiddo a adnabyddir fel Ysgubor.

**Llwybrau.**
Rydym bellach wedi cael nifer o amcan brisiau i wella'r llwybrau gan Gyngor Gwynedd. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd derbyn hyn, ond bydd angen cadarnhau math o goedyn i'r Bont ar un amcan bris.
Llwybr troed 34, Deiniolen
Llwybr 35, Deiniolen
Llwybr 95, Penisa'r-waun
Llwybr 113
Llwybr 60/61, Tros y Waun, Rhiwlas

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella sawl llwybr arall yn ystod y flwyddyn yma a'r nesaf.

Bydd y Clerc yn anfon cadarnhad o'r penderfyniad i'r Adran Llwybrau, fel y cawn gychwyn yn weddol fuan rŵan yn y gwanwyn.

**Mapiau Enwogion yr Ardal.**
Cyflwynwyd copi o'r map y mae'r Cyngor hwn wedi comisiynu Gareth Roberts i'w lunio ar ein rhan. Cawsom ein synnu o weld faint o enwogion sydd wedi codi o'r ardal fechan hon, ac sy'n dal i wneud hynny wrth gwrs. Fodd bynnag, rydym wedi gorfod torri'r gwaith ymchwil i lawr yn ofnadwy, a thrio cynnwys enwogion o bob ardal ac sy'n enwog am wahanol resymau. Hoffai'r Cyngor ddiolch yn fawr iawn i Gareth am ei waith trwyadl, ac i bawb sydd wedi cydweithio ag ef i wneud hyn yn bosib. Bydd y map ar gael yn fuan iawn; a phenderfynwyd argraffu a fframio un i bob ysgol er mwyn iddo fod ar gael i'r plant at ddefnydd hanes lleol.

**O Gwmpas y Bwrdd.**
**Allt Ddu:** Mae'r ardal yn dechrau prysuro am dymor y Gwanwyn, ac un bore nodwyd fod aelod o'r cyhoedd wedi gweld 4 camperfan yn gwagio cynnwys eu toiled yn y cae cyfagos. Mae'r bin sydd yno wedi malu hefyd, ac angen un ychwanegol. Mae'r un peth i'w weld yn digwydd ym Marchlyn yn dilyn penwythnos, lle nad oes bin o gwbl, ac ysbwriel yn cael ei adael ar ochr y ffordd yno.

**Eisteddfod Genedlaethol:** Mae pwyllgor Cymuned Llanddeiniolen wedi trefnu Raffl neu ymgyrch bellach i godi arian i gyrraedd ein targed. Mae hefyd amlenni ar gael os yw pobl yn dymuno cyfrannu. Mae posib cael mwy o fanylion am bwy i gysylltu â nhw yn eich pentref gan y Clerc.

**Llwybr heibio Rhos Wian:** Mae'r Cynghorydd Sir yn ceisio datrys y broblem ynghylch y llwybr hwn. Mae'r lôn sy'n arwain heibio i'r tai mor ddrwg fel nad ydy lori ysbwriel yn mynd heibio i godi ysbwriel erbyn hyn.

**Gwteri yn Rhiwlas:** Fel y gwyddom, mae'r gwteri'n llenwi ar ddim yno ac yn achosi llifogydd yn ystod dyddiau o law trwm. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod o amgylch gyda chamera, ac wedi sylwi fod rhai pibellau wedi gostwng a malu. Felly, maent yn y broses o weithio i ddatrys y broblem yma yn ystod y misoedd nesaf.

**Llwybr Dallt dros Moelyci:** Mae ceffylau'n difrodi'r llwybr yma. Angen cysylltu â'r Adran Llwybrau i gael golwg.

**Y Camp Rhiwlas:** Pobl ifanc yn ymgynnull yno ar benwythnosau ac yn gadael ysbwriel ayyb. Angen cysylltu â PCSO i roi gwybod er mwyn cadw golwg.

# Un funud fach ...

## ANGHOFIO'R PENTECOST

Mae'r Eglwys Gristnogol yn dathlu'r Pentecost neu'r Sulgwyn bob blwyddyn. Ond fyddech chi fyth wedi deall hynny o ddarllen y golofn hon. Rhag i mi f'ailadrodd fy hun wrth gyfeirio at yr Ŵyl eleni, mi wnes i fwrw golwg dros negeseuon y blynyddoedd diwethaf a sylweddoli nad oes fawr o beryg i mi wneud hynny gan fod deng mlynedd gyfan a thros gant o rifynnau ers i mi sôn amdani ddiwethaf (yn rhifyn Mehefin 2013). Nid o fwriad y bu hynny, cofiwch; ac mi fyddwn yn sicr wedi crybwyll yr Ŵyl cyn hyn pe byddwn wedi sylweddoli i mi fod mor esgeulus.

Un rheswm posibl dros beidio â sôn am y Sulgwyn, neu dros anghofio gwneud hynny, yw'r ffaith nad oes ddyddiad cyson iddi. Ystyr y gair Groeg a gyfieithir Pentecost yw 'pum deg', a dethlir yr Ŵyl arbennig hon bum deg o ddyddiau wedi Sul y Pasg. A chan fod dyddiad y Pasg yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, felly hefyd yn naturiol ddyddiad y Sulgwyn. Nid oes peryg i ni anghofio am ddwy brif ŵyl arall yr Eglwys – y Nadolig a'r Pasg – gan fod Cristnogion yn draddodiadol ac yn gwbl ddealledig wedi rhoi mwy o sylw iddynt. Ond gall y Pentecost fynd yn angof, ac nid yn y golofn hon yn unig chwaith.

Ail bennod Llyfr yr Actau yn y Testament Newydd sy'n sôn am ddyfodiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost. Roedd ei ddyfodiad yn amlwg yn ddigwyddiad cynhyrfus, â'r 'sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro' a'r 'tafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un' o ddisgyblion Iesu Grist. Roedden nhw wedi eu gorchymyn gan Iesu i aros yn Jerwsalem nes y deuai'r Ysbryd Glân arnynt. O gael yr Ysbryd i'w nerthu, dechreuodd Pedr a gweddill y disgyblion gyhoeddi'r newydd da am Iesu Grist gan roi cychwyn i genhadaeth yr Eglwys a ymledodd wedyn dros flynyddoedd a chanrifoedd i bob rhan o'r byd. Yr un yw cenhadaeth yr Eglwys Gristnogol o hyd: cyhoeddi'r Efengyl a chyflwyno Crist yn Arglwydd a Gwaredwr a Brawd i bwy bynnag sy'n credu ynddo.

Dywedir yn aml mai'r Pentecost oedd dydd geni'r Eglwys ac mai dathlu ei phen-blwydd a wneir ar y Sulgwyn. Mi anghofiais sawl pen-blwydd dros y blynyddoedd a chael maddeuant am hynny fwy nag unwaith gan aelodau'r teulu. Mae gen i bob hyder y caf hefyd faddeuant Duw am anghofio pen-blwydd yr Eglwys trwy beidio â sôn am y Pentecost mewn erthygl neu oedfa. Pwysicach na dathlu'r Ŵyl yw cofio o ddydd i ddydd mai trwy gymorth yr Ysbryd Glân ac yn ei nerth Ef yn unig y mae modd i neb dystio i Grist a chyhoeddi ei Efengyl. Gwaetha'r modd, anghofiais hynny'n rhy fynych o lawer dros y blynyddoedd gan ddibynnu, yn ofer gwaetha'r modd, ar fy ngallu a'm cryfder fy hun. Gwn fod Duw yn ei drugaredd yn maddau hyd yn oed y ffolineb a'r pechod hwnnw. Ond ni ddylai hynny beri i mi fodloni ar beidio â cheisio bob dydd nerth yr Ysbryd Glân i ddwyn fy nhystiolaeth i'r Arglwydd Iesu a'i gariad.

**JOHN PRITCHARD**

# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2023

**1. Croeso gan y Cadeirydd**
Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

**2. Cadaranhau Cofnodion Cyfarfod 21ain Chwefror, 2023**
Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**3. Derbyn unrhyw sylwadau o'r Cofnodion**
Adroddwyd fod cwyn wedi ei hanfon at Gyngor Gwynedd am barcio ar y llinellau melyn ger siop Spar, Llanrug.

Adroddwyd fod coeden er cof am y diweddar Gynghorydd Charles Jones ym Mharc Pwll Moelyn wedi ei thorri, a bod Menter Fachwen am edrych beth ellir ei wneud.

Adroddwyd fod y plac i fynd ar y coed er cof am y diweddar Gynghorwyr Brian Jones (Cwm y Glo) a Charles Jones (Llanrug) wedi ei baratoi.

**4. Adroddiad y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Aelod dros Gwm-y-Glo ar Gyngor Gwynedd**

**5. Adroddiad y Cynghorydd Beca Brown, Aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd**

**6. Diweddariad gan Lowri Hedd Vaughan o GwyrddNi**
Croesawyd Lowri Vaughan o GwyrddNi i'r cyfarfod a diolchwyd iddi am ei phresenoldeb. Aeth ymlaen i gyflwyno diweddariad ar raglen GwyrddNi trwy amlinellu'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn a'r dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Penderfynwyd: Derbyn, a diolch am y wybodaeth.

**7. Adroddiad o'r Pwyllgor Bwyd a Llesiant**
Adroddwyd fod tipyn o waith wedi ei wneud ar gyfer y cynllun bwyd a bod y gwaith yn mynd rhagddo'n dda iawn.

Adroddwyd fod arian wedi ei glustnodi o grant ar gyfer archebu cyflenwad o fara ac wyau am 26 wythnos ynghyd â nwyddau eraill.

Adroddwyd fod y niferoedd sy'n derbyn y pecynnau bwyd yn eithaf sefydlog ond bod 4 cais o'r newydd wedi ein cyrraedd yn ddiweddar.

Penderfynwyd: Derbyn, a diolch am yr adroddiad.

**8. Adroddiad o Bwyllgor y Fynwent**
Adroddwyd fod y Pwyllgor wedi cyflawni nifer o'i flaenoriaethau ar gyfer 2022-23. Roedd y rhain yn cynnwys gosod hysbysfwrdd ychwanegol yn y Fynwent, sefydlu system ddigidol, gosod placiau yn y Fynwent yn nodi'r ardaloedd, ac edrych ar iechyd a diogelwch.

Gofynnir i'r Cyngor yn ogystal gymeradwyo rheolau newydd ar gyfer y Fynwent. (Mae copi eisoes wedi ei gylchredeg.)

Adroddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cyfarfod yr wythnos flaenorol ac wedi adnabod ei flaenoriaethau ar gyfer 2023-24 fel a ganlyn:

a) Parhau i wneud asesiadau risg ar y cofebion a'r Fynwent.
b) Parhau i gystadlu yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn.
c) Monitro gofod yn y fynwent.
d) Mabwysiadu polisiau gwyrdd a bioamrywiol.
e) Datblygu polisi cofebion.
f) Adolygu rheolau'r Fynwent.
g) Arwyddion ychwanegol i'r Fynwent i atgoffa pobl o bwysigrwydd sicrhau bod y giatiau i'r Fynwent wedi cau am fod achos diweddar o ddefaid wedi medru dod i mewn i'r Fynwent.

Penderfynwyd: a) Derbyn, a diolch am yr adroddiad.
b) Cymeradwyo rheolau newydd i'r Fynwent o ddyddiad y cyfarfod hwn.

**9. Cais am gymorth ariannol – oddi wrth Glwb Pêl-droed Llanrug Unedig**
Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Glwb Pêl-droed Llanrug Unedig ar gyfer trwsio a gwella'r Cwt Te.

Datgan buddiant: Y Cynghorydd Meirwen Lloyd; y Cynghorydd Beca Brown; y Cynghorydd Berwyn Parry Jones.

Penderfynwyd: Cyfrannu £1,150 at Glwb Pêl-droed Llanrug Unedig.

**10. Dirprwyo penderfyniad o bwrcasu gliniadur i'r Pwyllgor Cyllid**
Adroddwyd fod gwahanol opsiynau wedi eu trafod. Wedi ystyried y gwahanol opsiynau, argymhellwyd pwrcasu ar gyfer yr aelodau y gliniaduron a ddefnyddir gan gynghorau sir Gwynedd a Môn a chynghorau eraill ar draws Gogledd Cymru.

Penderfynwyd: Wedi trafodaeth ar y mater penderfynwyd symud ymlaen i bwrcasu gliniaduron ar gyfer yr aelodau.

**11. Ceisiadau Cynllunio**
a) Rhif y Cais: C23/0145/23/LL
Cais i godi sied at ddefnydd storio peiriannau. Fferm Glan Seiont, Llanrug.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

b) Rhif y Cais: C23/0164/23/DT
Estyniad unllawr a phorth newydd. Ty Newydd, Ceunant.


Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

c) Rhif y Cais: C23/0180/23/DT
Estyniad cefn unllawr. Tai Arfonia, Tai Rhythallt, Llanrug.

Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.

## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau mis Mehefin:
4ydd Mehefin, 9:30 yb: Boreol Weddi
11eg Mehefin, 9:30 yb: Cymun Bendigaid; 4:00yh – Gwasanaeth Teulu
18fed Mehefin, 9:30 yb: Boreol Weddi
25ain Mehefin, 9:30 yb: Cymun Bendigaid
Hefyd, cynhelir naill ai wasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu'r Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11.00 yb.
Ar nos Sul, Mai 28, am 6.00 yh fe gynhelir Cyngerdd Coffa er budd Ward Alaw. Y pris mynediad fydd £10.







Efa Baines ar ei ffordd i dorri record 3 Dringfa Penmaenmawr." (Llun: Aaron Comeault)

# Dal i redeg....

**... ar y lôn**
Bu'n fis hynod o brysur i redwyr y fro gydag o leiaf ddwy ras yn cael eu cynnal ym mhob wythnos, ac ambell i redwr yn ei mentro hi ym mhob un! Rasys lleol oedd y mwyafrif, ond teithiodd Russell Williams, Bethel i gystadlu gyda'r miloedd yn Ras 10k y Birmingham Great Run. Ar y Sadwrn cyntaf ym mis Mai roedd her Taith y Pererinion, gyda nifer o'r fro yn cymryd rhan – rhai o Fangor i Aberdaron, gan ddringo i Ddeiniolen a dringo wedyn o Lanberis dros ystlys Moel Eilio, anelu am Foel Smytho cyn disgyn i Benygroes ac ymlaen am Glynnog a'r Eifl. Yn Llanaelhaearn roedd eraill yn ymuno i gwblhau'r farathon am Enlli. Cwblhau'r cwrs oedd yr her i'r mwyafrif, ond roedd eraill yn rasio. Darren Owen, Llanrug ddaeth yn ail yn y ras o Fangor i Aberdaron, gyda Hugh a Fiona Morgan yn cwblhau'r cwrs yn safle 17fed. Roedd tri arall o'r fro wedi cwblhau'r cwrs o Lanaelhaearn i Aberdaron (pellter marathon) sef Guto Edwards, Llanrug, Maggie Oliver, Dinorwig ac Emily Woods, Llanberis.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhian Roberts, Waunfawr a Donna Taylor, Llanrug am gwblhau Marathon Llundain a chodi arian at wahanol elusennau.

Ar y nos Fercher gyntaf ym Mai cynhaliwyd Ras 10k Rhostryfan; ras boblogaidd iawn, ac yn arbennig felly gan aelodau Rhedwyr Cybi o Ynys Môn am ryw reswm. Daeth Dyfed Thomas, Llanrug yn bumed yn y ras ac yn ail dros 40 oed, ac enillodd Arwel Lewis, Bethel yr adran dros 60 oed.

Ar nos Fercher, 7fed o Fehefin bydd Ras 5K Llanrug yn cael ei chynnal. Bydd cofrestru yn yr Ysgol Gynradd o 5.15pm. Ras y plant i gychwyn am 6.00pm a'r oedolion am 7.30pm. A bydd Linette Gwilym, Llanrug a Kelly O'Donnell, Bethel, dwy o arweinwyr y rhaglen Ffit Cymru S4C yn cystadlu.

**... ac ar y mynydd**
Ers rhifyn diwethaf yr *Eco* cynhaliwyd tair ras fynydd. Yn Ras y Moelwyn, Jenny Heming, Llanberis oedd y ferch gyntaf gan orffen yn bedwaredd ar bymtheg o dros hanner cant o redwyr. Ar ras Moel Wnion roedd Dyfed Thomas, Llanrug yn drydydd dros 40 oed, ond aeth un yn well yn Ras Moel Eilio, gan orffen yn ail yn y ras a'r cyntaf dros 40 oed. Roedd Ras Moel Eilio unwaith eto eleni yn codi arian tuag at ymchwil cancr.

**Cyfres Rasys Mynydd Nos Fawrth**
Ddiwedd Ebrill cynhaliwyd Ras y Tair Dringfa ym Mhenmaenmawr – gan gynnwys un ddringfa drwy eithin mân. Doedd ryfedd fod llawer o'r rhedwyr yn gwisgo menyg garddio! Deri Hockley, Llanberis oedd y bachgen cyntaf dan 17 oed, Efa Baines, Clwt y Bont y ferch gyntaf dan 19 oed, a'i chwaer, Mabli yn 3ydd. Helen Teasdale, Llanberis ddaeth yn ail ferch dros 50 oed, Phil Jones, Waunfawr yn gyntaf dros 70 oed a Maggie Oliver, Dinorwig y ferch gyntaf dros 75 oed. Yr un enwau yn union ddaeth i'r brig yn Ras Pen Dinas o Nant Peris. Bu peth amrywiaeth yn Ras Y Garn, Rhyd-ddu, gyda Deri Hockley yn gorffen yn drydydd yn y ras ac yn gyntaf dan 17 oed. Efa Baines oedd y ferch gyntaf a'r gyntaf dan 19 oed, gydag Anwen, chwaer Deri yn ail ferch ac yn ail dan 19 oed. Roedd Rhys ap Gwilym, Llanberis yn ail dros 40 oed, Phil Jones yn gyntaf dros 70 oed a Maggie Oliver yn gyntaf dros 75 oed.

Cynhaliwyd Ras Mynydd Mawr ar y nos Fawrth cyn i newyddion yr *Eco* gael eu hanfon i'r golygyddion. Cawn ganlyniadau'r rheini yn y rhifyn nesaf. Bydd rasys Moel y Gest, Graig Goch, y Gogarth a Thal y Mignedd wedi eu cynnal erbyn hynny hefyd, a gwell siawns o wybod pwy sy'n debygol o ennill y gwahanol gategoriau oedran.

**Rasys Ieuenctid**
Dyma adroddiad a dderbyniwyd gan Deri Hockley, Llanberis, a hynny'n benodol am y gwahanol rasys ieuenctid a gynhaliwyd dros yr wythnosau diwethaf. Mae Deri yn un o redwyr llwyddiannus y gyfres ieuenctid a'r gyfres nos Fawrth, ond mae'r ddawn ganddo hefyd i ddisgrifio'r cystadlu. Llawer o ddiolch am y cyfraniad.

O wobrwyon unigryw i gymuned ardderchog mae yna bob math o hwyl yn y rasys mynydd lleol i bobl o bob oedran, o blant pump oed i bobl dros wythdeg. Mae yna lawer o rasys i blant a drefnwyd gan y clwb lleol Rhedwyr Eryri, fel y Rasys Nos Fawrth a'r Gyfres Ieuenctid Gogledd Cymru.

Mae'r rasys nos Fawrth yn digwydd pob wythnos rhwng diwedd mis Mawrth a chanol mis Mehefin. Maent yn rhoi cyfle i chi ddarganfod corneli hyfryd gogledd orllewin Cymru – o gropian i fyny bryniau serth Penmaenmawr i garlamu i lawr y Garn, Rhyd-ddu. Mae'r plant dan 15 yn rhedeg rasys penodol o bellterau gwahanol, ond mae'r ieuenctid dros 15 oed yn cael rhedeg efo'r oedolion – mae'n hwyl iawn i guro rhai ohonyn nhw! Mae llawer o blant y fro wedi cystadlu yn llwyddiannus. Mae Poppy Collins (Llanrug) yn arwain y genod dan 11 oed efo pum buddugoliaeth dros chwe ras, tra bod Llŷr ap Rhys (Nant Peris) ar frig y categori hogiau dan 9 oed efo'r un sgôr. Yn y categorïau hŷn, mae rhedwyr lleol yn dominyddu'r categori merched dan 19: ras tair ffordd rhwng Efa a Mabli Baines (Clwt y Bont) ac Anwen Hockley (Llanberis). Torrodd Efa Baines record y merched dan 19 oed ar Ras 3 Dringfa Penmaenmawr.

Mae'r Gyfres Ieuenctid Gogledd Cymru yn gyfres o chwe ras mynydd yn ei hail flwyddyn eleni (mwy o siawns i guro record!) Maent yn digwydd ar benwythnosau ar gyrsiau hirach. Erbyn hyn rydym wedi cael ras Mynydd Conwy, Moel Wnion a Moel Eilio. Er gwaethaf cystadleuaeth gan redwyr cryf o bob rhan o Gymru a gogledd orllewin Lloegr, mae plant lleol eto yn perfformio'n dda – mae Olwen Baines yn arwain y genod dan 15 oed ar ôl y tair ras gyntaf.

Wrth gwrs, ni fyddai unrhyw un o'r rasys yn bosibl heb y trefnwyr, y stiwardiaid a phawb sydd yn helpu. Ar ran y holl blant sy'n rhedeg – diolch!

**Deri Hockley**



Poppy Collins yn arwain y genod dan 12 oed yn Ras Moel Eilio." (Llun: Alison Wiggett).

# Creigiau Geirwon: Sioe sy'n datgelu hanes colledig tywyswyr mynydd cynnar Eryri

Bydd sioe newydd sy'n dod i Pontio, Bangor ar 22ain, 23ain a 24ain Mehefin yn cyflwyno hanes tywyswyr mynydd cynnar Cymru, hanes lleol sydd heb dderbyn digon o sylw yn y gorffennol.

Roedd rhai o'r tywyswyr mynydd cynnar, yr entrepreneuriaid o blith tyddynwyr, tafarnwyr a chwarelwyr, yn gweld cyfle i ennill ceiniog drwy rannu'u gwybodaeth leol wrth arwain botanegwyr, artistiaid, ac eraill, ar hyd llethrau geirwon Eryri.

Bydd yr actorion Iwan Charles, (*The Pact, Be di'r Ots, Emyn Roc a Rôl*) Llŷr Evans (*Enid a Lucy, Hinterland, Twin Town*) a Manon Wilkinson (*Hidden, Hinterland, Stâd*) yn defnyddio hiwmor a drama i'n tywys drwy'r hanes, gan ein cyflwyno i sawl cymeriad ar hyd y daith. Maent yn cael eu cefnogi gan gerddoriaeth byw gan Casi Wyn (*Casi a Casi & The Blind Harpist*) neu mae Mared Williams yn cymryd lle Casi ar Sadwrn Mehefin 24, a Patrick Rimes (*Calan, Vri*), a symud ar raffau dan arweiniad dawnswyr fertigol Vertical Dance Kate Lawrence.

Yr actor Wyn Bowen Harries sydd y tu ôl i'r cyfan. Ef sydd wedi sgwennu'r ddrama ei chynhyrchu a'i chyfarwyddo, gyda Kate Lawrence yn cyfarwyddo'r ddawns fertigol unigryw, sydd yn fodd i gyfleu'r dringo ar hyd y llethrau.

Meddai Wyn,

"Dyma agwedd ar ein hanes sy'n newydd i'r rhan fwyaf ohonom. Rydym ella'n gwybod bod artistiaid y 18fed ganrif yn teithio i Eryri i baentio'r golygfeydd 'gwyllt' rhamantus, a bod botanegwyr cynnar wedi ymweld i ganfod a chasglu planhigion prin, ond roeddynt angen gwybodaeth leol i gyflawni hyn. Yn amlwg, roedd rhai brodorion yn fotanegwyr da a oedd yn adnabod y planhigion prin a'r mannau lle y tyfant.

Mae'r sioe yn cyflwyno peth o'u hanes drwy gyfuniad o ddrama, dawns, cerddoriaeth, hanes a hiwmor. Gyda newid hinsawdd a'r bygythiad i'n planhigion gwyllt, mae hyn yn wybodaeth werthfawr i ni heddiw."




Daw'r record argraffedig cyntaf o rhywun yn cyflogi tywysydd mynydd yn Eryri o 1639, pan ddaeth Thomas Johnson, apothecari o Lundain ar ymweliad. Ysgrifennodd sut y bu iddo gyflogi mab ffermwr lleol i'w tywys i fyny'r Wyddfa. Yn 1658 llogodd botanegydd mwyaf nodedig Lloegr, John Ray, yntau dywysydd ar gyfer ei ymweliad â'r Wyddfa.

Yn 1706 disgrifiwyd Edward Lluyd fel 'y naturiaethwr gorau yn Ewrop ar hyn o bryd'. Bu'n ymweld ag Eryri o tua 1680 ymlaen. Ef a adnabyddodd Lili'r Wyddfa yng Nghwm Idwal, fel rhywogaeth unigryw, er nad oedd y lili wen fechan yn ei blodau ar y pryd. Ailenwyd Lili'r Wyddfa neu brwynddail y mynydd, yn ôl y drefn wyddonol yn *Lloydia serotina* er anrhydedd iddo.

Wrth son am gasglu planhigion esbonia Edward Lluyd eu bod i'w cael yn y llefydd mwyaf anodd i'w cyrraedd: *'you must make use of a guide: who must not direct you to the easiest way of goeing up; but must bring you to all steep & craggie cliffs…'*

Erbyn cyfnod Oes Fictoria roedd casglu planhigion prin wedi dechrau dod yn ffasiwn ac yn arwydd o statws i'r dosbarth canol ac uwch. O'r herwydd roedd bygythiad i fodolaeth nifer o'r planhigion cynhenid. Roedd William Williams neu 'Will Bŵts' ymysg yr enwocaf o'r tywyswyr, ac roedd enw da iddo, gan iddo arbenigo mewn botaneg. Ond roedd Wil Bŵts yn sylweddoli fod yntau a'i fath yn rhan o'r broblem, yn aml roedd o ac eraill yn gwrthod datgelu lleoliad planhigion prin. Roedd yn aml yn eu cuddio o'r golwg ac roedd ganddo gynllun i greu ynys yng nghanol llyn bychan yn Llanberis- sydd bellach o dan y lôn osgoi. Tasai'r cynllun wedi'i wireddu hon fyddai gwarchodfa natur gyntaf Eryri ac efallai Cymru!

Dyma drydydd cynhyrchiad Cwmni Pendraw. Mae'r cwmni theatr yn arbenigo mewn cyflwyno themâu hanes a hinsawdd drwy gynyrchiadau hollol unigryw a gafaelgar. I archebu tocyn ffoniwch Pontio ar 01248 382828 neu drwy eu gwefan www.pontio.co.uk

Noddir y cynhyrchiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau.

# Y SGWÂR BOCSIO

Roedd misoedd Ebrill a Mai yn llwyddiannus iawn i Gymru yn y Sgwâr Bocsio wrth i sêr o Gymru gipio dau wregys.

Mis Ebrill, roedd llygaid y byd bocsio ar y brifddinas wrth i'r gŵr o Gaerdydd, Joe Cordina, wynebu Shavkat Rakhimov o Tajikistan. Roedd y ddau wedi bod yn Bencampwr y Byd yn y categori Uwch Bwysau Plu ('*Super Featherweight*') yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cordina ym mis Mehefin y llynedd wedi iddo drechu Kenichi Ogawa o Japan, ond oherwydd anaf i'w law dde ni allodd y Cymro amddiffyn ei deitl ym mis Tachwedd, a chollodd Goron y Byd! Bu dau arall yn ymladd am y gwregys wrth i'r Tajik Shavkat Rakhimov guro Zelfa Barrett yn Abu Dhabi o fewn 9 rownd i ennill teitl Uwch Bwysau Plu y Byd.

Felly, roedd hi am fod yn dipyn o ornest, a'r ddau focsiwr yn ddi–guro yn eu gyrfa broffesiynol. Daeth Cordina i mewn i'r sgwâr gyda Dafydd Iwan yno yn canu 'Yma o Hyd'. Dechreuodd y Cymro ar dân wrth iddo lorio Rakhimov yn yr ail rownd, ond cododd y gŵr o Tajikistan ar ei draed.

Hanner ffordd trwy'r ornest, roedd y pwysau cynnar gan Cordina yn dechrau dweud ar Rakhimov wrth i'w lygaid dde ddechrau chwyddo. Ond yn y 10fed rownd daeth Cordina dan bwysau wrth i Rakhimov gael cwpwl o ergydion ar y Cymro, ond gorffennodd Cordina'r ornest yn gryf.

Felly, at y beirniaid. Y beirniad cyntaf yn rhoi'r ornest i Rakhimov, ond y ddau feirniad arall yn rhoi buddugoliaeth i Joe Cordina. Felly'r Cymro yn adennill teitl Uwch Bwysau plu IBF y Byd.

Yna, ym mis Mai roedd Cymraes yn trio hawlio Pencampwriaeth gyntaf erioed Prydain ar gyfer Merched yn y sgwâr bocsio. Roedd Lauren Price yn trio ychwanegu Gwregys Prydain at ei hanrhydeddau yn dilyn Medal Aur yng Ngemau'r Gymanwlad yn 2018 a Gemau Olympaidd Tokyo yn 2020. Dim ond ei phedwerydd gornest ers troi'n broffesiynol oedd hon i'r cyn bêl-droedwraig ryngwladol wrth iddi wynebu Kirstie Bavington am Wregys Pwysau Welter Prydain yn Birmingham.

Cychwynodd yr ornest yn dynn. Ond erbyn y bedwaredd rownd roedd Lauren Price wedi dechrau ymosod, gyda chyfuniadau o ergydion ar Bevington. Roedd y Gymraes yn ymosodol, ac er gwaethaf ambell i ergyd gan Bevington roedd ymateb Lauren Price yn wych a'r Saesnes yn methu â chadw i fyny â'r Gymraes.

Ar ddiwedd yr ornest 10 rownd roedd hi'n amser coroni Pencampwr Bocsio Prydeinig cyntaf i Ferched, ac yn unfrydol daeth Lauren Price yn fuddugol. Roedd Gwregys Pwysau Welter Merched Prydain yn mynd draw i Ystrad Mynach felly.

Bydd rhaid gweld nawr pryd fydd gornest nesaf Joe Cordina a Lauren Price. Tybed a fydd cyfle i'r ddau amddiffyn eu gwregys ar yr un noson yn y brifddinas? Pwy a ŵyr? Ond, am nawr, gall Cymru fwynhau llwyddiant yn y Sgwâr Bocsio.

**Elgan Rhys Jones**

# Merched Cymru yn cyrraedd Cynghrair y Cenhedloedd




Yn dilyn llwyddiant Cynghrair y Cenhedloedd yng nghalendr pêl-droed y dynion, gwnaethpwyd y penderfyniad i gyflwyno'r gystadleuaeth i dimau rhyngwladol y merched hefyd. Bydd eleni yn nodi y tro cyntaf i'r gystadleuaeth gael ei chynnal gan dimau'r Merched. Pwrpas y gystadleuaeth yw i leihau gemau cyfeillgar ac fe all roi cyfle ychwanegol i dimau gyrraedd yr Ewros a Chwpan y Byd.

Ar gynffon llwyddiant tîm Merched Cymru yn ddiweddar, maent wedi cael eu rhoi yng Nghynghrair A (sef cynghrair uchaf y gystadleuaeth). O fewn y Gynghrair yma mae 4 grŵp a mae 4 tîm ym mhob grŵp. Yn rhannu grŵp efo Cymru mae Gwlad yr Iâ, Denmarc ac Yr Almaen.

Mi fydd y gystadleuaeth yma yn rhoi cyfle gwych i Ferched Cymru fagu hyder ymysg goreuon Ewrop. Mae Merched Cymru ar hyn o bryd mewn cyfnod o drawsnewid, gyda merched ifanc yn camu ymlaen a rhai o'n chwarewyr mwyaf profiadol yn cymryd cam yn ôl. Bydd y profiad o fod yng Nghynghrair A yn werthfawr ofnadwy i'r chwaraewyr ifanc talentog sydd yn y garfan, megis Carrie Jones, Lily Woodham ac Esther Morgan. Mi fydd hefyd yn fanteisiol cael gemau cystadleuol yn hytrach na gemau cyfeillgar. Mae Cymru ar hyn o bryd yn ddi-guro mewn 6 gêm ac yn eistedd yn safle 31 ar restr detholion y byd.


Mae Gwlad yr Iâ ar hyn o bryd yn y 14eg safle yn y byd a heb golli yn eu 5 gêm diwethaf. Ond fodd bynnag, mae Cymru wedi chwarae yn eu herbyn yn ddiweddar (ym mis Chwefror) ac wedi llwyddo i gael gêm gyfartal 0-0 yr adeg hynny. Felly mae gobaith i ferched Gemma Grainger.

Hefyd yn y grŵp mae Denmarc sydd un safle o dan Gwlad yr Iâ (15fed yn y byd). Mae Denmarc wedi cymhwyso i Gwpan y Byd eleni sydd yn cael ei chynnal yn Awstralia a Seland Newydd dros yr haf. Bydd felly yn gyfle i Gemma Grainger feddwl am ei thactegau yn eu herbyn ac eu gwylio yn ofalus. Mae Denmarc wedi curo eu 4 gêm diwethaf gan gynnwys yn erbyn Sweden sydd yn 3ydd yn y byd. Y tro diwethaf i Gymru chwarae yn eu herbyn oedd yn 2021 ac fe lwyddodd y tîm i gael gêm gyfartal 1-1. Dwi'n siwr y byddent yn ddigon hapus gyda sgôr tebyg unwaith eto.

Yn cwblhau y grŵp mae Yr Almaen. Nhw yw'r ail dîm gorau yn y byd ar hyn o bryd. Maent hwythau fel Denmarc wedi sicrhau lle yng Nghwpan y Byd yr haf yma, felly eto, mi fydd yn gyfle da i Gemma Grainger adolygu ein gwrthwynebwyr. Maent hefyd ar rediad da gan ennill 5 gêm o'u 8 diwethaf.

Mae felly tipyn o fwlch rhwng Cymru a'u gwrthwynebwyr ond mae unrhyw beth yn bosib mewn pêl-droed! Yn bendant mae'n edrych fel grŵp cyffrous a deniadol ond mi fydd yn heriol. Mi fydd y gemau yn cael eu cynnal yn ystod misoedd Medi, Hydref a Tachwedd y flwyddyn yma.

**Mared Rhys Jones**




# Beicio Mynydd

Rhoddwyd sylw eisoes i lwyddiant Osian Morris o Lanrug mewn cystadlaethau rasio beic ar dir garw i lawr llethrau mynydd. Yn y ddeufis diwethaf bu'n cystadlu yn y Gyfres Genedlaethol, a dwy ras heriol iawn. Daeth yn bumed yn ne Cymru yn ystod mis Ebrill, ond daeth mwy o lwyddiant iddo ar ôl teithio yr holl ffordd i Fort William yn yr Alban yn ystod mis Mai.

Y cwrs yn yr Alban yw'r hwyaf yng Nghylchdaith Cyfres y Byd, ac yn denu beicwyr mynydd proffesiynol yno. Mae'r rhai sy'n cael eu cynnwys yn y dosbarth 'elite' yn gallu cwblhau'r cwrs mewn 4 munud a 2 eiliad, a'r beicwyr proffesiynol yno i ennill pwyntiau er mwyn cael cystadlu ym Mhencampwriaeth y Byd, a gynhelir yno ym mis Awst eleni. Ond doedd y cystadleuwyr yn yr adrannau ieuenctid ddim yn bell o'u hôl. Roedd y cwrs yn cynnwys llwybrau coedwig a thir agored, ac Osian yn cystadlu yn yr adran i feicwyr 13-14 oed. Cwblhaodd y cwrs heriol mewn 5 munud 30 eiliad a sicrhau'r trydydd safle. Llongyfarchiadau mawr i Osian am gyrraedd safon mor uchel yn ei gamp.







ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >